
# Adolygiad Perfformiad Blynyddol

2018/19




Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 3 |
| **Rhan 1 – Adroddiadau am gynnydd yn 2017/18 wrth gyflawni'r camau i fodloni Amcanion Lles y Cyngor** | **Tudalen 4** |
| **Diogelu** Pobl rhag Niwed | **Tudalen 5** |
| Gwella **Addysg a Sgiliau** | **Tudalen 19** |
| Gweddnewid ein **Heconomi a'n Hisadeiledd** | **Tudalen 30** |
| **Trechu Tlodi** | **Tudalen 45** |
| **Trawsnewid** a datblygu **Cyngor y Dyfodol** | **Tudalen 60** |
| Cynnal a gwella **cyfoeth naturiol a bioamrywiaeth Abertawe** | **Tudalen 69** |
| **Rhan 2: Sut rydym wedi gweithio wrth gymryd camau i gyflawni ein Hamcanion Lles** | **Tudalen 84** |
| **Rhan 3 – Sut mae'r Cyngor yn newid ein dull o weithio: Ble mae angen i'r newid ddigwydd** | **Tudalen 88** |
| **Rhan 4 – Llywodraethu ac Atebolrwydd** | **Tudalen 91** |
| Ble gellir canfod gwybodaeth ychwanegol | Tudalen 95 |

**Cyflwyniad –** Adolygiad Blynyddol o Berfformiad 2018/19

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2018/22, *Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy*, yn disgrifio gweledigaeth y cyngor ar gyfer Abertawe, ein 5 blaenoriaeth allweddol (yr Amcanion Lles a'r Amcanion Gwella), a gwerthoedd ac egwyddorion ein sefydliad a fydd yn sylfaen i gyflawni'n blaenoriaethau a'n strategaeth gyffredinol.

Mae hyn yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i osod Amcanion Lles ac Amcanion Gwella.

Dengys ein hamcanion lles gyfraniad y cyngor at saith nod cenedlaethol Cymru[1] a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ('y Ddeddf') ac maent yn disgrifio sut byddwn yn mwyafu'r cyfraniad hwn at y nodau cenedlaethol ac at les cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Abertawe drwy weithio'n unol â'r egwyddorion cynaliadwyedd a amlinellir yn y Ddeddf.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn egluro'r camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Lles a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol sy'n cael eu hamlinellu yn y Ddeddf.

Mae'r Cynllun hefyd yn egluro sut rydym yn mwyafu ein cyfraniad at ein nodau lles a'r amcanion cenedlaethol trwy ein dull o weithio, sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion cynaliadwy dilynol:

- Edrych ymlaen at yr heriau tymor canolig a thymor hir.
- Atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu.
- Sicrhau nad yw ein hamcanion yn gwrth-ddweud ei gilydd, a'u bod yn ategu amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Cynnwys pobl leol.

**Ein huchelgeisiau a'n hymrwymiadau i breswylwyr – ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2018/22**

Er mwyn ateb yr heriau hyn, fe wnaethom ni flaenoriaeth Pum Amcan Lles yn 2017/18. Dyma oedd yr amcanion hynny:

- ***Diogelu*** *pobl rhag niwed* - er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed a cham-fanteisio.
- *Gwella* **Addysg a Sgiliau** - fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd.
- *Trawsnewid* ***ein Heconomi a'n Hisadeiledd*** - fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg a ffyniannus ac economi leol a fydd yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion.
- ***Trechu Tlodi*** - fel y gall pob unigolyn yn Abertawe gyflawni ei botensial.
- ***Trawsnewid*** *a datblygu* ***Cyngor y Dyfodol*** - fel ein bod ni a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gynaliadwy ac yn addas i'r dyfodol.
- *Cynnal a gwella* ***adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe*** – i sicrhau y byddwn ni'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth, lleihau ein hôl troed carbon, gwella ein gwybodaeth am ein hamgylchedd naturiol a'n dealltwriaeth ohono, a bod o fudd i iechyd a lles.

[1] Dyma'r Nodau Cenedlaethol: Cymru Ffyniannus; Cymru Wydn; Cymru Iachach; Cymru Fwy Cyfartal; Cymru â Chymunedau Mwy Cydlynol; Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

**Adolygiad o Amcanion Lles 2018/19**

Fe wnaeth y Cyngor adolygu ei Amcanion Lles yn ystod 2018/19 ac mae wedi adnewyddu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018/22. Mae hyn yn dilyn cynhyrchu Cynllun Lles gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), adolygiad o gynnydd ac asesiad o'r dystiolaeth, ystyried sut gallwn ni gau unrhyw fylchau, a mwyhau ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol ymhellach.

Y prif newid yn dilyn yr adolygiad yw ychwanegu chweched amcan lles at Gynllun Corfforaethol 2018/22 - *'Cynnal a gwella Cyfoeth Naturiol a Bioamrywiaeth Abertawe'.*

Adroddiad y Cyngor am ei gynnydd wrth gyflawni'r camau i fodloni ei amcanion lles fel yr amlinellir hwy yn y Cynllun Corfforaethol yw Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2018/19 (yr 'Adolygiad'). Drwy wneud hynny, mae'r adolygiad yn ceisio disgrifio sut mae'r cyngor wedi gweithio'n unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy er mwyn mwyafu ei gyfraniad at y nodau cenedlaethol.

**Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth**

Caiff y wybodaeth a fanylir o dan Amcan *Cynnal a gwella Cyfoeth Naturiol a Bioamrywiaeth Abertawe* yn yr adroddiad hwn ei defnyddio fel sail i Adroddiad y Cyngor ynghylch y Ddyletswydd Bioamrywiaeth o dan Adran 6 i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr eleni.

**Sut allwch chi gyfranogi?**

Gallwch chi gyfranogi a dweud eich dweud trwy droi at http://www.swansea.gov.uk/haveyoursay. Gallwch chi hefyd gyfranogi trwy gyfrwng Byrddau Craffu a phanelau'r Cyngor, sydd ar agor i'r cyhoedd: https://www.swansea.gov.uk/scrutiny. Gallwch chi gysylltu â'r Cyngor ar unrhyw adeg trwy e-bostio improvement@swansea.gov.uk neu ffonio 01792 637570.

## Rhan 1 – Adroddiadau am gynnydd yn 2018/19 wrth gyflawni'r camau i fodloni Amcanion Lles y Cyngor

Mae'r rhan hon o'r Adolygiad yn adroddiad am y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth gyflawni'r camau a nodwyd yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2018/22 er mwyn gweithio tuag at gyflawni pob amcan lles.

Ar gyfer pob Amcan Lles, mae'r Adolygiad yn nodi'r penawdau dilynol:

1. Pam mae hwn yn Amcan Lles.
2. Y camau y dywedom ni y byddem yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r Amcan Lles hwn.
3. Beth yn union fydd llwyddiant.
4. Camau i wneud cynnydd i fodloni'r amcan lles hwn – beth lwyddodd.
5. Sut mae'r Amcan Lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau lles cenedlaethol.
6. Y gwersi a ddysgwyd a meysydd y dylid eu datblygu.

Mae Rhan 1 hefyd yn cynnwys astudiaethau achos i ddangos effaith y camau yn well. Yn gyffredinol, dengys yr adroddiadau bod y cyngor yn gwneud cynnydd wrth gyflawni'r camau i fodloni ei Amcanion Lles, a chaiff y meysydd y dylid eu datblygu a'r gwersi a ddysgwyd eu nodi ar ddiwedd pob adroddiad.

**Diogelu** pobl rhag niwed

## 1. Pam mae hwn yn Amcan Lles.

- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod dinasyddion yn byw eu bywydau heb brofi unrhyw niwed a chamfanteisio.
- Mae angen ystyried bod diogelu pobl fregus yn gyfrifoldeb i bawb ym mhob gwasanaeth yn y Cyngor, i'r holl Aelodau etholedig ac i'r sawl sy'n cyflawni gwaith ar ran y Cyngor.
- Rydym hefyd yn dymuno i blant fod yn ddiogel rhag niwed ac aros gyda'u teuluoedd neu dderbyn cymorth mewn lleoliadau teuluol, ble mae'n ddiogel iddynt wneud hynny.
- Rydym yn dymuno sicrhau bod yr holl oedolion bregus yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a'u bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn.
- Rydym yn dymuno mynd i'r afael â cham-drin domestig a sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cynorthwyo'n llawn.
- Rydym yn dymuno y gwnaiff pobl heneiddio'n dda a gallu byw mor annibynnol a diogel â phosibl yn eu cartrefi eu hunain.

## 2. Y camau y dywedom ni y byddem yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r Amcan Lles hwn.

- Gweithredu'r Polisi Diogelwch Corfforaethol newydd i sicrhau bod diogelu yn 'gyfrifoldeb i bawb'.
- Parhau i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiogelu a sut i nodi pryderon ac adrodd amdanynt ymhlith staff y Cyngor, Aelodau etholedig, partneriaid, y cyhoedd a'r sawl sy'n gweithio ar ran y cyngor.
- Parhau i sicrhau bod y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd yn gadarn ac yn effeithiol wrth fodloni'r gofynion statudol a osodir ar yr Awdurdod fel y'u nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 i wella canlyniadau lles oedolion bregus yn Abertawe.
- Diweddaru ac adnewyddu'r Strategaeth i Leihau'r Nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC) sy'n Ddiogel i reoli'r galw a chynnal mwy o waith dwysach gyda phlant ag anghenion cymwys a lleihau nifer y plant y mae angen iddynt gychwyn derbyn gofal.
- Parhau i weithredu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r sawl sy'n gadael gofal.
- Deall y goblygiadau yn sgil Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) i ddinasyddion ac archwilio gwelliannau ychwanegol y gallai'r Cyngor eu gwneud.
- Parhau i gynnwys plant sy'n derbyn gofal wrth wrando ar eu llais ynghylch y gwasanaethau y maent yn eu derbyn trwy drafod â phlant a phobl ifanc a thrwy arferion sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar eu cryfderau a'u caffaeliadau a'r hyn y gallant hwy a'u teuluoedd ei wneud i helpu eu hunain.
- Parhau i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith i amddiffyn y sawl sydd mewn perygl o niwed a chamfanteisio sylweddol.
- Parhau i gryfhau cydweithredu a phartneriaethau ynghylch diogelu trwy law Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant Bae'r Gorllewin.
- Cydweithio â phartneriaid i wella ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a rhoi ymyriadau a chefnogaeth effeithiol ar waith ar adegau priodol.
- Cydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael â diogelu yn ei ystyr ehangach; er enghraifft, troseddau casineb, caethwasiaeth fodern a bwlio mewn ysgolion.
- Cynnal fframwaith ar gyfer cyflwyno ymyriadau rhaglen Prevent ar y cyd â phartneriaid i gynorthwyo unigolion bregus a allai fod mewn perygl o gael eu denu at eithafiaeth dreisgar a/neu ddi-drais.
- Sicrhau bod Strategaeth Atal y Cyngor yn cael ei mabwysiadu, ei chyflawni a'i monitro yn effeithiol i reoli angen a gwella lles.

- Rhoi mynediad cyfartal i bobl at wasanaethau a pharhau i fwyhau annibyniaeth pobl a'u gallu i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach a gwella ansawdd bywyd.
- Cydweithio â phartneriaid i sicrhau diogelwch a lles plant a phobl ifanc ac i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bawb, gan gynnwys gofalwyr a gofalwyr ifanc.
- Cydweithio â phartneriaid trwy'r Strategaeth Heneiddio'n Dda i helpu pobl i gadw'n iach a heneiddio'n dda.
- Datblygu statws Abertawe fel y Ddinas Gyfeillgar â Dementia gyntaf Cymru.
- Cydweithio â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i sefydlu Siarter ar gyfer Pobl Hŷn i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed.

**3. Beth yn union fydd llwyddiant.**

- Bydd dinasyddion yn byw eu bywydau heb brofi unrhyw niwed a chamfanteisio. Mae trefniadau effeithiol a chadarn yn eu lle sy'n sicrhau bod amddiffyn y bobl fwyaf bregus yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb i bawb. Caiff plant eu cynorthwyo i fod yn ddiogel rhag niwed, ac os bydd hynny'n bosibl, mewn teuluoedd cefnogol yn agos at eu cartref. Caiff yr holl oedolion sy'n agored i niwed eu hamddiffyn rhag niwed ac maent yn gallu cyflawni eu potensial llawn. Byddir yn mynd i'r afael â cham-drin domestig a sicrheir bod dioddefwyr yn cael eu cynorthwyo'n llawn. Caiff pobl eu cynorthwyo i heneiddio'n dda ac i allu byw mor annibynnol a diogel â phosibl yn eu cartrefi eu hunain.

**4. Camau i wneud cynnydd i fodloni'r Amcan Lles hwn – beth lwyddodd.**

Mae diogelu 'yn gyfrifoldeb i bawb'.

- Mae Cyngor Abertawe yn mynd ati'n rhagweithiol i ddiogelu ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae diogelu yn 'gyfrifoldeb i bawb', ac ategir hynny gan Grŵp Diogelu Corfforaethol sy'n cwmpasu'r Cyngor cyfan; mae gan ein gweithlu cyfan ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon y gallent sylwi arnynt sy'n effeithio ar oedolion neu blant bregus.

- Mae Abertawe wrthi'n gweithredu polisi Diogelu Corfforaethol newydd sydd â'r nod o fynd i'r afael ag ystod ehangach o faterion sy'n bryderon posibl, er enghraifft, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, cam-drin ariannol, caethwasiaeth fodern, Llinellau Cyffuriau, troseddau casineb, bwlio mewn ysgolion, a thrwy strategaeth PREVENT leol, radicaleiddio a gweithgareddau posib sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Mae Cyngor Abertawe yn cymryd camau ar y cyd â sefydliadau sy'n bartneriaid iddo i fynd i'r afael â'r ystod lawn o bryderon newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, yn yr hyn a elwir yn 'ddiogelu cyd-destunol'.

- Trwy weithredu'r Polisi Diogelu Corfforaethol diweddaredig, gallwn ni sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gryfhau pob agwedd o ddiogelu, ac mae rhaglen waith newydd yn cwmpasu'r canlynol:

    - Llywodraethu Diogel - bod â rheolaeth glir a pherchnogaeth gorfforaethol ar faterion diogelu, gan gynnwys craffu.
    - Cyflogaeth Ddiogel - gwneud penderfyniadau recriwtio diogelach a sicrhau bod y staff priodol yn gweithio gyda phobl fregus.
    - Gweithlu Diogel - mae'r holl staff wedi'u hyfforddi, maent yn cael eu cynorthwyo, ac maent yn hollol ymwybodol o gyfrifoldebau diogelu a'u dyletswydd i roi gwybod am bryderon.
    - Arferion Diogel - mae gennym ni drefniadau cadarn yn eu lle i roi gwybod am bryderon diogelu, ymchwilio i hynny a chymryd camau dilynol.

- Partneriaethau Diogel - byddwn yn cydweithio â phartneriaid i hybu diogelu a mynd i'r afael â nifer o faterion cymhleth.
- Llais Diogel – mae gan yr unigolyn bregus neu'r plentyn y mae angen iddo deimlo'n ddiogel lais cryf ynghylch beth ddylai ddigwydd.
- Perfformiad Diogel – sut rydym ni'n gwybod a ydym ni'n effeithiol a pharhau i ddysgu fel sefydliad.

Deall diogelu ac ymwybyddiaeth o hynny.

- Disgwylir i'n gweithlu cyfan, staff y Cyngor, Aelodau etholedig, partneriaid, y cyhoedd a'r sawl sy'n gweithio ar ran y Cyngor gwblhau'r hyfforddiant sydd newydd gael ei ddiweddaru ynghylch Diogelu. Mae hyn yn gwella ymwybyddiaeth o'r materion y dylid bod yn wyliadwrus amdanynt a dyletswydd i roi gwybod am bryderon. Erbyn 2018/19, yr oedd yr holl Aelodau etholedig wedi cael hyfforddiant diogelu. Yn sgil llwyddiant y sylw i hybu hyfforddiant gorfodol ynghylch diogelu ar gyfer yr holl staff, mae'r rhan fwyaf o'r staff bellach wedi cwblhau lefel briodol o hyfforddiant gorfodol ynghylch diogelu ac mae'r nifer o o staff newydd sy'n cwblhau hyfforddiant diogelu yn cychwyn gostwng; hyfforddwyd 499 aelod o staff yn 2018/19 o'i gymharu â 737 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae Bwrdd Diogelu Corfforaethol wrthi'n ailystyried mesur mwy perthnasol a diweddaredig o gofnodi perfformiad yn y maes hwn.

- Mae Cyngor Abertawe yn cefnogi amrywiaeth o ymgyrchoedd a digwyddiadau sy'n denu niferoedd da o fynychwyr, yn enwedig yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu (ym mis Hydref 2018 eleni) i wella ymwybyddiaeth ymhlith staff a phartneriaid o faterion megis cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, llinellau cyffuriau a chaethwasiaeth fodern.

**Astudiaeth Achos 1. Siarter gofal moesegol ynghylch caffael.**

**Mae Tîm Caffael Abertawe wrthi'n ymgorffori llwybr Ymateb i Ddioddefwyr Gwrth-gaethwasiaeth Cymru yn y Siarter Gofal Moesegol ynghylch caffael.** Caiff holl Gyflenwyr y Cyngor eu hasesu yn ystod y cam cymhwyso a thrwy'r gwaith a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â'r Cod Ymarfer ynghylch Cyflogaeth Foesegol. Mae Abertawe yn gweithredu yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth 2015 ac ymrwymiadau diogelu Corfforaethol.

Mae gwasanaethau ar gyfer Plant, Teuluoedd ac Oedolion Bregus yn cyflawni gofynion statudol.

- Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd yn gadarn ac yn effeithiol wrth fodloni'r gofynion statudol a osodir ar yr Awdurdod fel y'u nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 i wella canlyniadau lles oedolion bregus yn Abertawe.

- Caiff Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Abertawe ei gyhoeddi bob blwyddyn ac mae'n cynnwys manylion ynghylch sut mae Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe yn gweithredu gofynion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a pha mor dda rydym ni'n cyfrannu at les a chanlyniadau ar gyfer dinasyddion Abertawe. Mae adroddiad 2018/19 yn amlygu rhywfaint o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud yn ein gwasanaethau allweddol a'r cynnydd rydym ni'n ei wneud yn ystod ein taith gwella:

- Fe wnaeth Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Abertawe gynorthwyo **3035 o blant** yn ystod 2018/19 (3428 y llynedd), a **1841 o deuluoedd** (2085 y llynedd). Fe wnaeth Gwasanaethau Oedolion gynorthwyo **6434 o oedolion agored i niwed** eleni (7573 y llynedd); o blith y cyfanswm hwn,

cafodd 5157 o oedolion gymorth i barhau i fyw yn eu cartref (5932 y llynedd). Fe wnaethom ni hefyd asesu anghenion dros **689 o ofalwyr** i'w helpu i sicrhau eu lles eu hunain (684 y llynedd).

- Mae plant sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu, yn byw o fewn teuluoedd parhaol, sefydlog, diogel a chariadus (a byddant yn cael gofal gan eu teulu biolegol ac yn eu cymuned wreiddiol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl), sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer llwyddiant a bod yn oedolyn bodlon ac iach ble gallant gyfranogi'n llawn yn yr hyn mae gan gymdeithas i'w gynnig  Un o'r uchafbwyntiau eleni yw sefydlu tîm Cyrion Gofal i gynorthwyo'r plant sy'n fwyaf bregus i aros yn eu cartref neu ddychwelyd adref os ydynt yn derbyn gofal.

- Mae'r rhaglen Gwella Gwasanaethau Oedolion yn gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth ganlynol:

  > "Bydd gan bobl yn Abertawe fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol modern sy'n eu galluogi i fyw bywydau cyflawn ag ymdeimlad o les o fewn teuluoedd cefnogol a chymunedau gwydn. Byddwn yn helpu pobl i gadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed a rhoi cyfleoedd iddynt deimlo eu bod wedi'u grymuso i arfer llais, dewis a rheolaeth ym mhob agwedd ar eu bywydau. Bydd ein gwasanaethau'n canolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar a galluogi a byddwn yn darparu cymorth gwell i bobl gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael â chymorth ein gweithlu medrus a gwerthfawr iawn".

- Mae rhaglenni rhanbarthol yn eu lle i arbrofi â modelau dulliau newydd o weithio.  Nod 'Ein Dull Cymdogaeth' ac 'o'r Ysbyty i'r Cartref' a gwella Cyfathrebu Cydweithredol yw gwella ein dull o gynorthwyo pobl i gael mynediad at yr hyn sydd ar gael ac i ganolbwyntio ein gwaith ar gyflawni eu canlyniadau lles personol.

Strategaeth ynghylch Lleihau'r Niferoedd o Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC) sy'n Ddiogel

- Rydym ni'n cydnabod y bydd plant yn fwy tebygol o gyflawni'r canlyniadau gorau posibl os byddant yn byw yn ddiogel mewn teuluoedd cefnogol. I gyflawni ein gweledigaeth, byddem ni'n hoffi lleihau'r nifer o blant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol fel y gallwn ni gynorthwyo teuluoedd ac atal unrhyw niwed rhag digwydd.

- Mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd i Abertawe a llawer o Awdurdodau Lleol eraill Cymru. Er bod Abertawe wedi ymgorffori Strategaeth i leihau'r niferoedd o Blant sy'n Derbyn Gofal sy'n Ddiogel, roedd 554 o blant yn derbyn gofal er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u lles ar ddiwedd 2018/19 (503 y llynedd).

- Rydym yn falch bod dull y Cyngor o leihau'r nifer o LAC Diogel wedi dod yn destun adolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal a'n bod wedi cael adborth cadarnhaol am y dulliau rhagweithiol y gwnaethom ni lwyddo i'w dangos.

- Mae ein dealltwriaeth o achosion sy'n ymwneud a rhieni ac achosion cymdeithasol dros blant yn derbyn gofal yn gwella'n rheolaidd. Gall rhieni fod yn camddefnyddio alcohol neu sylweddau (36%), efallai bod camdriniaeth ddomestig yn digwydd (40%), problemau iechyd meddwl rhieni (37%), anhawster dysgu (8%), afiechyd corfforol (5%) neu droseddau ieuenctid (2%). Pa mor gymhleth bynnag fo sefyllfa'r teulu, cyfrifoldeb a ffocws y Cyngor yw cydweithio â phartneriaid i sicrhau bod cymorth amlasiantaethol i blant a theuluoedd yn eu galluogi i gael y cyfle gorau posibl i barhau i ofalu'n ddiogel am eu plant.

- Yn dilyn cais llwyddiannus, y Cyngor fydd y cyntaf yng Nghymru i ddatblygu Diogelu Cyd-destunol trwy gyfrwng prosiect tair blynedd sy'n cynnwys Prifysgol Swydd Bedford. Bydd hyn yn helpu Abertawe i fynd i'r afael â rhai o'r materion cymdeithasol ehangach megis Llinellau Cyffuriau, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Gwaharddiadau o Ysgolion a Bwlio.

Strategaeth Rhianta Corfforaethol

- Fel rheini corfforaethol, mae gan holl gynghorwyr a swyddogion y Cyngor gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r sawl sy'n gadael gofal yn gallu cyflawni'r canlyniadau y byddai pob rhiant da yn eu dymuno ar gyfer ei blant. Mae hyn yn golygu sicrhau eu bod yn ddiogel a darparu cyfleoedd i'w helpu i gyflawni eu potensial. Mae rhieni corfforaethol yn gyfrifol am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y plentyn, ei iechyd a'i les, ei hamdden, ei lety a'i gyfleoedd diwylliannol.

**Astudiaeth Achos 2: Gadawyr gofal yn cael cymorth ychwanegol gan y Cyngor.**

**Gallai cymorth YCHWANEGOL fod ar gael yn fuan i bobl ifanc yn byw yn Abertawe sydd wedi gadael gofal.** Ceir cynigion i sicrhau nad yw pawb sydd wedi gadael gofal sydd rhwng 18 a 25 oed yn gorfod talu treth cyngor wrth iddynt gychwyn byw yn annibynnol. Yn ddiweddar, mae Cymdeithas y Plant wedi bod yn ymgyrchu i sicrhau y caiff gadawyr gofal ledled y DU ryddhad treth gyngor.

- Mae Fforwm Rhianta Corfforaethol Abertawe yn llywio ein rhaglen gwella i gyflawni'r canlyniadau hyn. Bydd holl aelodau'r fforwm yn cael cyswllt uniongyrchol â'r plant a'r bobl ifanc er mwyn deall eu safbwyntiau, a beth yw'r pethau sy'n bwysicaf iddynt, a chefnogi digwyddiadau sy'n cynnwys plant sy'n derbyn gofal.

**Astudiaeth Achos 3: Plant sy'n derbyn gofal yn derbyn Gwobr Diana**

**Mae cynllun sy'n helpu plant sy'n derbyn gofal yn Abertawe i ddysgu rhagor am fywyd mewn prifysgol i'w hysbrydoli, codi eu dyheadau a gwella eu hyder a'u hunan-barch wedi ennill Gwobr Diana.** Cychwynnodd Prosiect Diamond fel sesiwn profi un diwrnod ar gyfer plant hŷn, ond diolch i frwdfrydedd a chefnogaeth tîm addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Cyngor Abertawe a Phrifysgol Abertawe, mae'r prosiect wedi tyfu. Nawr, bydd y bobl ifanc yn mynychu cyfarfodydd ac ymweliadau rheolaidd yn y brifysgol.

Maent hefyd yn bwriadu ehangu'r prosiect ymhellach fel y gallant fentora plant iau tebyg iddynt hwy eu hunain i fachu ar y cyfleoedd na fyddent wedi credu eu bod o fewn eu cyrraedd. Sefydlwyd Gwobr Diana yn 1999 gan Lywodraeth Prydain, oedd yn dymuno parhau â'r gwaith a wnaed gan y Dywysoges Diana trwy sefydlu dull ffurfiol o gydnabod pobl ifanc oedd yn cyflawni y tu hwnt i'r disgwyliadau yn eu cymunedau lleol. Dyma'r ail dro iddynt gael cydnabyddiaeth am eu gwaith yn ddiweddar, ar ôl ennill gwobr yng Ngwobrau Rho 5 Cyngor Abertawe.

- Mae *Gwneud Pethau'n Iawn i bob Plentyn* yn rhaglen newid newydd, sy'n deillio o'r adolygiad ynghylch y Continwwm Cynorthwyo Teuluoedd, sy'n ceisio cryfhau'r cymorth a gynigir ynghylch amrywiaeth o anghenion gwahanol i deuluoedd ledled Abertawe. Mae'r cymorth yn amrywio o wasanaethau cyffredinol, megis ysgolion a meddygon teulu, i ymyriadau dwysach ar gyfer y sawl sydd ag anghenion cymhleth.

- Mae Abertawe wedi comisiynu fforwm Rhieni-Gofalwyr i lunio ein cynlluniau at y dyfodol i gynorthwyo plant ag anableddau ac yn ystod y cynfnod trosglwyddo a dylai lansiad ffurfiol gael ei gynnal ym mis Medi 2019. Mae nifer o ddigwyddiadau â thema 'Sgwrs' ar y gweill, a bydd grwpiau rhieni-gofalwyr a phobl ifanc yn dod at ei gilydd i rannu eu profiadau, eu gobeithion a'u dyheadau; bydd grŵp Arweinyddiaeth yn dylunio ac yn cydgynhyrchu dulliau newydd.

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)

- Cafodd Pwyllgor Polisi Datblygu Pobl ei sefydlu eleni i alluogi Aelodau etholedig a swyddogion gael cyfle i gydweithio ynghylch meysydd polisi'r dyfodol; eleni, roedd y rhaglen gwaith yn ystyried profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs). Mae ACEs wedi cael ei ychwanegu at fersiwn ar-lein o'r hyfforddiant ynghylch Amddiffyn a Diogelu Plant. Bellach, mae hynny hefyd yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant Amddiffyn a Diogelu Plant Lefel 2 a Diogelu Oedolion Lefel 2, sy'n cael eu cyflwyno gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Astudiaeth 4: Jig-so**

**Mae Jig-so yn dîm amlasiantaethol arobryn newydd wedi'i leoli yn Abertawe, ac mae'n cynnwys bydwragedd, nyrsys meithrin cymunedol, hwyluswyr teuluoedd a gweithwyr datblygu iaith sy'n cynnig cymorth i bob rhiant ifanc hyd at 18 oed a rhieni bregus 19-24 oed, ac mae'n cydweithio'n agos â gwasanaethau statudol.** Dyma sut gwnaeth JIG-SO weithio gydag un fam ifanc a'i theulu…….

Fe wnaeth mam ifanc 20 oed gyfeirio ei hun at Jig-so yn ystod 14eg wythnos ei beichiogrwydd. Roedd hi'n byw mewn llety â chymorth ble'r oedd cyffuriau ar gael yn rhwydd ac roedd ei ffordd o fyw yn anhrefnus; roedd 83 o droseddau wedi'u riportio rhyngddi hi a'i mam. Roedd y fam ifanc wedi cael pedwar profiad niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs). Oherwydd lefel y pryderon am ei hanes, ei ffordd o fyw a'i pherthynas â'i mam hefyd, cafodd ei baban heb ei eni ei gynnwys yn y gofrestr amddiffyn plant. O ganlyniad i'r holl wasanaethau, trwy ymgysylltu dwys, a lefel ymrwymiad y fam ifanc, roedd y newidiadau a wnaeth hi yn golygu bod ei gweithiwr cymdeithasol yn teimlo'n ddigon hyderus i roi cyfle iddi fynychu uned mam a phlentyn. Bellach, nid oes unrhyw bryderon am sgiliau rhianta y fam ifanc hon ac mae hi a'r plentyn yn ffynnu; mae hi'n parhau i elwa o'r holl gymorth sydd ar gael.

- Mae *Strategaeth Lles Integredig Cyngor Abertawe ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (2018 – 2021)* yn nodi sut y bydd *Gwneud Pethau'n Iawn i Bob Plentyn* a dulliau gweithredu, megis *Tîm o Amgylch y Teulu*, yn helpu i annog dull integredig ac ataliol i hybu a chynnal lles plant a phobl ifanc, gan wneud hynny ar adegau priodol a chanolbwyntio ar ganlyniadau.

- Mae dull *Arwyddion Diogelwch* (SOS) Cyngor Abertawe yn sail i'n holl waith statudol gan gynnwys asesiadau, diogelu a chynllunio gofal. Mae'n darparu fframwaith manwl ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, mae'n canolbwyntio'n dryloyw ar y plentyn a'r teulu ac mae'n nodi risg yn glir. Bydd y fframwaith *'Arwyddion Lles'* a weithredwyd yn ddiweddar yn ategu'r dull hwn, gan hyrwyddo cydweithio effeithiol ar draws asiantaethau a chynorthwyo i sicrhau canlyniadau gwell trwy gynnig ymyriadau cymorth cynnar gwell, wedi'u targedu ac â ffocws penodol i atal pryderon diogelu rhag dod i'r amlwg.

Cyfranogi a llais

- Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael llais, hawl a chyfle i gyfranogi a chael eu clywed fel unigolyn a dinesydd, i lunio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac i gael rheolaeth dros eu bywydau beunyddiol. Byddwn yn mynd ati i geisio adborth gan unigolion, teuluoedd a gofalwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain; mae eu barn yn helpu i lywio ein taith gwella.

- Fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn 2014. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor gyflawni ei holl swyddogaethau mewn modd sy'n gyson â buddiannau plant lleol. Mae'n rhaid darparu cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â'u bywydau (Erthygl 12).

- Mae Abertawe wedi cyd-gynhyrchu *Strategaeth Cyfranogi a Chyd-gynhyrchu newydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Bregus (Ebrill 2018 - Mawrth 2021)*. Mae'r Strategaeth hon yn disgrifio sut y bydd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cefnogi'r CCUHP ac Erthygl 12 yn benodol trwy:

  - Weithredu fframwaith *'Dyma Fi'*, sy'n cael ei gyflwyno ledled Cymru.
  - Mae'r *'Clwb Swper'* yn grŵp cyfranogi sefydlog i bobl ifanc 16+ - ein cynllun i gynnwys y grŵp hwn yn y gwaith o ail-gomisiynu llety â chymorth.

**Astudiaeth Achos 5: Rhestr Fer y Wobr Cyfranogi**

**Mae tîm cyfranogi'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyrraedd rhestr fer Gwobr Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan** - ac mae eu gwaith rhagorol yn cynnwys fideo ar gyfer brodyr a chwiorydd y sydd wedi'u heffeithio gan fabwysiadu, trosglwyddo ar gyfer pobl ifanc ag anabledd, datblygu platfform ar-lein i bobl ifanc sy'n derbyn gofal i gynhyrchu gwybodaeth gyffredinol a phersonol.

Cydweithredu a phartneriaeth

- Rydym ni'n cydweithio i ystyried dulliau y gallwn eu defnyddio i fynd i'r afael â'r materion niferus sy'n effeithio ar ddiogelwch plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Yn dilyn y newidiadau i drefniadau'r bartneriaeth ranbarthol, mae Cyd-fwrdd Diogelu wedi cael ei sefydlu ar draws ôl troed newydd Gorllewin Morgannwg. Mae Cynllun Blynyddol ar y Cyd yn ei le i hybu atebolrwydd ar y cyd, ymwybyddiaeth trwy gyfrwng ymgyrchoedd wedi'u targedu, dulliau ataliol, llunio adroddiadau am berfformiad a dysgu gwersi o achosion difrifol.

- Nod y Bwrdd Diogelu yw atal camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed ac amddiffyn plant ac oedolion bregus sy'n profi hynny, neu mewn perygl o brofi hynny. Mae gan y Bwrdd swyddogaeth bwysig o ran sicrhau bod asiantaethau sy'n bartneriaid iddo yn ymgysylltu â phobl ac y clywir llais yr oedolyn bregus neu'r plentyn ynghylch pob agwedd o arferion diogelu.

Cam-drin Domestig

- Mae Cyngor Abertawe yn cydnabod bod Cam-drin Domestig yn flaenoriaeth o ran diogelu, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cyflawni'r gofynion o dan ddeddf newydd Llywodraeth Cymru, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Rydym ni'n gweithio'n galed i wella ein hymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ar yr un pryd, rydym ni'n darparu ffocws strategol ynghylch y materion hanfodol hyn ar y

cyd â phartneriaid megis yr heddlu, gwasanaethau tai a sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau bod gennym ni amrywiaeth o ddulliau atal, amddiffyn a chynorthwyo yn eu lle.

- Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ystyried y trefniadau hyn ac wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn ynghylch trefniadau Abertawe yn ystod yr adolygiad cenedlaethol o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, trais rhywiol a cham-drin domestig; yn benodol, y gwaith rhagorol sy'n digwydd yn yr hwb amlasiantaethol.

**Astudiaeth Achos 6: Yr Elyrch a'r Gweilch yn Cefnogi Digwyddiad Rhubanau**

**Anogwyd cefnogwyr Dinas Abertawe i sefyll yn gadarn yn erbyn trais domestig a mathau eraill o gamdriniaeth fel rhan o ymgyrch Diwrnod y Rhubanau Gwyn.** Codwyd stondinau o amgylch Stadiwm Liberty ar gyfer ymweliad West Bromwich Albion fel rhan o ymdrechion i wella ymwybyddiaeth am drais gan ddynion yn erbyn menywod, gan dynnu sylw at yr angen i atal camdriniaeth rhag digwydd a'i hatal ble mae'n digwydd. Roedd y stondinau ger y stadiwm a neges yn rhaglen gêm yr Elyrch v West Brom yn rhan o ddigwyddiadau Diwrnod y Rhubanau Gwyn a gynhaliwyd ledled y ddinas ar Dachwedd 25. Y diwrnod canlynol cynhaliodd y Ganolfan Ddinesig yn Abertawe ddigwyddiad arbennig lle gallai pobl lofnodi addewid Diwrnod y Rhubanau Gwyn, gan gefnogi'r ymdrech i fynd i'r afael â thrais gan ddynion yn erbyn menywod. Cefnogwyd yr ymgyrch gan yr Elyrch a'r Gweilch, a anfonodd gynrychiolwyr yn ystod y diwrnod. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys gweithdy 'Hands are not for Hurting' a oedd yn cynnig cyfle i gyfranogwyr ymuno â rhai o bobl ifanc Abertawe a rhoi olion eu dwylo ar faner i gefnogi'r ymgyrch.

Troseddau Casineb

- Mae riportio a rhannu gwybodaeth yn brydlon ar lefel gymunedol ac o fewn partneriaethau yn hanfodol wrth fynd i'r afael â throseddau casineb a'u hatal. Cyflawnir llwyddiant trwy ddull partneriaeth cryf ar y cyd â sefydliadau megis Heddlu De Cymru a Chymorth i Ddioddefwyr, a thrwy Grŵp Cynllunio Rhanddeiliaid Troseddau Casineb. Rydym ni'n parhau i weithredu *Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb Abertawe* ar y cyd â phartneriaid allweddol (i gefnogi polisi Llywodraeth Cymru, *'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu'*).

**Astudiaeth Achos 7: Clymau Dynol**

**Cyfranogodd 50 o bobl ifanc o 7 ysgol uwchradd yn Sgwrs Fawr 'Cymunedau Cryf' ar gyfer ieuenctid 11-18 oed.** Roedd y pynciau trafod yn cynnwys troseddau casineb. Cyfranogodd y bobl ifanc mewn **Clymau Dynol:**
Gan sefyll mewn cylch, fe wnaeth pawb roi eu dwylo yn y canol a dal dwylo a rhywun ar draws y cylch. Crëwyd Cwlwm Dynol! Gan gydweithio heb ollwng dwylo, fe wnaeth y bobl ifanc geisio datod y cwlwm fel y byddai pawb yn wynebu canol y cylch ac yn parhau i ddal dwylo. Rhoddwyd labeli i rai pobl ifanc eu gwisgo oedd yn cynrychioli gwahanol bobl yn ein cymunedau. Roedd y dasg yn cynrychioli cymunedau cryf yn cydweithredu i ddatrys problemau, gan sicrhau bod pawb yn rhan o'r broses ac na chaiff neb eu heithrio.

- Mae archwiliadau diogelwch ar y cyd yn cael eu cynnal ym mhob ysgol i sicrhau bod yr holl fesurau yn eu lle i fynd i'r afael â Bwlio mewn ysgolion ac atal hynny.

**Astudiaeth Achos 8: Disgyblion yn cael eu henwebu am wobr i gydnabod ymdrech gwrth-fwlio**

**Mae disgyblion mewn ysgol gyfun yn Abertawe yn gwybod y gallant bob amser droi at rywun cyfeillgar os byddant hwy neu un o'u cyd-fyfyrwyr yn cael eu bwlio.** Mae criw o fyfyrwyr-lysgenhadon o Flwyddyn 10 yn Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan wedi cydweithio â staff i arwain grŵp cymorth dan arweiniad disgyblion, o'r enw TEN (*This Ends Now*); diben y grŵp yw helpu unrhyw bobl ifanc os bydd arnynt angen hynny. Mae llecyn tawel dynodedig wedi cael ei sefydlu, ac yn ystod egwyliau a'r awr ginio, caiff ei staffio gan aelodau o'r grŵp cymorth a staff i'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn cydnabod mai rhoi gwybod am fwlio yw'r gwaith anoddaf ar brydiau. Mae'r fenter yn hynod o lwyddiannus ac mae'n un o blith nifer o fentrau gwrth-fwlio sydd wedi'u cyflwyno gan TEN a arweiniodd at yr enwebiad am wobr genedlaethol i'r disgyblion. Yn ddiweddar, fe wnaeth y disgyblion recordio fideo byr i rannu eu neges ar y cyd ag Ymgyrch Gwrth-fwlio Abertawe Ddiogelach a Gorsaf Radio Heart. Mae'r fideo yn gryno ac yn fachog a chaiff ei gyflwyno gan fyfyrwyr; mae'n cynnwys neges glir sy'n nodi nad oes yn rhaid i fwlio barhau a bod cymorth ar gael. Cafodd TEN eu henwebu gan Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg am wobr genedlaethol gan Crime Beat i gydnabod eu hymdrechion i gefnogi Ymgyrch Gwrth-fwlio Abertawe Ddiogelach.

Radicaleiddio (Strategaeth PREVENT)

- Mae Cyngor Abertawe yn cydweithio â'r Swyddfa Gartref, y gymuned leol a grwpiau'r gymdeithas ddinesig, yn ogystal â rhwydwaith cenedlaethol Cydlynwyr Cymunedol Atal Eithafiaeth i ddeall natur eithafiaeth yn lleol a thargedu a brwydro hynny. Trwy gyfrwng rhaglen genedlaethol, ac ar y cyd â phartneriaethau lleol, rydym ni wrthi'n datblygu cynllun cyflawni atal terfysgaeth, sy'n amlinellu'r heriau allweddol o ran eithafiaeth yn Abertawe ac yn nodi partneriaid ychwanegol a all gynnig rhagor o gymorth i gyflawni nodau'r strategaeth. Trwy gyfrwng cydlynu yn yr ardal leol a gwaith PREVENT, rydym ni'n adeiladu cymunedau cryfach trwy nodi unigolion, sefydliadau a grwpiau allweddol a datblygu perthnasoedd â hwy. Mae hynny'n cynnwys y trydydd sector, grwpiau ffydd a grwpiau'r gymdeithas ddinesig sy'n gallu helpu i wrthwynebu eithafiaeth, hybu cydlyniant cymunedau a hybu lles.

Strategaeth Atal y Cyngor

- Y llynedd, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo *Strategaeth Atal Gorfforaethol*, a dyma rhai o uchafbwyntiau'r strategaeth a sut mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo:

- Mae gan Abertawe uchelgais i gyflwyno *Cydlynu Ardal Leol* (CAL) ym mhob rhan o'r sir. Mae CAL yn ddull gweithredu sy'n ataliol ac yn grymuso ar gyfer dinasyddion lleol. Rydym ni'n helpu pobl cyn cyrraedd ac wrth ein drws ffrynt trwy gynnig cymorth cynnar a all oedi neu atal yr angen am wasanaethau statudol trwy ddatblygu cysylltiadau â chymunedau. Mae cynnig Abertawe yn seiliedig ar weledigaeth gref a rennir: *'Mae pawb yn byw mewn cymunedau croesawgar sy'n darparu cyfeillgarwch, cyd-gymorth, cydraddoldeb a chyfleoedd i bawb'.* Nid oes unrhyw derfynau amser o ran sut rydym yn ymdrin ag anghenion unigolyn. Byddwn yn cynnig sgwrs gadarnhaol yn seiliedig ar gwestiynau agored megis 'beth sy'n bwysig' i chi, neu 'Beth yn union yw diwrnod da?'. Trwy gymorth cydlynydd ardal leol medrus, gellir sicrhau cymorth ar gyfer yr unigolyn o blith rhwydwaith ehangach ac adnoddau o fewn eu cymuned leol.

**Astudiaeth Achos 9: Cydlynydd Ardal Leol**

**Mae gwasanaeth CAL Abertawe yn seiliedig ar weledigaeth gref a rennir: *'Mae pawb yn byw mewn cymunedau croesawgar sy'n darparu cyfeillgarwch, cyd-gymorth, cydraddoldeb a chyfleoedd i bawb'.*** Mae'r gwasanaeth cyffrous hwn bellach yn cwmpasu 13 ardal yn Abertawe ac mae'n cael ei gyflawni a'i ehangu trwy bartneriaeth gydweithredol sy'n cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Prifysgol Abertawe, ac yn fwy diweddar, clystyrau meddygon teulu. Sylwadau gan ddinesydd o Abertawe:

*"Pan ddaeth A yn rhan o fy mywyd, gallaf ddweud yn onest fy mod i bron iawn ag anobeithio'n llwyr. Rwy'n fenyw heini 83 oed sy'n gofalu am fy ngŵr 85 oed sydd ag anabledd difrifol a dementia fasgwlaidd. Awgrymodd fy ffrind y dylwn i ffonio A, er nad oeddwn i'n gwybod ar y pryd beth allai hi ei wneud i mi. Mae hi wedi bod yn belydr o heulwen yn fy mywyd, yn trefnu i mi gael larwm mwg, yn rhoi gwybod i mi beth sydd ar gael, wedi mynd â fi i'r ganolfan gofalwyr, wedi fy nghyflwyno i glybiau roeddwn i wedi bod yn aelod ohonynt o'r blaen ac yn bwysicaf oll, mae hi wedi trefnu i gael rhywun i eistedd gyda fy ngŵr i mi allu mynd i'r siop trin gwallt a chlwb yr henoed unwaith yr wythnos. Heb ei hymyriad hi, wn i ddim beth fyddwn i wedi'i wneud oherwydd roeddwn i wedi ymlâdd yn llwyr ac yn isel fy ysbryd. Pe na bawn i wedi cwrdd â hi, rwy'n credu'n onest y byddwn i wedi gorfod mynd i'r ysbyty oherwydd fy lludded a byddai fy ngŵr wedi gorfod mynd i gartref gofal. Byddaf yn gweddïo bob nos na wnaiff y sefyllfa honno fyth ddigwydd oherwydd rydym ni'n briod ers 63 blynedd ac nid ydym ni erioed wedi bod ar wahân".*

Fe wnaeth gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal o Singapôr ymweld ag Abertawe yn 2018/19 i ddysgu rhagor am raglen arloesol CAL, sy'n cynorthwyo cymunedau yn Abertawe i fod yn gryfach, yn ddiogelach ac wedi'u cysylltu'n well. Mae'r awdurdodau yn Singapôr yn ystyried o ddifrif y posibilrwydd o fabwysiadu'r dull hwn o weithio, ac fe wnaeth rhwydwaith CAL y DU awgrymu y dylent ymweld ag Abertawe oherwydd y cyfranogiad arwyddocaol gan bartneriaid rydym ni wedi'i ddatblygu yma a'n darpariaeth lwyddiannus.

Mynediad Cyfartal at wasanaethau a mwyafu annibynniaeth pobl

- Gall pobl yn Abertawe gyrchu ystod eang o sefydliadau a gwasanaethau sydd oll yn ceisio gwneud gwahaniaeth o ran helpu pobl i wella eu bywydau. Mae gennym ni bresenoldeb cryf o'r trydydd sector, amrywiaeth o ran ein hystod o sefydliadau ac ymrwymiad i wella bywydau pobl a datblygu cymunedau cryfach, ac ategir hyn oll gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol yn cydweithio.

- Trwy sicrhau bod pobl yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig trwy gyfrwng pwynt mynediad cyffredin, mae Abertawe yn parhau i hybu annibynniaeth pobl fel y gallant gyflawni eu deilliannau lles personol a byw yn eu cartrefi eu hunain yn hirach. Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn dal i fod yn brysur iawn, a cheir lefelau uchel o alw a galw cynyddol am asesiadau a gofal a chymorth rheolaidd.

- Mae Abertawe yn gweithredu fframwaith Ymarfer Cyfathrebu Cydweithredol, sy'n helpu ein staff i ddeall sut y gall sgyrsiau cadarnhaol â phobl anghenus, gofalwyr a phartneriaid gyflawni canlyniadau personol yn well. Trwy gyfrwng model Gwasanaethau Oedolion newydd, rydym ni'n ceisio sicrhau y gall pob unigolyn ddisgwyl cael y gwasanaeth priodol ar yr adeg briodol ac ar y lefel briodol – o wasanaethau cyffredinol i wasanaethau ailalluogi tymor byr, ac o gymorth yn y gymuned i ofal preswyl a nyrsio.

- Mae gan Gyngor Abertawe ystod o fesurau yn ei wasanaethau, a thrwy gyfrwng Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 – 2020, a gaiff ei adolygu'n flynyddol, bydd yn sicrhau bod dinasyddion yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau ac at wybodaeth, cyngor a chymorth.

**Astudiaeth Achos 10: Bae Cas-wellt yn gyrchfan gwirioneddol hygyrch i ymwelwyr sydd ag anableddau difrifol**

**Sicrhaodd Cyngor Abertawe gymorth gan Gynllun Buddsoddi Mwynderau Twristiaeth Llywodraeth Cymru (TAIS) i wneud Bae Cas-wellt yn gyrchfan wirioneddol hygyrch i ymwelwyr ag anableddau difrifol.** Nod y cynllun yw gosod cyfleusterau *Changing Places* newydd sbon o ansawdd uchel yn y maes parcio ynghyd â buddsoddi mewn offer traeth arbenigol i ganiatáu i ymwelwyr ag anabledd difrifol gael mynediad i'r dŵr a'i fwynhau. Caiff uned storio ei phrynu hefyd fel y gellir storio'r offer newydd yn ddiogel. Nid oes unrhyw gyfleusterau *Changing Places* yn unrhyw ran o'r Gŵyr ar hyn o bryd. Mae'r uned hunangynhaliol wedi'i llunio'n benodol ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu neu gorfforol dwys a niferus. Mae'n mynd i'r afael ag anghenion penodol trwy ddarparu offer arbenigol megis teclyn codi trydan, cawod, toiled a gwely newid, gan alluogi newid ac ymolchi mewn amgylchedd glân a diogel.

Gofalwyr a gofalwyr ifanc

- Mae Abertawe yn cydnabod y cyfraniad hanfodol a wneir gan ofalwyr at les a diogelwch dinasyddion mwyaf bregus Abertawe ac at systemau gofal cymdeithasol cynaliadwy. Gall pob gofalwr a gofalwr ifanc yn Abertawe gael cymorth i ddiwallu eu hanghenion eu hunain ac asesiad 'beth sy'n bwysig iddynt' i gynnal eu lles eu hunain.

- Mae safbwyntiau gofalwyr yn llywio gwaith Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Gorllewin Morgannwg, sydd wrthi'n datblygu strategaeth comisiynu ranbarthol gan ddefnyddio'r asesiad o'r boblogaeth a mapio gwasanaethau i wella trefniadau rhanbarthol a lleol. Cyflawnir hyn trwy gyflwyno adborth gan Ofalwyr bob chwarter a sylwadau gan Wasanaethau/Canolfannau lleol ar gyfer Gofalwyr a Phrosiectau Gofalwyr Ifanc. Yn ychwanegol, cesglir adborth pwysig mewn digwyddiadau ar gyfer y rhanbarth cyfan, ble bydd partneriaid o'r bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector yn dod ynghyd gyda Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc i rannu profiadau a gobeithion at y dyfodol.

**Astudiaeth Achos 11: Gwobrau Rho Bump ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion ifanc**

**Mae Gwobrau Rho 5 yn gwobrwyo plant a phobl ifanc mwyaf ysbrydolgar Abertawe. Yn 2018, dyfarnwyd y Wobr Grŵp Cymunedol i'r Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc.** Mae aelodau'r grŵp yn ofalwyr ifanc a sylweddolodd bod gofalwyr ifanc eraill yn bodoli yn Abertawe ac nad oeddent yn cael eu cydnabod. Fe wnaethant benderfynu gwneud rhywbeth i ddatrys hynny. Fe wnaethant ymgeisio am gyllid gan Fanc Ieuenctid Abertawe ac fe wnaethant sefydlu prosiect i gynnig cymorth a chefnogaeth i ofalwyr ifanc eraill. Un arall o lwyddiannau'r grŵp hwn oedd cynhyrchu rhaglen ddogfen ynghylch bod yn ofalwr ifanc. Roedd angen saith mis i'w chreu, a bellach, mae'n cael ei defnyddio i adrodd eu straeon a gwella proffil mater sy'n aml yn cael ei gamddeall ac sy'n destun trafod prin.

Heneiddio’n Dda

- Mae Abertawe yn gweithredu trydydd cam Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn, *Byw'n Hirach Byw'n Well 2013-2023* trwy *Gynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda a Strategaeth Pobl Hŷn* y Cyngor ei hun ar gyfer 2015 – 2019. Mae *Byw yn Dda, Heneiddio’n Dda* bellach yn un o amcanion gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cynhaliodd Abertawe ail ddigwyddiad *Sgwrs Fawr Rhwng y Cenedlaethau* yn ystod y flwyddyn, yn dilyn sesiwn gychwynnol ym mis Rhagfyr 2018, gyda Dinasyddion 7+ oed o Abertawe, ar thema Cymunedau Cryf a gan ystyried ‘Deall Gwahaniaethau’.

Dinas Gyfeillgar â Dementia

- Mae Abertawe Gyfeillgar â Dementia yn canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd pobl sy’n byw gyda dementia. Mae gan Abertawe fforwm *Abertawe Gyfeillgar â Dementia* weithgar iawn, sy’n dod â phartneriaid, ffrindiau a hyrwyddwyr ynghyd i gyflawni’r nod hwn. Mae Abertawe wrthi’n hyfforddi ac yn recriwtio rhagor o *Gyfeillion Dementia* yn Abertawe; amcangyfrifir bod dros 2,200 o Gyfeillion Dementia yn ardal Abertawe, yn cynnwys o leiaf 85 *Hyrwyddwr Dementia*.

- Rydym ni’n cydweithio â phartneriaid i ddatblygu mentrau cymdeithasol cyfeillgar â dementia, megis Atgofion Chwaraeon (Cymuned y Gweilch). Gan weithio ar draws y cenedlaethau i wella bywydau pobl sydd â dementia, mae tîm sy’n cwmpasu pob agwedd o’r Gwasanaethau a Ddarperir i Oedolion a’r tîm Camau Bywyd wedi bod yn cydweithio i ddatblygu prosiect cyfeillgar â dementia ar gyfer ysgolion. Mae cyngor Ysgol Gyfun Pontarddulais a chartref gofal dementia'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cartref yr ‘Hollies’, yn cydweithio â chriw o bobl ifanc i chwalu’r stigma a’r mythau ynghylch dementia, er mwyn gallu gweld y person cyflawn a deall y gall pobl fyw yn dda gyda dementia.

**Astudiaeth Achos 12: Trawsnewid gardd yn cael canmoliaeth yn ystod seremoni wobrwyo**

**Fe wnaeth pobl o bob cefndir ddod ynghyd i drawsnewid y gerddi mewn canolfan dydd yn Abertawe, ac mae’r prosiect hwnnw wedi cael canmoliaeth mewn seremoni wobrwyo genedlaethol.** Fel rhan o’r fenter yng Ngwasanaeth Dydd Sant Ioan, fe wnaeth preswylwyr sydd â dementia a grwpiau eraill sydd ar y cyrion, yn cynnwys oedolion sydd ag anabledd dysgu a phobl o elusennau digartrefedd, alcohol a chyffuriau, ymuno â gwirfoddolwyr eraill yn cynnwys tîm o Gymdeithas Adeiladu’r Principality, i dderbyn her SOS DIY. Fe wnaethant oll gynorthwyo i glirio gordyfiant a llwybrau, plannu blodau a llwyni, gosod llecyn eistedd awyr agored a chreu a chodi blychau adar yn y ganolfan yng Nghwmbwrla. Mae’r prosiect wedi cael canmoliaeth arbennig yn y Gwobrau a gyflwynir bob dwy flynedd sy’n cael eu trefnu gan Ofal Cymdeithasol Cymru i ddathlu a rhannu arferion rhagorol ym meysydd gwaith cymdeithasol, gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Siarter ar gyfer Pobl Hŷn

- Mae Abertawe wedi ymrwymo i gyd-gynhyrchu a defnyddio dull gweithredu sy’n seiliedig ar hawliau. Mae ein *Cynllun Ymgynghori Heneiddio’n Dda* yn sicrhau y caiff safbwyntiau a materion pobl hŷn eu cyfleu a’u hystyried yn dda ym mhob agwedd o waith cynllunio, pa un ai a fydd hynny yn ddigwyddiadau’r *Sgwrs Fawr*, *y Rhwydwaith 50+* neu trwy ein holl waith ymgynghori.

- Mae Abertawe wedi parhau i wella ymwybyddiaeth o Egwyddorion Hawliau Dynol ar gyfer Pobl Hŷn ac o'r Datganiad ynghylch Hawliau Dynol yn fwy cyffredinol. Mae Cynllun Ymgynghori Heneiddio'n Dda wedi ymgorffori egwyddorion Hawliau Dynol. Mae'r adolygiad o'r *Rhwydwaith 50+* i ddatblygu fforwm tebycach i'r *Sgwrs Fawr* ar gyfer y sawl sy'n 50+ wedi'n galluogi ni i wneud cysylltiadau penodol â hawliau dynol a sicrhau bod dinasyddion sy'n 50+ mlwydd oed yn cyfrannu at ddull mwy ystyrlon o godi eu llais ynghylch materion sy'n effeithio ar eu bywyd.

**Astudiaeth Achos 13: Grŵp Rhwydwaith 50+ ar ei newydd wedd**

**Mae gan Grŵp y Rhwydwaith 50+ ar ei newydd wedd aelodaeth fwy gweithgar a chyfathrebu a gweithgareddau sydd â ffocws mwy pendant.** Mae'r cynlluniau at y dyfodol yn cynnwys:

- Y Sgwrs Fawr gyntaf yn Abertawe yn pontio'r cenedlaethau ar 10 Rhagfyr 2018 (Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol)
- Datblygu prosiect cyflogadwyedd ar gyfer pobl 50+ (gan gydweithio â Gweithio Abertawe, Adran Dysgu Gydol Oes Prifysgol Abertawe a Heneiddio'n Dda Cymru).
- Datblygu cais i'r Gronfa Ffyrdd o Fyw Iach ac Egnïol (gan gydweithio â Sefydliad y Gweilch a'r tîm Datblygu Chwaraeon) i wella cyfleoedd gweithgarwch corfforol ar gyfer pobl 50+ mlwydd oed a'r sawl sy'n byw gyda Dementia, yn cynnwys datblygu prosiect Atgofion am Chwaraeon yn Abertawe.
- Cyflwyno gwaith Cyfeillgar â Dementia sy'n Pontio'r Cenedlaethau mewn ysgolion yn Abertawe a datblygu prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau gydag ysgolion a sefydliadau gofal, yn cynnwys prosiect gyda Chymunedau Digidol Cymru.

**5. Sut mae'r Amcan Lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau lles cenedlaethol.**

- *Cymru ffyniannus* –mae'r fachnad iechyd a gofal cymdeithasol plant ac oedolion yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi yn lleol ac yn rhanbarthol, ac mae angen gweithlu medrus a phroffesiynol i ateb y galw cynyddol.
- *Cymru Wydn* – cynorthwyo oedolion sydd ag amrywiaeth o anableddau ac anghenion i gyrchu cyfleoedd lles, dysgu a phrofiad gwaith, yn cynnwys cymorth i reoli cynefinoedd arfordirol, bywyd gwylt ac amgylcheddol, e.e. cydweithio â'r Bwrdd Iechyd leol i lansio Coleg Adfer ar gyfer pobl sydd wedi profi anawsterau iechyd meddwl difrifol.
- *Cymru Iachach* – trwy integreiddio a chyfuno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddiogelu pobl rhag niwed, gwella eu hiechyd a'u lles corfforol, emosiynol a meddyliol, a thrwy gynorthwyo pobl i gynnal annibynniaeth ac ansawdd bywyd trwy gydol eu hoes, e.e. trwy gyfrwng Cydlynu Ardal Leol.
- *Cymru fwy cyfartal* – sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ac ychwanegu at gryfderau teuluoedd a chaffaeliadau o fewn cymunedau i gynllunio eu gofal a'u cymorth eu hunain, ac i gyflawni eu potensial llawn, a gwneud hynny'n gynyddol trwy atal yr angen am wasanaethau statudol.
- *Cymru â chymunedau mwy cydlynol* – trwy gyfrwng cymunedau cefnogol a chyd-gyfrifol yn cydweithio i ddiogelu ein pobl fwyaf bregus â chyflogeion y Cyngor, Aelodau etholedig a phobl yn ein cymunedau yn teimlo'n hyderus ynghylch nodi a rhoi gwybod am eu pryderon ynghylch diogelu mewn perthynas â phlant ac oedolion.
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu* – cydweithio â phartneriaid trwy gyfrwng y *Strategaeth Heneiddio'n Dda* i gyflawni'r cynnig gweithredol a chymhwyso y gwersi a ddysgir gennym ni er mwyn gwella gofal cymdeithasol, a thrwy gyfrwng gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau, yn cynnwys gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.

- *Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang* – caiff trefniadau diogelu’r Cyngor eu llywio gan ymrwymiad y Cyngor i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) a hawliau dynol pob dinesydd.

**6. Y gwersi a ddysgwyd a meysydd y dylid eu datblygu.**

- Mae diogelu ac amddiffyn ein dinasyddion mwyaf bregus a sicrhau bod eu llais yn ganolbwynt i’n gwaith yn dal yn flaenoriaeth.
- Ni fydd rhai pobl y mae arnynt angen cymorth gofal cymdeithasol yn cael hynny ar yr adegau priodol; efallai bydd oedi’n digwydd cyn y gallant adael yr ysbyty. Rydym ni’n ystyried dulliau o wella ein harlwy cartrefi gofal ac ailalluogi.
- Nid yw’r dull gweithredu rhanbarthol mewn perthynas â Throseddau Ieuenctid wedi llwyddo fel y disgwyl, a bellach, mae’n rhaid i ni ddatblygu arlwy lleol gan ychwanegu at y cryfderau a’r partneriaethau sy’n bodoli o fewn y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd.
- Erys heriau o ran y boblogaeth gynyddol o Blant sy’n Derbyn Gofal eleni. Rydym yn hyderus y gallwn gyflawni gostyngiadau diogel gydweithio â phartneriaid, trwy ddargyfeirio llwyddiannus, trwy gynnig cymorth cynnar gwell a thrwy arferion gwaith cymdeithasol rhagorol ynghylch perthnasoedd.
- Er bod ymwybyddiaeth staff o'r Cynghorydd arweiniol ym maes Diogelu wedi cynyddu i 73% yn 2018/19 o'i gymharu â 72% y flwyddyn flaenorol, gostyngodd ymwybyddiaeth o arweinwyr diogelu dynodedig adrannau o 46% i 40%.

Gwella **Addysg a Sgiliau**

**1. Pam mae hwn yn Amcan Lles.**

- Rydym ni'n dymuno i Abertawe fod yn un o'r lleoedd gorau yn y byd i blant a phobl ifanc allu dod i oed.
- Rydym ni'n dymuno i bob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe allu cyflawni, bod yn iach, bod yn gydnerth a bod yn ddiogel.
- Rydym ni'n dymuno i blant a phobl ifanc fynd i'r ysgol yn rheolaidd oherwydd byddant yn fwy tebygol o gyflawni'r sgiliau a'r cymwysterau y mae arnynt eu hangen i symud ymlaen i addysg bellach, addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Rydym ni'n dymuno i blant a phobl ifanc allu ennill cymwysterau a datblygu sgiliau sy'n gweddu i anghenion economaidd y dyfodol a gallu cyfrannu'n gadarnhaol fel dinasyddion lleol gweithgar.
- Rydym ni'n dymuno sicrhau na fydd plant yn ymddieithrio rhag addysg.
- Fel rhieni corfforaethol Plant sy'n Derbyn Gofal, rydym ni'n dymuno i'n Plant sy'n Derbyn Gofal lwyddo yn yr ysgol a chael cyfleoedd addysg bellach, addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Rydym ni'n cydnabod bod ar blentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol angen cymorth effeithiol ar adegau priodol i'w galluogi i gyflawni eu potensial llawn.
- Rydym ni'n dymuno i'n plant a'n pobl ifanc fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau ar y lefel byd-eang fel y gallant fod yn ddinasyddion gweithgar a chyfrifol, cyflawni eu potensial llawn a gwneud gwahaniaeth i'w cymunedau.
- Rydym ni'n dymuno i'n plant a'n pobl ifanc feddu ar sgiliau Cymraeg da.

**2. Y camau y dywedom ni y byddem yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r Amcan Lles hwn.**

- Cysoni ein system addysg a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn creu'r bobl iawn sydd âr sgiliau priodol i gyflenwi'r economïau newydd a chyflawni her Bargen Dinas Bae Abertawe.
- Parhau i gynorthwyo a herio ysgolion i wella presenoldeb a pherfformiad disgyblion ac annog ysgolion i gynorthwyo ei gilydd.
- Parhau i ddatblygu a gwella partneriaethau ysgolion.
- Parhau i ganolbwyntio ar wella llythrennedd (Cymraeg a Saesneg), rhifedd a chymhwysedd digidol plant a phobl ifanc o bob oedran.
- Gwella deilliannau plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Parhau i wella darpariaeth a chodi safonau cyflawniad ar gyfer disgyblion a addysgir heblaw yn yr ysgol a gwella ailintegreiddio yn ôl i ysgolion.
- Gweddnewid yr ystâd ysgolion er mwyn ateb y galw ac ymateb i'r datblygiadau sy'n cael eu hamlinellu yn y cynllun datblygu lleol (CDLl) gan sicrhau bod y gymuned yn elwa o gontractau.
- Gwella dyheadau galwedigaethol a lefelau sgiliau yn y gweithle, gan gyfrannu at ddatblygiad pobl ifanc ac oedolion uchelgeisiol a medrus trwy ddarparu prentisiaethau.
- Datblygu sgiliau dysgu annibynnol at ddibenion dysgu gydol oes i adlewyrchu natur newidiol gwaith ac i gynorthwyo â lles, annog creadigrwydd a lleihau arwahanu cymdeithasol.
- Addysgu dinasyddion ifanc i barchu hawliau, deall cyfrifoldebau a bod yn ddinasyddion ymwybodol a chyfrifol ar y lefel byd-eang trwy barhau i gynorthwyo ysgolion i ddod yn Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF fel rhan o'n hymrwymiad i'r CCUHP.
- Parhau i gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau ynghylch eu haddysg a'u cymuned trwy Lais Disgyblion a Chynghorau Ysgolion a digwyddiadau ymgysylltu'r Sgwrs Fawr.
- Ateb y galw am addysg Gymraeg a hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ac yn gymdeithasol trwy gynllun strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Gan ddefnyddio ein rhaglen adeiladu a chynnal a chadw ysgolion, byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon.

- Sicrhau na chaiff ein plant bregus eu hanfanteisio gan dlodi neu ffactorau eraill sy'n cyfyngu ar eu llwyddiant wrth gyflawni a chynnal safonau a llesiant mewn addysg.

**3. Beth yn union fydd llwyddiant.**

- Bydd disgyblion, yn cynnwys disgyblion bregus, yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd a byddant yn llwyddo'n dda o ran llythrennedd, rhifedd a'u haddysg. Byddwn yn parhau i gynyddu'r nifer o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion Cymraeg. Caiff disgyblion eu hysbysu am eu hawliau, bydd llais disgyblion yn cyfrannu at flaenoriaethau addysg, a byddant yn cael cyfleoedd i ddysgu am werth yr amgylchedd a gweithio â natur. Oddi allan i'r ysgol, bydd rhagor o bobl ifanc yn dilyn prentisiaethau yn y Cyngor ac mae dysgu gydol oes yn dal i gael ei hyrwyddo.

**4. Camau i wneud cynnydd i fodloni'r amcan lles hwn – beth lwyddodd.**

Sgiliau ar gyfer yr economi newydd a Bargen Dinas Bae Abertawe

- Cryfhawyd cysylltiadau i ddatblygu Cynllunio a Sgiliau'r Gweithlu trwy sefydlu *Partneriaeth Sgiliau Abertawe* (PSA). Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Bartneriaeth ac mae ganddi ddau ffrwd gwaith eglur – gallu digidol a chyngor, gwybodaeth ac arweiniad ynghylch addysg alwedigaethol a gyrfaoedd; mae Cydlynydd Sgiliau Addysg wedi cael ei benodi.

- Mae cynrychiolwyr addysg yn cydweithio ag asiant ar ran pwerdy Abergelli i ddarparu cyfleoedd dysgu ar gyfer pob ysgol a phrosiect cymunedol posibl. Bydd y *Prosiect Medrau a Doniau* yn annog cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau nad ydynt ar gael o ffynonellau addysg eraill.

- Rydym ni hefyd wedi datblygu rhaglen o brentisiaethau creadigol ar gyfer marchnata digidol a gwaith technegol ar y cyd â Choleg Gŵyr i gynorthwyo i gyflawni uchelgeisiau digidol Theatr y Grand. Rydym ni hefyd yn rhan o gydweithrediad rhanbarthol ar y cyd â Medrau Creadigol a Diwylliannol yn cynnig lleoliadau gwaith ym maes Medrau Treftadaeth (wedi'u hariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri) i bobl ifanc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs), a chynhelir y lleoliadau yn ein Horielau a'n Hamgueddfeydd; fe wnaeth y cohort cyntaf gychwyn eu lleoliad ym Medi 2018.

- Rydym ni'n bwriadu gwneud rhagor o waith i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd mewn ysgolion fel rhan o Strategaeth Trechu Tlodi'r Cyngor. Rydym yn parhau i ddarparu profiad gwaith a chanlyniadau cyflogaeth i bobl ifanc sy'n NEET, a thrwy raglen Cynnydd, rydym yn darparu cymorth ychwanegol i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Yn ychwanegol, rydym ni'n bwriadu defnyddio ein prosesau adnoddau dynol ein hunain i rannu profiad gwaith, hyfforddiaethau a phrentisiaethau sy'n cwmpasu amrywiaeth o alluoedd, yn cynnwys unigolion difreintiedig a Phlant sy'n Derbyn Gofal yn benodol.

**Astudiaeth Achos 1: Entrepreneuriaid ifanc.**

**Entrepreneuriaid ifanc o dros 30 o ysgolion yn codi stondin yn Sgwâr y Castell yn Abertawe.** Fe wnaeth y plant werthu amrywiaeth helaeth o nwyddau, yn amrywio o lysiau a lemonêd cartref i eitemau wedi'u huwchgylchu a nwyddau crefft. Mae'r farchnad arbennig yn rhan o ymdrech bresennol i ysbrydoli disgyblion i feddwl yn greadigol ac yn uchelgeisiol wrth i Gymru symud tuag at gwricwlwm newydd. Mae'r ysgolion a'u hathrawon wedi bod yn cydweithio â Choleg Gŵyr, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a C4EE. Cafodd y digwyddiad ei gefnogi gan Trade Centre Wales sydd wedi noddi'r stondinau. Ysgol Gynradd Craigfelen yw un o'r ysgolion sy'n cyfranogi, ac mae'r pennaeth, Alison Williams, wedi cyfrannu'n helaeth at y gwaith o drefnu'r farchnad. Dywedodd hi

bod yr ysgol yn datblygu sgiliau entrepreneuraidd ei disgyblion ers nifer o flynyddoedd erbyn hyn, oherwydd mae'r staff yn teimlo'n gryf y dylai addysg fod yn ddifyr ac y dylid cymell disgyblion, a'u paratoi at y byd y byddant yn dod i oed ynddo.

Ychwanegodd Mrs Williams: *"Yn ystod blynyddoedd blaenorol, rydym ni wedi cynnal y digwyddiad hwn ym Marchnad Dan Do Abertawe, diolch i gydweithrediad caredig y masnachwyr sydd yno, ond mae'r nifer o ysgolion sy'n cyfranogi wedi cynyddu, felly dyma ein marchnad fwyaf uchelgeisiol hyd yn hyn. Mae disgyblion o'r holl ysgolion wedi cynnig nifer o syniadau creadigol bendigedig. Byddant yn cefnogi cynllun sy'n helpu i baratoi ein plant ifanc trwy ddatblygu sgiliau a gwerthoedd a wnaiff sicrhau y byddant yn dod yn ddinasyddion creadigol, uchelgeisiol a medrus y dyfodol."*

Presenoldeb mewn Ysgolion a Gwella Ysgolion

- Yn 2017-2018, mae'r presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn 94.1%, ychydig yn is na 94.3% yn 2016-2017. Fodd bynnag, mae presenoldeb wedi gostwng ledled Cymru ac mae Abertawe wedi cynnal ei safle yn 7fed ac wedi gwella ei safle o ran absenoldeb heb ei awdurdodi. Roedd y gyfradd bresenoldeb mewn ysgolion cynradd yn 94.6%, o'i gymharu â 95% yn 2016-2017, ac roedd Abertawe yn 9fed o blith y goreuon yng Nghymru. Mae tueddiadau yn dangos bod presenoldeb wedi gwella dros bum mlynedd. Mae gwelliannau o ran presenoldeb mewn ysgolion wedi cael eu cynorthwyo gan barhad y Rhaglen Cymell Presenoldeb. Yn ychwanegol, mae gan bob ysgol gynllun gweithredu ynghylch presenoldeb erbyn hyn, a datblygwyd hynny mewn partneriaeth ag Ymgynghorwyr Her a'r Gwasanaeth Lles Addysg. Mae gweithdrefnau atgyfeirio sydd wedi ennill eu plwyf wedi cael eu hymgorffori er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb gwael.

- Yn ôl system categoreiddio Llywodraeth Cymru yn 2018, mae gwelliannau wedi digwydd ar draws y ddinas am y bumed flwyddyn yn olynol, ac mae dros 95% o ysgolion yn y categorïau gwyrdd neu felyn. O blith y 79 ysgol gynradd yn Abertawe, mae 47 yn y categori gwyrdd (cynnydd o'i gymharu â'r 40 yn 2018), felly nid oes arnynt angen llawer o gymorth i wella ymhellach. Mae 28 yn y categori melyn, 3 yn y categori oren ac un yn y categori coch. Mae naw ysgol uwchradd yn y categori gwyrdd ac mae'r pump arall yn y categori melyn.

- Mae mentrau eraill i weddnewid ysgolion yn cynnwys gwella ansawdd arweinyddiaeth, addysgu a phrofiadau dysgu ym mhob ysgol; datblygu a gweithredu strategaeth newydd ynghylch anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a strategaeth newydd ynghylch llesiant ac ymddygiad.

- Mae rhagor o waith wedi digwydd hefyd i wella'r ddarpariaeth i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ac integreiddio disgyblion yn ôl i addysg brif ffrwd yn ogystal â sicrhau bod yr holl weithgareddau dysgu yn cael eu cynnal mewn amgylcheddau diogel.

**Astudiaeth Achos 2: Ysgol hynod o ofalgar a chynhwysol yn cael ei chanmol gan arolygwyr**

**Mae Ysgol Gynradd Craigfelen wedi cael ei chanmol am fod yn gymuned hynod o ofalgar a chynhwysol sy'n darparu gofal rhagorol i'w disgyblion.** Bydd plant yn mwynhau gwersi cyffrous a cheir cyfleoedd o'r byd go iawn ar gyfer dysgu a gwella sgiliau entrepreneuriaeth. Fe wnaeth arolygwyr Estyn dreulio wythnos yn yr ysgol yng Nghlydach ac maent wedi barnu ei bod yn rhagorol mewn tri o'r pum maes arolygu - Llesiant ac agweddau at ddysgu; Gofal, cymorth ac arweiniad, yn ogystal ag Arweinyddiaeth a rheolaeth. Barnwyd bod yr ysgol yn dda â nodweddion cryf iawn yn y ddau faes arall - Safonau ac Addysgu a phrofiadau dysgu. Yn eu hadroddiad, fe wnaeth yr arolygwyr gydnabod bod yr arweinyddiaeth wych yn sicrhau bod pob disgybl yn cael profiadau dysgu cyfoethog

a chreadigol mewn amgylchedd diogel, hapus ac anogol. Dywedodd yr arolygwyr bod y disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol a'u bod yn falch iawn o'u cyflawniadau. Bydd disgyblion yn dechrau yn yr ysgol â sgiliau sy'n is na rai a ddisgwylir gan blant o'r un oedran, ond byddant yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol a byddant wedi cyflawni'n dda erbyn yr adeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Cyflawniad Disgyblion

- Ar waethaf y gostyngiad sylweddol mewn graddau a welwyd ar y lefel genedlaethol ers 2017, mae canlyniadau yn Abertawe wedi dal eu tir yn dda unwaith yn rhagor yn 2018, ac mae'r prif ddangosyddion oll yn uwch na chyfartaleddau Cymru, ac yn y rhan fwyaf o bynciau, ceir canlyniadau sy'n well na'r darlun cenedlaethol.

- Dengys y ffigyrau y cafodd 22.4% (21.5% yn 2017) o ddisgyblion y ddinas raddau A* ac A yn eu harholiadau CBAC, sydd gryn dipyn yn well na'r 18.5% a gafodd hynny ledled Cymru. Cafodd dros 75% o ddisgyblion y graddau uwch, sef A* - C, mewn 29 o wahanol bynciau.

- Yn y cyfamser, cafodd y graddau uchaf, sef A* ac A, eu dyfarnu i dros draean o'r ymgeiswyr mewn 18 pwnc. Mae adroddiad llawn am gyflawniad disgyblion ar gael yn https://www.swansea.gov.uk/article/43877/City-GCSE-students-celebrate-exceptional-results

- Yn 2017-2018, yn achos dangosydd L2+ (5 TGAU neu gyfwerth, yn cynnwys Llythrennedd a mathemateg), fe wnaeth perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) gynyddu o 32.4% i 34.0%. Mae hyn yn well na'u perfformiad yn genedlaethol, sef cynnydd o 0.8 pwynt canran i 29.4%. Mae'r bwlch yn L2+ yn 32 pwynt canran, bron iawn yr un fath â'r ffigur cenedlaethol. Rydym ni'n parhau i wella perfformiad disgyblion PYDd fel blaenoriaeth.

Partneriaethau ysgolion

- Bydd arweinwyr ysgolion yn elwa o amrywiaeth o rwydweithiau lleol sydd wedi'u cynllunio i rannu arferion gorau a hybu cymorth a thrafodaeth broffesiynol mewn agweddau allweddol o waith, megis addysgu a dysgu, dylunio'r cwricwlwm a gwerthuso ysgolion.

- Cynllunnir gwaith i wella perfformiad yn y cyfnod sylfaen trwy: gynorthwyo athrawon sydd newydd gymhwyso; cynorthwyo ysgolion i asesu; sicrhau bod cyswllt rheolaidd yn digwydd rhwng cydlynwyr y Cyfnod Sylfaen; sicrhau bod plant yn fwy parod i gychwyn yn yr ysgol, a thrwy nodi a rhannu arferion gorau rhwng ysgolion. Yn ychwanegol, rhagwelir y bydd Perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei wella hefyd trwy gysylltu hynny'n agos â'n strategaeth Trechu Tlodi, sy'n ceisio gwella deilliannau i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar.

Sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol

- Yn y pynciau craidd allweddol, sef Saesneg, Mathemateg a Chymraeg Iaith Gyntaf, mae canlyniadau cyffredinol Abertawe yn cymharu'n ffafriol iawn â'r canlyniadau cenedlaethol.

- Yna achos Mathemateg, dyma oedd canlyniadau Abertawe: A*-A 18.2%, A*-C 52.8% ac A*-G 89.3%. Dyma'r ffigurau cyfatebol ar lefel Cymru ar gyfer Mathemateg yn 2018: 11.5%, 44.2% ac 88.7%. Yna achos Mathemateg-Rhifedd, dyma oedd canlyniadau Abertawe: A*-A 12.6%, A*-C 50.3% ac A*-G 91.6%. Dyma'r ffigurau cyfatebol ar lefel Cymru ar gyfer Rhifedd yn 2018: 10.6%, 46.5% a 91.6%.

- Yna achos Saesneg (Iaith), dyma oedd canlyniadau Abertawe: A*-A 10.7%, A*-C 40.7% ac A*-G 98.5%. Dyma'r ffigurau cyfatebol ar lefel Cymru ar gyfer Saesneg yn 2018: 9.8%, 41.4% a 98.2%. Yn achos Cymraeg Iaith Gyntaf, dyma oedd canlyniadau Abertawe: A*-A 6.6%, A*-C 78.7% a A*-G 99.3%. Dyma'r ffigurau cyfatebol ar lefel Cymru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf yn 2018: 14.5%, 71.2% a 99.4%.

**Astudiaeth Achos 3: Prosiect Ysgol Pentrehafod – Ennyn Diddordeb Disgyblion**

**Fe wnaeth Morgan Sindall gynnal gweithgaredd ennyn diddordeb ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) yn Ysgol Pentrehafod ar 18 Gorffennaf 2018.** Rhoddwyd her i ddisgyblion Blwyddyn 8 gynllunio cynllun llawr ysgol gynradd newydd. Nod y digwyddiad oedd dwyn sylw at yr amrywiaeth o lwybrau gyrfa a'r cyfleoedd sydd ar gael o fewn y diwydiant adeiladu. Gan weithio mewn grwpiau o chwech, rhoddwyd cyfle i ddisgyblion ddatblygu amrywiaeth o sgiliau trwy gydol y diwrnod, yn cynnwys gweithio fel rhan o dîm a chydweithio, a sgiliau trefnu a chyfathrebu. Ar ddiwedd y diwrnod, cafwyd cyflwyniadau gan bob tîm. Fe wnaeth disgyblion gyflwyno eu tîm, ac egluro eu cynllun a'r syniadau oedd yn sail iddo. Roedd yn rhaid i ddisgyblion arddangos dealltwriaeth hefyd o'r oblygiadau posibl o ran costau wrth gyflwyno eu syniadau. Fe wnaeth y staff a'r disgyblion fwynhau'r profiad yn fawr, ac roedd cyflwyniadau'r disgyblion ar ddiwedd y sesiwn ynrhagorol.

Dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal (LAC)

- Disgyblion yn cyflawni dangosydd y cyfnod sylfaen (DCS) ar ddiwedd y cyfnod sylfaen (deilliant 5 neu well mewn iaith, mathemateg, DPCh). Yn draddodiadol, y bwlch rhwng perfformiad plant sy'n derbyn gofal (LAC) a pherfformiad pob dysgwr arall yn y cyfnod sylfaen yw'r leiaf o blith yr holl gyfnodau allweddol yn Abertawe.

- Dros gyfnod o 3 blynedd, mae dysgwyr LAC yn Abertawe 21.9% o bwyntiau ar ei hôl hi o'i gymharu â'u cyfoedion. Eleni, cafwyd gostyngiad yn y dangosydd hwn, sy'n cyd-fynd â gostyngiadau yn ffigurau Abertawe, ERW a Chymru.

- Yn y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) ar gyfer Lefel 4+ mewn Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (CA2), fe wnaeth dysgwyr LAC gyflawni 55.0%, sy'n is na blynyddoedd blaenorol. Yn 2018, y bwlch yng nghyfnod allweddol 2 rhwng perfformiad dysgwyr LAC a pherfformiad pob dysgwr yn Abertawe yw'r ail leiaf o blith unrhyw gyfnod allweddol.

- Yn y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) ar gyfer Lefel 5+ mewn Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 (CA3), fe wnaeth dysgwyr LAC gyflawni cyfartaledd tair blynedd o 54.7%. Fe wnaeth dysgwyr LAC yng nghyfnod allweddol 3 yn 2018 gyflawni 54.2%. Yng nghyfnod allweddol 3, gwelir bod y bwlch tair blynedd cyfartalog rhwng perfformiad dysgwyr LAC a pherfformiad pob dysgwr yn Abertawe wedi cynyddu i 32.7%.

- Y bwlch dros dair blynedd rhwng perfformiad dysgwyr LAC a pherfformiad pob dysgwr yn Abertawe sy'n cyflawni Lefel 2+ ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 (CA4), sef 5 gradd A* - C yn cynnwys Saesneg/mathemateg a gwyddoniaeth, yw'r bwlch mwyaf, sef -44.4%. Rydym ni'n bryderus mai dim ond un dysgwr LAC o blith 18 a gyflawnodd L2+; fodd bynnag, roedd gan 14 o'r bobl ifanc hyn anghenion dysgu ychwanegol a chawsant ddehongliad i gynorthwyo i ddiwallu

eu anghenion. Mae'n werth nodi y gellir gweld bod y newidiadau i'r safonau adrodd gan Lywodraeth Cymru, trwy hepgor cymwysterau galwedigaethol o ffigurau pennawd, yn anfanteisio dysgwyr mwy bregus yn sylweddol.

- Mae’r gwahaniaeth yn achos disgyblion sy'n cyflawni Lefel 1 ar ddiwedd trothwy cyfnod allweddol 4, sef 5 A * -G, yn llawer llai, â dysgwyr LAC yn cyflawni 88.9% o'i gymharu â 96.2% ar gyfer pob dysgwr. Mae hyn yn dderbyniol iawn oherwydd mae’n dangos y pellter da a deithir gan ein pobl ifanc bregus ac mae’n dynodi canlyniadau da ar waethaf lefel uchel o anghenion dysgu ychwanegol.

- Bydd swyddogion yn Abertawe yn cydweithio’n briodol â swyddogion rhanbarthol i ddarparu cymorth rhagorol ynghylch mathemateg/rhifedd a Saesneg ar y lefel uwchradd. Er enghraifft, caiff addysgu a dysgu ei gefnogi yn effeithlon trwy ymgysylltu â phartneriaid darparu allweddol a gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i wella profiadau dysgu.

- Gan gymharu ystadegau disgyblion LAC yn Abertawe â’r holl ddysgwyr LAC yn y siroedd eraill sy’n rhan o ERW yn 2018, cyflawnodd dysgwyr LAC yn Abertawe gryn dipyn yn well na chyfartaledd ERW o 43.8% ac yn uwch na’r 9.1% a’r 16.7% a adroddwyd gan y siroedd cyfagos, sef Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot.

EOTAS (Addysg heblaw yn yr Ysgol)

- Fe wnaeth aelodau cabinet Cyngor Abertawe roi cymeradwyaeth derfynol i gartref newydd ar gyfer y gwasanaeth EOTAS (Addysg heblaw yn yr Ysgol) a phenodi contractwr i gyflawni’r prosiect hwn; mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y safle. Fe wnaeth y Cyngor sicrhau 50% o’r cyllid gan Lywodraeth Cymru i godi’r adeilad newydd yn safle Tŷ’r Cocyd sy’n eiddo i Gyngor Abertawe. Bydd yr uned newydd yn disodli’r adeiladau presennol wedi dyddio sy’n cael eu defnyddio i gartrefu unedau atgyfeirio disgyblion, sydd wedi’u gwasgaru o amgylch nifer o leoliadau ar draws y ddinas ar hyn o bryd.

Gweddnewid yr ystâd ysgolion

- Sefydlwyd y rhaglen i drawsnewid ystâd ysgolion Abertawe fel rhan o Raglen Amlinellol Strategol y Cyngor ynghylch Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae cam cyntaf y rhaglen (Band A) bron â gorffen ac mae wedi cynnwys datblygiadau yn ysgolion cynradd Newton, Glyncollen, Burlais, Tre Gŵyr a Phentre’r Graig ac YGG Lôn Las, ynghyd â gwaith yn YG Gŵyr a Phentrehafod yn cael ei hadeiladu.

- Rydym ni’n parhau i ddatblygu’r cam nesaf o’r rhaglen, sef “Band B”. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu ysgol gynradd newydd Gorseinon, Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) newydd yn y Cocyd, ac ehangu YGG Tan-y-lan, YGG Tirdeunaw ac YGG Pontybrenin sy'n gysylltiedig â datblygiad cynyddol ein hysgolion uwchradd Cymraeg; mae ystod o welliannau i ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd ar y gweill. Bydd safle'r cynllun datblygu lleol (CDLl) yn effeithio'n sylweddol ar yr angen am well darpariaeth ysgolion i wasanaethu anghenion ardal Abertawe (ac yn wir, yr achos dros hynny), er bod angen mwy o eglurder ynghylch yr amserlen.

- Mae ysgolion yn parhau i elwa o raglen cynnal a chadw cyfalaf flynyddol yr Awdurdod Lleol, sy'n cael ei blaenoriaethu ar sail risg ac sy'n gyson â chynlluniau Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd wedi'u targedu at ysgolion ble mae'r angen mwyaf. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddilysu asesiadau diweddaredig o gyflwr ac addasrwydd ysgolion.

Prentisiaethau a sgiliau cyflogadwyedd

- Rydym ni'n parhau i gyflwyno ein Strategaeth Prentisiaethau i helpu i wella dyheadau gyrfa a lefel sgiliau yn y gweithle. Mae tua 200 o bobl ifanc wedi elwa o raglen brentisiaethau'r Cyngor yn y Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol dros y deng mlynedd diwethaf, gan ddysgu crefftau fel gwaith saer, plastro, gosod brics, plymio a gwaith trydanwr. Mae'r rhaglen prentisiaethau wedi cael ei hyrwyddo ac wedi cael ei thargedu'n benodol at Blant sy'n derbyn Gofal. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi llofnodi cytundeb â Choleg Gŵyr i ddatblygu strategaeth prentisiaethau ehangach â'r nod o gynnig cyfleoedd eraill yn adrannau'r Cyngor megis TG, Gwastraff, Priffyrdd, Adfywio'r Economi a Pharciau.

Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF

- Rydym ni'n parhau i gyflwyno ein Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn ysgolion Abertawe er mwyn addysgu plant a phobl ifanc am ddinasyddiaeth a hawliau ac i ddeall cyfrifoldebau.

- Er bod y contract gydag UNICEF i gyflwyno'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau bellach wedi dod i ben, rydym yn gweithio ar fodel cynaliadwy i 'hyfforddi'r hyfforddwyr' i ddod yn aseswyr fel y gall y broses asesu barhau. Yn ychwanegol, rydym ni'n parhau i hyrwyddo Hawliau Plant yn y Cyngor a thrwy gyfrwng ein partneriaethau ehangach.

- Rydym wedi parhau i ledaenu gwybodaeth am CCUHP trwy gyfrwng amrywiaeth o fforymau, digwyddiadau a phrosiectau ledled Abertawe, gan gynnwys y Sgwrs Fawr, Fforwm Llais Disgyblion, ymgynghoriad ar wasanaethau i blant nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, fforymau i Blant sydd wedi profi gofal a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae. Yn ychwanegol, cynhaliwyd ymgynghoriad penodol ynghylch sawl man chwarae newydd ac uwchraddedig, yn ogystal â dyluniad Llwybr Dilly ac "Olion Traed Dilly", sy'n rhan o ddatblygiad newydd Ffordd y Brenin. Fe wnaethom ni ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Plant yn Abertawe trwy gyflwyno ein gwaith i dros 100 o westeion o bob cwr o Gymru.

Llais Disgyblion

- Rydym ni'n parhau i gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau ynghylch eu haddysg trwy *Lais Disgyblion*, *Cynghorau Ysgolion* a'r *Sgwrs Fawr*. Mae'r fforwm Llais Disgyblion ar gyfer y sir gyfan yn cynnwys cynrychiolydd etholedig o bob ysgol uwchradd. Mae'r fforwm wedi trafod â'r Cyfarwyddwr Addysg ac mae disgyblion wedi cael llais mewn penderfyniadau ynghylch: ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion, beth sy'n helpu disgyblion, y Gymraeg, bwlio a chyllideb/cyllid y Cyngor.

- Mae cynlluniau yn eu lle i ehangu'r *Sgwrs Fawr* i gynnwys plant iau a phobl hŷn. Mae dyddiadau a themâu wedi cael eu dewis. Yn Awst 2018, roedd 165 o blant a phobl ifanc 7-18 oed wedi cyfranogi yn y *Fforwm Llais Disgyblion*. Roedd y pynciau yn cynnwys Hunaniaeth a Chydraddoldeb, Dyfodol Addysg yn Abertawe (Abertawe 2025) ac ymgynghoriad ynghylch gwasanaethau ar gyfer plant nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

Ôl troed carbon

- Mae gan y mwyafrif o ysgolion yn Abertawe Eco-gydlynydd, ac mae gan lawer o ysgolion Eco-bwyllgor. Mae Eco-sgolion yn darparu cyfleoedd i wella sgiliau disgyblion, gwella eu hymwybyddiaeth o'r amgylchedd a helpu i wella amgylchedd yr ysgol, ymhlith buddion eraill. Rydym ni wedi annog ein disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i ddysgu yn yr awyr agored, gan sicrhau parch at natur, bioamrywiaeth ac ecosystemau.

**Astudiaeth Achos 4: Plant ysgol yn cyfleu neges ynghylch ailgylchu bwyd i rieni.**

**Mae geneth ysgol o Abertawe yn helpu i gyfleu'r neges ynghylch ailgylchu bwyd i filoedd o gartrefi ar hyd a lled y ddinas.** Fe wnaeth Polly Sampson, sy'n ddisgybl 8 oed yn Ysgol Gynradd Pen-y-fro, ennill cystadleuaeth a gynhaliwyd ledled y ddinas i ddylunio poster ynghylch ailgylchu gwastraff bwyd. Nawr, bydd y poster buddugol yn cael ei arddangos ar ochrau deg o gerbydau ailgylchu Cyngor Abertawe, gan helpu i atgoffa preswylwyr am bwysigrwydd ailgylchu bwyd. Roedd y poster buddugol yn un o blith 220 o bosteri a gyflwynwyd fel rhan o ymgyrch dan arweiniad WRAP Cymru a Chyngor Abertawe. Fe wnaeth Hannah Blythyn, Gweinidog dros yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru, ymweld â Polly a'i chyd-ddisgyblion ym Mhen-y-fro i ddadorchuddio'r gwaith celf buddugol a llongyfarch yr ysgol am ei hymdrechion. Dywedodd Hannah Blythyn: *"Bydd brwdfrydedd disgyblion ysgolion yma yng Nghymru dros yr amgylchedd yn gwneud argraff dda arnaf i bob amser. Da iawn i'r holl ddisgyblion a gyfranogodd a llongyfarchiadau i Polly ac Ysgol Gynradd Pen-y-fro. Rwy'n edrych ymlaen yn arw at weld y cerbydau ailgylchu ar eu newydd wedd ar strydoedd Abertawe."*

Addysg Gymraeg

- Mae targedau *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg* (CSGA) ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion erbyn 2020, ond mae cynlluniau tymor hirach hyd at 2024 wrthi'n cael eu datblygu fel strategaeth tymor hir ehangach a chydlynol ar gyfer y sir gyfan. Mae CSGA 2017-2020 yn gynllun trylwyr, sy'n cynnwys ymrwymiad cryf i ddatblygu a gwella'r Gymraeg mewn Addysg yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg erbyn 2050. Cafwyd tuedd gyson a chynyddol yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn saith oed (Blwyddyn 2), a chafwyd cynnydd o 27.1% rhwng 2012 a 2017.

**Astudiaeth Achos 5: Y Darlledydd Huw Edwards yn agor YGG Lôn Las**

**Mae'r darlledydd Huw Edwards wedi ymweld ag adeilad mewn ysgol Gymraeg mwyaf newydd Abertawe i gwrdd â disgyblion a staff a chanfod sut maent wedi ymgartrefu.** Roedd Mr Edwards yn westai arbennig yn seremoni agoriadol swyddogol Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las, sydd wedi cael ei hailadeiladu'n llwyr. Cafodd YGG Lôn Las ei hagor yn wreiddiol yn safle hen Ysgol Gyfun Iau Llansamlet, ond diolch i fuddsoddiad o £10m bron iawn gan Gyngor Abertawe a Llywodraeth Cymru, cafodd hen adeiladau'r ysgol eu dymchwel ac adeiladwyd cyfleuster newydd sbon o'r radd flaenaf yn eu lle. Mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau staff a disgyblion sydd bellach wedi cynefino'n llwyr. Dywedodd Mr Edwards, sy'n un o ddarlledwyr y BBC ac yn awdur, ei fod wrth ei fodd o wybod bod nifer gynyddol o ddisgyblion a'u rhieni yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Ychwanegodd: *"Mae llwyddiant ysgolion fel hon yn dweud y cyfan. Mae'n wych gweld y gwaith sydd wedi'i wneud gan bawb sy'n ymwneud â'r prosiect, adeiladu'r ysgol, rhoi'r adnoddau yn eu lle a sicrhau bod y cyfan yn digwydd. Mae hi wedi bod yn fraint cael agor yr ysgol - bu'n ddiwrnod gwych ac rwy'n dymuno bob llwyddiant i bawb yn yr ysgol newydd."* Cafodd yr ysgol ei hagor ar yr adeg ddelfrydol, pan dderbyniodd yr ysgol ganfyddiadau ei harolwg gan Estyn, a wnaeth ddyfarnu ei bod hi'n dda ym mhob agwedd. Adeiladwyd y prosiect fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyngor Abertawe, sy'n uwchraddio cyfleusterau ysgolion ledled y ddinas i helpu i wella addysg a hybu cyrhaeddiad disgyblion.

## 5. Sut mae'r Amcan Lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r holl nodau lles cenedlaethol.

- *Cymru Ffyniannus* – Ymateb i Fargen y Ddinas trwy sicrhau bod pobl ifanc yn llwyddo mewn pynciau STEM ac yn datblygu sgiliau digidol, megis codio cyfrifiadurol.
- *Cymru Wydn* – Cynorthwyo ysgolion i ddod yn Eco-sgolion gan wella dealltwriaeth o'n hamgylchedd, parch tuag ato a gwerthfawrogiad ohono.
- *Cymru Iachach* - rydym ni'n parhau i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu haddysg trwy Lais Disgyblion, Cynghorau Ysgolion a digwyddiadau'r Sgwrs Fawr. Mae'r pynciau wedi cynnwys ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion, digartrefedd a pherthnasoedd iach.
- *Cymru fwy cyfartal* - Sicrhau nad yw plant yn wynebu anfanteision oherwydd tlodi neu ffactorau cyfyngol eraill wrth gyflawni safonau a llesiant mewn addysg.
- *Cymru â Chymunedau Mwy Cydlynol* – Gweddnewid yr ystâd ysgolion er mwyn ateb y galw ac ymateb i'r datblygiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).
- *Cymru â diwylliant bywiog ble mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu* - Ateb y galw am addysg Gymraeg a hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ac yn gymdeithasol trwy gynllun strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar y lefel fyd-eang* - Addysgu dinasyddion ifanc i barchu hawliau, deall cyfrifoldebau a bod yn ddinasyddion ymwybodol a chyfrifol ar y lefel fyd-eang trwy barhau i gynorthwyo ysgolion i ddod yn Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF fel rhan o'n hymrwymiad i'r CCUHP.

## 6. Y gwersi a ddysgwyd a meysydd y dylid eu datblygu.

Sgiliau ar gyfer yr economi newydd a Bargen Dinas Bae Abertawe

- Monitro canlyniadau dysgwyr yn drylwyr, gan gynnwys ffocws ar bynciau STEM a chanlyniadau disgyblion chweched dosbarth. Adeiladu ar yr adolygiadau cydweithredol o ddarpariaethau chweched dosbarth a wnaed y llynedd. Bydd YH yn nodi amrywiad o fewn ysgolion rhwng pynciau a rhwng grwpiau o ddisgyblion. Hybu'r defnydd cyson o UCAS Progress a datblygu system amgen ar gyfer 2019-20201. Cyflawni'r strategaeth ddigidol ar gyfer addysg.

- Sicrhau bod dysgwyr yn caffael ac yn datblygu sgiliau gan ddefnyddio camau dilyniant mewn celfyddydau mynegiannol; iaith, llythrennedd a chyfathrebu; dyniaethau; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg.

Presenoldeb disgyblion

- Mae gan bob ysgol swyddog lles addysg penodedig. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn monitro presenoldeb ac yn cynorthwyo ysgolion i ddilyn canllawiau ERW ynghylch presenoldeb. Hysbysu ysgolion am brotocolau ymweliadau cymorth craidd. Sicrhau bod ysgolion sy'n achosi pryder yn cael cymorth priodol.

- Darparu hyfforddiant ynghylch data i ysgolion a llywodraethwyr yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Darparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff ysgolion i'w galluogi i ddefnyddio system Aspire gan Ymddiriedolaeth Teulu Fischer. Datblygu dull newydd a gwell o ddadansoddi perfformiad ysgolion gan ddefnyddio system Tableau.

Partneriaethau Ysgolion

- Rhannu arferion da o Lambeth, ISOS ac Abertawe. Annog ysgolion i gydgyfrannu adnoddau a chryfhau trefniadau clystyrau. Cynnal diwylliant o hunanwella ble mae ysgolion yn cynorthwyo ei

gilydd. Cyfarwyddiadur arferion da ym maes addysg yn Abertawe. Gwella ymwybyddiaeth trwy adolygiadau gan gymheiriaid. Rhwydweithiau creu'r cwricwlwm ac arweinyddiaeth. Goruchwylio, cydlynu a chynorthwyo rhwydweithiau o uwch arweinwyr. Cyfranogiad llawn pob ysgol yn y gwaith o weithredu Cwricwlwm Cymru trwy gyfrwng ysgolion arloesi, clystyrau a sioeau teithiol.

Rhifedd a llythrennedd, Cyrhaeddiad

- Mae'r Rhaglen Genedlaethol Llythrennedd a Rhifedd bellach wedi cael ei sefydlu mewn ysgolion. Parhau i hybu hynny trwy'r system o ysgolion yn hunan-wella. Yn achos y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae angen mwy o bwyslais ar feithrin gallu a hunan-wella o fewn ac ar draws ysgolion. Cydweithio â phartneriaid cyflawni yn ERW i sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael ynghylch y meysydd dysgu a phrofiad newydd.

Prentisiaethau

- Cynorthwyo i gyflawni prosiect Cynnydd a monitro hynny er mwyn lleihau'r nifer sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Cynorthwyo â'r cynllun prentisiaethau iau trwy gynnwys ysgolion mewn prosesau gwneud penderfyniadau, e.e. Cytundeb Gwasanaethau Cyhoeddus, datblygu system yn lle system UCAS Progress, a chyfleoedd prentisiaethau. Rhannu a hwyluso arferion da ynghylch y defnydd o'r grant datblygu disgyblion, ymchwil y Sefydliad Gwaddol Addysg, a chynyddu darpariaeth ar gyfer prentisiaethau iau yn ysgolion Abertawe.

Dysgu Gydol Oes

- Caiff dros 200 o ddigwyddiadau rhad ac am ddim eu cynnal mewn cymunedau ledled Abertawe ar ddechrau Ebrill 2019 yn ystod gŵyl sy'n para wythnos sy'n dwyn sylw at addysg ar gyfer pobl o bob oedran ac yn dathlu hynny. Rhwng 1 a 6 Ebrill, bydd rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau yn cynnig rhywbeth i bawb, yn cynnwys celf, crefftau a cherddoriaeth, iechyd a llesiant, chwaraeon a gwyddoniaeth, technoleg a'r cyfryngau, barddoniaeth, cyfleoedd i entrepreneuriaid, cymorth i fusnes a sgiliau cyflogadwyedd.

- Nod Gŵyl Dysgu gyntaf Abertawe yw dwyn sylw at y cyfleoedd dysgu niferus sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc ac oedolion a chynyddu cyfranogiad. Mae'n cael ei chynnal gan Wasanaeth Dysgu Gydol Oes Cyngor Abertawe ynghyd â'i bartneriaid a dwsinau o grwpiau cymunedol, ysgolion, clybiau a sefydliadau sydd wedi cytuno i gyfranogi. Caiff themâu yr ŵyl, sef 'Arloesol, Cynhwysol ac Entrepreneuraidd', eu hadlewyrchu yn yr holl ddathliadau.

Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF, Llais Disgyblion

- Gwella gwybodaeth am CCUHP a dealltwriaeth o hynny trwy sicrhau y bydd yr holl staff yn mynychu/cyfranogi yn yr hyfforddiant corfforaethol ynghylch CCUHP. Hyrwyddo a gwella ymwybyddiaeth o CCUHP trwy ymgorffori hawliau plant o fewn arferion beunyddiol a defnyddio'r logo Hawliau Plant yn yr holl weithgarwch hyrwyddo. Sicrhau bod amrywiaeth o gefndiroedd yn cael eu cynrychioli ar gynghorau ysgolion a chynyddu presenoldeb dysgwyr bregus yn nigwyddiadau'r Sgwrs Fawr (disgyblion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, plant sy'n derbyn gofal (LAC), plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), plant Sipsiwn, y Roma a Theithwyr, a phlant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)).

Addysg Gymraeg

- Defnyddio gwybodaeth o archwiliadau i gynllunio darpariaeth a gwella gallu ysgolion i gyflawni'r Gymraeg o fewn y cwricwlwm a defnydd achlysurol o'r iaith. Cefnogi egwyddorion y Siarter Iaith gan roi pwyslais ar hunan-adolygu ac adolygiadau gan gymheiriaid. Gosod targedau i gynyddu nifer yr athrawon a'r cynorthwywyr addysgu sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr Awdurdod Lleol yn hwyluso rhaglenni dysgu proffesiynol i feithrin gallu a chyfle i gyfranogi yng nghynllun sabothol y Gymraeg.

Tlodi a chyflawniad disgyblion

- Gwerthuso gwariant ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a Grant Gwella'r Consortia Ysgolion Rhanbarthol (). Hybu'r defnydd o'r Proffil Asesu Bregusrwydd (VAP) i sicrhau bod ysgolion yn ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn gyson.

Strategaeth ddigidol

- Crëwyd y strategaeth ddigidol ar y cyd ag ysgolion. Ffocws ar gymorth ynghylch cymhwysedd digidol i fwyafu cyfranogiad â phrifysgolion a chyflogwyr. Annog ysgolion i wella llythrennedd a rhifedd o fewn a rhwng ysgolion.

Blynyddoedd Cynnal

- Mae trafodaethau yn cael eu cynnal i drosglwyddo'r gwaith o reoli gwasanaethau blynyddoedd cynnar sy'n ymwneud â deilliannau addysgol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i ofal yr Adran Addysg fel rhan o'r gwaith o weddnewid Gwasanaethau Cynorthwyo Teuluoedd. Bydd staff iechyd yn trafod yn drdaâ staff ADY i alluogi nodi dysgwyr sydd ag ADY yn gynnar, ac mae dyletswydd yn bodoli o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.

Gweddnewid ein **Heconomi a'n Hisadeiledd**

**1. Pam mae hwn yn Amcan Lles.**

- Rydym ni'n dymuno gwella perfformiad yr economi a chreu cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth i wella lles economaidd dinasyddion Abertawe.
- Mae'r buddsoddiad mwyaf erioed ar gyfer De Orllewin Cymru wedi cael ei sicrhau yn dilyn cymeradwyo Bargen Dinas arloesol Bae Abertawe ar 20 Mawrth 2017.
- Mae Bargen y Ddinas yn werth £1.3 biliwn ac fe wnaiff hynny weddnewid tirwedd economaidd yr ardal, rhoi hwb gwerth £1.8 biliwn i'r economi leol, a chreu bron iawn 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.
- Yn Abertawe, caiff 100,000 troedfedd sgwâr o ofod swyddfa hyblyg a fforddiadwy ei adeiladu yn Ffordd y Brenin yng nghanol y ddinas ar gyfer busnesau technoleg. Bydd yn rhan o bentref digidol ac fe wnaiff elwa o isadeiledd digidol o'r radd flaenaf.
- Bydd Bargen y Ddinas yn arwain at ddatblygu pentref blychau 215,000 troedfedd sgwâr yn Ardal Arloesi Glannau Abertawe yn SA1, gan ddarparu lle fforddiadwy i gwmnïau newydd. Mae'r ardal yn cael ei datblygu gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac mae wrthi'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd.
- Bydd Bargen y Ddinas hefyd yn cynnal y gwaith o ddigideiddio'r arena dan do â 3,500 o seddau a gynllunnir ar gyfer safle datblygiad Abertawe Ganolog yng nghanol y ddinas, yn ogystal â datblygu sgwâr digidol a fydd yn cynnwys sgriniau digidol a gwaith celf digidol.
- Bydd Bargen y Ddinas yn sbarduno adfywiad ffisegol canol y ddinas ymhellach yn unol â'n Fframwaith Strategol diwygiedig yng Nghanol y Ddinas - yn benodol, datblygu a gwella eiddo a gwelliannau cludiant cysylltiedig, gan ddarparu isadeiledd galluogol i gynorthwyo ag adfywio.
- Rydym yn dymuno manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan Fargen y Ddinas ac adfywio canol y ddinas trwy greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl sy'n ddi-waith ac yn anweithgar yn economaidd trwy gymalau budd cymunedol mewn contractau a darparu gwasanaethau cymorth cyflogadwyedd mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill y cyngor a phartneriaid allanol.
- Rydym yn dymuno cael fframwaith polisi cynllunio sy'n ategu twf ac adfywio ac yn sicrhau bod gan gymunedau ddigon o dai o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion cymunedau a chynnal twf yr economi.
- Rydym yn dymuno manteisio ar botensial am dwf sydd heb ei gyffwrdd i gynhyrchu ynni cynaliadwy, diogelu'r amgylchedd a rhoi hwb i'r economi, gan gynnwys parhau i lobïo'r llywodraeth i gymeradwyo'r Morlyn Llanw.
- Rydym yn dymuno manteisio ar asedau ac isadeiledd naturiol, diwylliannol ac adeiledig Abertawe i ddatblygu'r economi ac amddiffyn yr amgylchedd a gwella lles ar yr un pryd.

**2. Y camau y dywedom ni y byddem yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r Amcan Lles hwn.**

- Cydweithio â phartneriaid i weithredu Bargen y Ddinas i fuddsoddi mewn isadeiledd digidol a chefnogi buddsoddiad, arloesedd, twf, swyddi, sgiliau a chynhyrchedd.
- Elwa ar y cyfleoedd a gynigir gan Fargen y Ddinas a pharhau i adfywio canol y ddinas.
- Hybu a gwella economi leol sy'n amrywiol ac yn gynaliadwy.
- Paratoi Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer Canol y Ddinas.
- Mabwysiadu'r cynllun datblygu lleol (CDLl) sy'n cefnogi adfywiad Abertawe ac yn hybu cymunedau cynaliadwy.
- Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir ac sy'n anweithgar yn economaidd trwy gymalau budd cymunedol mewn contractau.
- Gwella, ehangu ac arallgyfeirio cyfleusterau ac isadeiledd hamdden, diwylliannol a threftadaeth i helpu i hybu'r economi, hyrwyddo twristiaeth a gwella lles.

- Cyflawni trosglwyddiad cyfleusterau hamdden yn llwyddiannus i bartner cyflenwi newydd y Cyngor a datblygu strategaeth gynaliadwyedd tymor hir ar gyfer gwasanaethau 'mewnol' ar draws y portffolio gan gynnwys Llyfrgelloedd, Theatrau, Orielau ac Amgueddfeydd.
- Datblygu prosiect Gwaith Copr Hafod ac adfywio Strategaeth Coridor Glan yr Afon er mwyn nodi datblygiadau cyflenwol.
- Parhau i gydweithio â Skyline Ltd i gyflawni'r prosiect *Gondolas* a *Cheir Llusg* ym Mynydd Cilfái.
- Adeiladu ar waddol cais Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y DU trwy gyfranogi'n weithgar yn rhaglen beilot Diwylliant 21 a chyflawni'r naw ymroddiad ar gyfer Diwylliant mewn Dinasoedd Cynaliadwy.
- Hyrwyddo digwyddiadau hamdden a diwylliannol cyhoeddus er mwyn cynorthwyo i wella lles, hybu cydlyniad cymunedau a sicrhau buddion economaidd.
- Cydweithio â phartneriaid i sicrhau pentref chwaraeon rhyngwladol a chanolfan ragoriaeth ym maes chwaraeon.
- Cyflawni'r Strategaeth Ynni er mwyn lleihau costau, darparu ynni rhatach a lleihau ein hôl troed carbon.
- Goruchwylio'r gwaith o reoli a datblygu'r economi gyda'r hwyr ac yn ystod y nos yng Nghanol y Ddinas, yn cynnwys cadw'r Faner Biws, i sicrhau ei bod yn lle diogel, glân a chroesawgar ar gyfer gweithwyr ac ymwelwyr.
- Gweithio'n gydweithredol trwy gyfrwng Partneriaeth Adfywio newydd Abertawe i fwrw ymlaen ag agenda adfywio economi Abertawe, yn cynnwys cyflawni'r Rhaglen Buddsoddiadau wedi'u Targedu .
- Cydweithio ag eraill i ddarparu cludiant ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel gan ddarparu cysylltedd a symudedd gwell a rhatach a'r buddion economaidd cysylltiedig gan effeithio llai ar yr amgylchedd a gwella ansawdd yr aer.
- Cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwella mannau gwyrdd Abertawe, yn cynnwys parciau ar gyfer hamddena a chwarae, er mwyn hybu iechyd a lles.
- Rheoli arfordir Abertawe, hybu ansawdd dŵr ymdrochi gwell a chynnal statws Baner Las traethau Abertawe er mwyn hybu twristiaeth, amddiffyn yr amgylchedd a chynorthwyo â lles.
- Bwrw ymlaen â safleoedd datblygiadau tai a chymysg strategol er mwyn diwallu'r angen am dai a darparu cyflogaeth.
- Amddiffyn a hybu iechyd, lles, diogelwch a buddiannau defnyddwyr pobl sy'n byw yn Abertawe neu'n ymweld â'r ddinas i gynnal diogelwch y cyhoedd ar draws yr amrywiaeth o wasanaethau rheoleiddio megis llygredd, sgiâmiau a masnachu annheg, iechyd y cyhoedd a materion tai ac ati.

**3. Beth yn union fydd llwyddiant.**

- Mae gan Abertawe economi sy'n defnyddio asedau naturiol, chwaraeon a diwylliannol. Trwy gyfrwng Bargen y Ddinas, y buddsoddiad mewn isadeiledd digidol ac adfywio Abertawe a Chanol y Ddinas, mae'r economi yn darparu rhagor o swyddi, twf, sgiliau, hyfforddiant a chynhyrchedd priodol, ac ar yr un pryd, diwallir anghenion am dai a chaiff lles cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ei gynnal.

**4. Gwneud cynnydd tuag at y camau i fodloni'r amcan lles hwn – beth lwyddodd.**

Cysylltu Bargen y Ddinas â Chanol y Ddinas a'r Economi Leol

- Dylai prosiect Cam Un Abertawe Ganolog fod yn barod erbyn 2021, a dylai'r arena o'r radd flaenaf sydd â lle i 3,500 o bobl agor yn ystod y misoedd yn dilyn hynny. Mae gwaith ar y dyluniadau manwl terfynol yn mynd rhagddo, dylai gwaith paratoi i wella ffyrdd yn ardal Stryd Wellington ailgychwyn yn ystod chwarter 3 neu chwarter 4 2019, ac mae'r gweithredwr mannau

cyfarfod Ambassador Theatre Group, sy'n arweinydd byd eang ym maes rheoli mannau cyfarfod, wedi cytuno i reoli'r arena.

- Mae caffael pecynnau gwaith ar wahân ar gyfer isgontractwyr a dechrau ar y safle i gyflawni gwaith ymlaen llaw ar fin digwydd. Yn ychwanegol, mae digwyddiad 'Dewch i Gwrdd â'r Prynwr' wedi cael ei gynnal yn Stadiwm Liberty i sicrhau bod y gadwyn gyflenwi leol yn ymwybodol o'r cyfle busnes sylweddol hwn. Cynhelir digwyddiadau caffael eraill yn ddiweddarach eleni.

- Cafodd cyfleoedd datblygiad Cam 2 Abertawe Ganolog eu hyrwyddo yn llyfryn buddsoddi'r Adran Masnach Ryngwladol yn y gynhadledd eiddo rhyngwladol. Mae Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw hefyd wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar i geisio canfod datblygwyr i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni Cam 2 Abertawe Ganolog.

- Mae prosiect isadeiledd Ffordd y Brenin yn parhau i wneud cynnydd ar y safle, ar waethaf methiant cwmni Dawnus. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd â chontractwr arall i gymryd cyfrifoldeb am gyflawni contract y gwaith.

- Mae'r ymgynghorwyr amlddisgyblaethol a benodwyd ar gyfer adeilad Hwb Cyflogaeth y Pentref Digidol wedi cynnal adolygiad cychwynnol o'r cynigion ynghylch y dyluniad a rhagwelir y caiff cais cynllunio ei gyflwyno yn ddiweddarach eleni.

- Gwnaed arolwg rhychwantu o gynlluniau cychwynnol i gyflawni gweddnewidiad cyffrous ar gyfer ardal Sgwâr y Castell, a fydd yn cynnwys sgwâr gyrdd ac yn parhau yn eiddo cyhoeddus, a chynhaliwyd ymarfer caffael i benodi ymgynghorwyr i gynghori ynghylch y cynllun. Gallai gwelliannau i'r lle pwysig hwn yn y ddinas gynnwys bwyty, dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel a rhagor o fannau gwyrdd i gydnabod hanes y sgwâr fel gardd. Bydd yn parhau yn gyrchfan trwy gydol y flwyddyn a fydd yn ymarferol ar gyfer digwyddiadau, defnydd dros dro, cyfleoedd masnachol, tymhorol a diwylliannol, a chwarae a gweithgarwch anffurfiol.

- Mae'r achos busnes dros Lannau Digidol Dinas Abertawe yn cynnwys pentref blychau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCDDS) a chyffin arloesi. Rydym ni hefyd yn cydweithio â PCDDS i sicrhau bod y cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar gyfer safle SA1 ehangach yn ategu rhaglen adfywio Canol y Ddinas.

**Astudiaeth Achos 1: Darpar gyflenwyr o Gymru yn gwneud argraff dda ar brif gontractwr arena Abertawe.**

**Mae'r prif gontractwr hynod o brofiadol sy'n helpu i gyflawni Cam Un Abertawe Ganolog, sy'n werth £120m, yn cael ei gyffroi gan y busnesau lleol sy'n gobeithio cyfranogi.** Fe wnaeth ansawdd ac amrywiaeth y darpar gontractwyr ac isgontractwyr a fynychodd ddigwyddiad 'dewch i gwrdd â'r prynwr' argraff dda ar Buckingham Group Contracting Ltd. Mae staff Buckingham bellach yn dadansoddi'r ymholiadau wrth iddynt weithio i greu adroddiad ar gyfer y cyngor a wnaiff argymell cynllun i gyflawni'r prosiect. Dywedodd Kevin Underwood, Rheolwr Gyfarwyddwr Chwaraeon a Hamdden yn Buckingham Group Contracting Ltd: *"Roedd lefel y diddordeb gan fusnesau o Gymru, eu hansawdd a'u parodrwydd i gydweithio â ni, yn galonogol iawn. Mae gan nifer dda ohonynt brofiad cryf o weithio ledled y DU, gan weithio gyda sefydliadau mawr, ac mewn rhai achosion, maent yn cynnig gwasanaethau arbenigol diddorol. Rydym ni'n edrych ymlaen at gydweithio'n agos â busnesau o Gymru ynghylch y cynllun cyffrous hwn; rydym ni nawr yn gofyn i'r sawl y gwnaethom ni gwrdd â hwy yn y digwyddiad cwrdd â'r prynwr i fod yn amyneddgar wrth i ni gynllunio'r prosiect. Maes o law, bydd cyfleoedd ar gael i ddod yn rhan o gadwyni cyflenwi a chyflwyno ceisiadau ffurfiol am waith."* Bydd Cam Un Abertawe Ganolog yn cyflawni arena ddigidol dan do â lle i 3,500 o bobl,

parc arfordirol, llecyn digidol, pont gerdded tirnod, llefydd parcio newydd ar gyfer ceir a chartrefi a safleoedd newydd ar gyfer adwerthu, bwyd a diod. Dros y pum mis nesaf, bydd Buckingham Contracting Group Ltd yn cyflawni gwasanaethau cyn adeiladu, yn cynnwys dyluniadau manwl, manylion costau a gwaith paratoi hanfodol yn y safle yng nghanol y ddinas. Bydd y gwaith cynnar yn paratoi'r prosiect a'r safle ar gyfer y prif gam adeiladu a ddylai gychwyn tua diwedd yr haf eleni. Dylai'r trawsnewid gael ei gwblhau yn 2021.

Cynllun Datblygu Lleol

- Cyhoeddwyd Adroddiad Terfynol Arolygydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar yr Archwiliad ynghylch CDLl Abertawe ym mis Ionawr 2019. Daeth i'r casgliad bod y CDLl wedi cyflawni'r profion cadernid ac ystyriai y bydd ei bolisïau a'i gynigion yn cael eu cyflawni. Mabwysiadwyd y CDLl gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2019. Ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi cyfres o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i ategu polisïau'r Cynllun. Bydd y cyfan CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd

- Bydd y strategaeth Isadeiledd Gwyrdd (IG) newydd yn cynnig arweiniad i ddatblygwyr ynghylch buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol IG fel rhan o'u cynlluniau o ran gwelal bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd, lliniaru ac addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd, lleihau dŵr ffo wyneb a risg llifogydd, lliniaru llygredd a lles meddyliol a chorfforol gwell. Mae cyfuniad o'r ffactorau hyn yn golygu y bydd Abertawe yn barod at y dyfodol ac y bydd canol y ddinas yn lle mwy dymunol i ymwelwyr (gan gynyddu'r amser a dreulir ganddynt yno) a helpu i wneud yr ardal yn gyrchfan a chynyddu gweithgarwch economaidd.

- Mae enghreifftiau o ble mae'r strategaeth eisoes wedi gwella isadeiledd gwyrdd yn cynnwys: Ffordd y Brenin, ble mae 170 o goed newydd yn cael eu plannu, gan ddyblu cyfanswm y coed oedd yno'n flaenorol; cynllun yr arena, sy'n cynnwys creu parcdir arfordirol ar ben maes parcio aml-lawr. Fe wnaeth datblygiadau blaenorol megis Ffordd y Gorllewin a'r Rhodfa ddod â niferoedd mawr o goed newydd i ganol y ddinas. Yn Stryd y Berllan, er enghraifft, bydd 14 o'r 22 o goed sydd wedi'u plannu yno ar hyn o bryd yn aros yn eu lle a bydd 25 o goed ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y gymysgedd. Mae hynny'n golygu y bydd cyfanswm o 39 o goed yn Stryd y Berllan wedi i'r gwaith ddod i ben, o'i gymharu â'r 22 presennol. Bydd cyfanswm o dros 200 o goed yng nghanol y ddinas pan fydd y rhydweli werdd wedi'i chwblhau.

**Astudiaeth Achos 2: Rhaglen plannu coed ar gyfer cymuned Abertawe**
**Mae tua 150 o goed yn cael eu plannu ar ymylon strydoedd yn ardal Penlan, Abertawe - a bydd 250 yn dilyn y flwyddyn nesaf.** Mae Cyngor Abertawe'n cyflwyno'r gwyrddlesni fel rhan o gynllun i wella'r amgylchedd preswyl. Mae'r coed, sydd rhwng 10 a 12 troedfedd o uchder, wedi bod yn ymddangos ar ac o gwmpas meysydd gwyrdd Heol Gwyrosydd. Bydd rhagor yn dilyn yn y strydoedd cyfagos erbyn diwedd 2020. Eleni, mae'r 144 o goed newydd ar gyfer Penlan yn cael eu plannu gan uned gwasanaethau coed y Cyngor ar ran y tîm tai. Mae'r coed lled-aeddfed yn cynnwys amrywiaeth eang o rywogaethau cynhenid a rhai addurnol. Maent yn cynnwys derw a bedw, coed gellyg addurnol a cheirios, gwern, masarn, cerddin, pinwydd Awstria a gludwydd melys. Maent wedi cael eu dewis i fod yn addas i'r ardal breswyl ble byddant yn sefyll.

Meddai **Mark Thomas**, Aelod Cabinet y Cyngor dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, *"Mae'r plannu'n adlewyrchu un o flaenoriaethau allweddol y cyngor - cynnal a chadw a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe a thrwy hynny wella iechyd a lles preswylwyr. Bydd y coed newydd yn gweddnewid golwg yr ardal a byddant yn fuddiol iawn i fioamrywiaeth leol. Bydd rhagor o goed yn*

*dilyn, ynghyd â phrosiectau eraill i wella'r amgylchedd."* Dywedodd Andrea Lewis, aelod cabinet y Cyngor dros gartrefi ac ynni: *"Rydym am i'n tenantiaid fyw mewn cartrefi o safon mewn cymuned ddiogel. Fe wnaiff amgylchedd gwyrdd ein helpu ni i gyflawni hynny felly rydym ni'n bwriadu cyflwyno cymaint o wyrddlesni ag y gallwn ni ym Mhenlan, ardal a wnaiff elwa o gael rhagor o goed. Rwy'n gobeithio y gwnaiff preswylwyr lleol fwynhau'r ychwanegion newydd am genedlaethau i ddod. Mae'r coed newydd sy'n cael eu plannu yn rhan fechan ond pwysig o welliannau gwerth nifer o filiynau o bunnoedd rydym ni'n eu gwneud i'n stoc tai. Bydd y gweithgarwch yn helpu'r Cyngor i gyflawni Safon Ansawdd Tai Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol wella eu stoc tai hyd at lefel dderbyniol erbyn mis Medi 2020."*

Cyfleoedd Cyflogaeth a Hyfforddiant

- Lansiwyd *Gweithio Abertawe* yn Ionawr 2019 i helpu pobl i ganfod swyddi newydd, swyddi gwell, neu hyfforddiant. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ceisio chwalu'r rhwystrau sy'n gwneud i lawer o bobl barhau i fod yn ddi-waith neu barhau i wneud gwaith am gyflog isel. Gofal plant a chludiant yw'r problemau mwyaf cyffredin, ac mae'r tîm ar gael i gynorthwyo. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn cynnwys cynlluniau gweithredu personol ynghylch cyflogaeth, hyfforddiant, cymorth i ddatblygu CV, cymorth â sgiliau cyfweliadau ac i lunio ceisiadau am swyddi, a lleoliadau profiad gwaith, prentisiaethau a chymorth i bobl sy'n gweithio.

- Mae'r Cyngor wedi parhau i sicrhau buddion ar gyfer y gymuned trwy'r prosiect *Tu Hwnt i Frics a Mortar.* Bydd swyddogion y prosiect Tu Hwnt i Frics a Mortar yn trafod yn aml ag adrannau mewnol sy'n caffael contractau. Roedd ugain o brosiectau'r Cyngor yn cynnwys cymalau budd cymunedol yn 2018/19 a chrëwyd oddeutu 2000 o wythnosau hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer unigolion trwy gyfrwng Tu Hwnt i Frics a Mortar i bobl ddi-waith a phobl sy'n anweithgar yn economaidd.

- Gan adeiladu ar y strategaeth prentisiaethau, fe wnaeth y Cyngor gyflogi 15 o brentisiaid a gychwynnodd ym Medi 2018. Yn 2018, darparwyd dros 800 o wythnosau hyfforddiant trwy gyfrwng contractau Safon Ansawdd Tai Cymru; cyflogwyd 27 o bobl o gymunedau lleol ac roedd 15 o brentisiaid crefftau adeiladu yn rhan o waith y Safon Ansawdd

Cyfleusterau/isadeiledd hamdden, diwylliannol a threftadaeth

- Yn ystod 2018/19, fe wnaeth y Cyngor gynnal digwyddiad Biggest Weekend y BBC oedd yn cynnwys 60,000 o ddeiliaid tocynnau; 15 miliwn o wylwyr teledu a dros 20 miliwn o geisiadau am gynnwys digidol ar-lein (h.y. YouTube). Amcangyfrifir bod y digwyddiad wedi sicrhau effaith gwerth £5.8m ar gyfer yr economi leol. Cafodd y digwyddiad y wobr am y Digwyddiad Gorau yn seremoni wobrwyo Swansea Life. Roedd digwyddiadau arwyddocaol eraill yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys Sioe Awyr Cymru (amcangyfrifwyd bod yr effaith economaidd wedi cynyddu o £8.4m yn 2017 i £9.7m yn 2018) a Ras 10k Admiral Bae Abertawe a gyflawnodd Statws Aur BARR, a chafodd y wobr am y Digwyddiad Addas i Blant gorau yng Ngwobrau Rhedeg y DU. Fe wnaeth dros hanner miliwn o bobl fynychu digwyddiadau a gafodd eu cynnal neu eu cefnogi gan y tîm Digwyddiadau Arbennig.

- Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd, sy'n allweddol i gael gafael ar gyllid, yn ogystal â dyfarniadau'r Baneri Glas a Gwyrdd; bydd hyn yn cael ei ystyried gyda rhanddeiliaid, cydweithwyr a'r sector twristiaeth yn ein Huwchgynhadledd Twristiaeth flynyddol ar 15 Mai 2019. Mae cyfeirlyfr newydd o'r enw 'Darganfod Pethau i'w Gwneud ym Mae Abertawe' hefyd yn cael ei lansio ac mae'n cynnwys manylion atyniadau, darparwyr gweithgareddau a phartneriaid bwyd a diod. Caiff y Cyfeirlyfr ei ddosbarthu ar draws Bae

Abertawe ac yn y DU ac mae'n targedu ymwelwyr posibl ar gyfer yr ardal, ac mae hefyd yn cynnig gwybodaeth ac ysbrydoliaeth i'r sawl sydd eisoes yn aros ym Mae Abertawe.

Trosglwyddo Cyfleusterau Hamdden

- Ym mis Hydref 2018, dechreuodd chwe chanolfan hamdden gymunedol a'r LC2 gael eu rheoli gan yr ymddiriedolaeth hamdden dielw mewn partneriaeth â'r cyngor, ac ar ran y cyngor. Fe wnaiff hyn sicrhau y bydd ganddynt ddyfodol disglair ac fe wnaiff gynorthwyo pobl Abertawe i gadw'n heini a bod yn iach. Mae buddsoddiad arfaethedig o £5.1m i'w wneud ar draws y cyfleusterau i wneud gwelliannau ac i gwblhau gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Yn ychwanegol, ceir ymrwymiad i fuddsoddi mewn darpariaeth meysydd chwaraeon 3G ar draws Abertawe i gynnig darpariaeth ar gyfer chwaraeon cymunedol a chwaraeon elît mewn safleoedd allweddol, gan gydweithio â phartneriaid allweddol a chyrff dyfarnu grantiau i gyflawni ymrwymiadau polisi. Trosglwyddwyd gweithrediad a rheolaeth Plantasia i Parkwood Leisure ym mis Chwefror 2018, a bydd hynny hefyd yn sicrhau canlyniad cynaliadwy ar gyfer y cyfleuster a'r gwasanaeth, ac o ganlyniad i fuddsoddiad o £ 1.1M, cynnydd o ymwelwyr a thwristiaid yn defnyddio'r lleoliad a chadw cyfleusterau parc sydd o'i gwmpas, yn ogystal â bod yn atyniad yng Nghanol y Ddinas

Gwaith Copr Hafod, Strategaeth Coridor yr Afon, Prosiect Mynydd Cilfái

- Mae cynllun mawr a fydd yn gweld Distyllfa Penderyn yn ehangu i fod yn rhan o safle hanesyddol Gwaith Copr Hafod Morfa yn Abertawe wedi cael caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio. Yng Ngwaith Copr Hafod, mae prosiect Cam 2 y Pwerdy a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (HLF) bellach wedi'i gymeradwyo'n llawn, mae dyluniad RIBA 4 ar y gweill, ac mae caffael gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer Mai 2019. Sicrhawyd arian ychwanegol hefyd ar gyfer y Gwaith Copr gan Lywodraeth Cymru fel rhan o raglen Targedu Buddsoddiad Adfywio. Mae rhaglen atgyweirio pont wrthbwys y Morfa wedi cychwyn hefyd. Mae'r gwaith atgyweirio ym mheiriandy Musgrave bron iawn wedi'i gwblhau, a bydd gwaith atgyweirio yn cychwyn ym mheiriandy Vivian yn fuan. Mae ymweliad ychwanegol wedi cael ei bennu ar gyfer prosiect ceir llusg Skyline ac mae trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth ariannol yn mynd rhagddynt.

**Astudiaeth Achos 3: Cam mawr ymlaen ar gyfer safle treftadaeth yn Abertawe.**

**Mae cynlluniau i adfywio un o hen gadarnleoedd diwydiannol Abertawe wedi cymryd cam mawr arall ymlaen.** Rhoddwyd caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio i gynllun mawr i ymestyn distyllfa Penderyn i ran o safle hanesyddol Gwaith Copr Hafod Morfa Abertawe. Mae'r cynlluniau ar gyfer y safle nas defnyddir, gyferbyn â Stadiwm Liberty, yn cynnwys:

- Canolfan ymwelwyr newydd yn cynnwys siop, bar profi, lle arddangos a thoiledau;
- Creu distyllfa, swyddfeydd a bar VIP yn adeilad y pwerdy sydd wedi'i ailwampio'n llawn;
- Storfa casgenni newydd yn rhan o'r felin rholio gradd dau sydd bellach yn cael ei defnyddio fel storfa casgliadau Amgueddfa Abertawe;
- Rhodfa newydd â tho yn cysylltu'r pwerdy wedi'i ailwampio, y ganolfan ymwelwyr newydd a'r storfa casgenni;
- Tirweddu:
- 60 o lefydd parcio.

Bydd y trawsnewid yn cynnwys taith profi wisgi Penderyn a fyddai hefyd yn addysgu pobl am hanes cyfoethog y safle a gallai ddenu mwy na 50,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Bellach, mae’r ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio wedi cael eu cymeradwyo fel rhan o brosesau ffurfiol. Disgwylir i’r gwaith adeiladu ddigwydd trwy gydol 2020 a 2021, ac mae Penderyn bwriadu agor yno yn 2022.

Dinas Diwylliant, Hyrwyddo digwyddiadau hamdden a diwylliannol

- Mae'r Cyngor yn ail-gwmpasu'r modd o gyflawni'r 'Ddinas Diwylliant' trwy ailddrafftio'r Fframwaith Datblygu Diwylliannol, sy'n cynnwys ffocws sylweddol ar gyflawni'r Strategaeth Gelf ar gyfer Abertawe Ganolog (camau 1 a 2). Er ei bod ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, ymyriadau dros dro, digwyddiadau ac animeiddio'r parth cyhoeddus yn y cyfnod cyn ac ar ôl cwblhau cam 1, trwy gydol 2019 ac yn ystod 20/21/22.

- Mae Cyngor Abertawe wedi gwneud cyfraniad allweddol ar y cyd â phartneriaid wrth ddatblygu Cynnig Celf a Diwylliannol Abertawe a chefnogi datblygiad yr Economi Greadigol. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:
    - Intersection: Deialog cymunedol creadigol Heol Sain Helen – digwyddiad cyhoeddus a dangos ffilm;
    - Plac Glas: Clara Neal, etholfreintwraig, Ysgol Heol Teras. Digwyddiad ar gyfer yr ysgol gyfan a dadorchuddio’r plac gan y Brif Eneth ac Aelod o’r Senedd Ieuenctid;
    - Hwb Digidol a Diwylliannol BAME; Partneriaeth â Chyngor Hil Cymru i ddatblygu Hwb yn Adain y Celfyddydau; Cefnogi datblygiad cynllun busnes;
    - Agenda 21 ar gyfer Diwylliant – rhaglen Dinasoedd Peilot. Datblygu Addewid ynghylch Amrywiaeth ar gyfer Gwasanaethau Diwylliannol.

- Yn ystod y llynedd, fe wnaeth Gwasanaeth Orielau ac Amgueddfeydd Cyngor Abertawe ennill nifer o wobrau a chydnabyddiaethau ar y lefel genedlaethol. Cafodd Oriel Glynn Vivian glod arbennig yn Ngwobrau Angel Heritage a chafodd ei henwebu am Wobrau RICS. Mae’r Oriel bellach yn Amgueddfa wedi’i Hachredu’n Llawn (MALD ac ACE) ac enillodd Dystysgrif Rhagoriaeth gan Trip Advisor. Mae hefyd yn Gyfleuster Achrededig Croeso Cymru erbyn hyn. Mae’r Oriel wedi estyn allan at gynulleidfaoedd newydd gyda’r hwyr trwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau gyda’r hwyr, ac mae wedi rhedeg rhaglenni partneriaeth llwyddiannus ar y cyd â Dinas Noddfa (prosiect ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid) a CRUSE (prosiect celf i bobl sydd wedi cael profedigaeth). Fe wnaeth yr Oriel hefyd gynnal arddangosfa N.S. Harsha trwy bartneriaeth ag Artes Mundi a’r British Council. Fe wnaeth arddangosfa gan Peter Blake arwain at werthu printiau gwerth £6,000 yn yr Oriel.

**Astudiaeth Achos 4: Oriel yn Dathlu Mis Hanes LGBT**

**Cafodd un o atyniadau celf hen sefydledig Abertawe ei weddnewid gan enfys.** Roedd digwyddiad mynediad am ddim Glynn Vivian gyda’r Hwyr yn dathlu Mis Hanes LGBT. Roedd y cynulliad hwn ar ôl gwaith yn Oriel Gelf Glynn Vivian yn cynnwys nifer o berfformwyr LGBT+ gan gynnwys artist drag a rhagolwg o ddigwyddiad yn y ddinas a ysbrydolwyd gan Strictly Come Dancing. Roedd y digwyddiad yn cynnwys bar dros dro a ddarparwyd gan un o fusnesau’r ddinas, Hoogah. Fe wnaeth yr artist drag o Abertawe, Ruby Slippers, berfformio sioe gabare unigryw, â chymysgedd o ganu byw, meimio a chwerthin. Fe wnaeth Jermin Productions drafod eu digwyddiad sydd ar ddod sef Swansea Pride Hits the Dancefloor - digwyddiad wedi’i ysbrydoli gan Strictly ar gyfer cyplau o’r un rhyw yn Neuadd y Brangwyn. Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys  Gwilym Games o wasanaeth llyfrgelloedd y cyngor yn trafod ffigyrau hanesyddol o Abertawe a'u cysylltiadau LGBTQ. Cafwyd detholiad o ffilmiau byr gan Wobrau Gŵyl Ffilm Ryngwladol LGBT+ Iris Prize, caneuon byw gan Gôr True Colours o

Abertawe, a chipolwg newydd ar lyfr *The Rebecca Rioter* gan y cyn-ddiwydianwraig o Abertawe, Amy Dillwyn.

Dywedodd Robert Francis-Davies, aelod cabinet Cyngor Abertawe dros fuddsoddi, adfywio a thwristiaeth: *"Rwy'n falch iawn bod tîm Oriel Glynn Vivian yn cydweithio ag eraill yn y ddinas i nodi Mis Hanes LGBT. Mae Abertawe yn lle ble ceir cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n hanfodol bod ein lleoliadau diwylliannol yn cefnogi amrywiaeth a'n bod ni'n sicrhau bod pobl sy'n lesbiaid, yn hoyw, yn ddeurywiol ac yn drawsrywiol, eu hanes, eu bywydau, eu profiadau a'u cyfraniad at y gymdeithas yn fwy amlwg. Bydd y digwyddiad yn Oriel Glynn Vivian yn ddifyr iawn a bydd hefyd yn cyfleu negeseuon cryf am ddatblygu addysg ynghylch materion sy'n effeithio ar y gymuned LGBT+."*

- Mae Strategaeth Ddigidol y Cyngor yn parhau i drawsnewid ein dull o weithio, a chafwyd dros 565,000 o ymweliadau â gwefan visitswanseabay.com (+4.1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol) a 75,000 o ddilynwyr ar Facebook. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dau gais diweddar am arian - un ar gyfer marchnata a'r llall i ddatblygu cynnyrch twristiaeth. Mae cymorth i farchnata digwyddiadau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i gynyddu cynulleidfaoedd ein rhaglen o ddigwyddiadau mawr, e.e. Sioe Awyr Cymru, Ras 10k Bae Abertawe, theatr awyr agored. Bydd y Cyngor yn rhoi cymorth i leoliadau ac â gwaith marchnata i sicrhau bod targedau incwm heriol y Gwasanaethau Diwylliannol yn cael eu cyflawni, yn ogystal â thargedau defnydd ar gyfer cynlluniau a ariennir gan grantiau.

- Ar gyfer yr economi gyda'r hwyr ac yn ystod y nos, mae Cyngor Abertawe wedi hyrwyddo a hwyluso nifer o ddigwyddiadau mawr i ddathlu amrywiaeth yr arlwy y gall ymwelwyr ei fwynhau. Un enghraifft yw sbloet gerddorol Hugh Jackman, *The Greatest Showman*; dangoswyd y ffilm ar y Sgrîn Fawr yn Sgwâr y Castell ar ddwy noson ym mis Hydref 2018.

- Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol a phyrth galluogi ar-lein i hyrwyddo arlwy Abertawe, sy'n cael ei marchnata fel arlwy mwy amrywiol sy'n cynnig mwy o gyfleoedd. Mae enghreifftiau yn cynnwys lansio fideo 'Darganfod Gorwelion Newydd' ar Ddydd Calan, sy'n rhan o ddathliadau hanner canmlwyddiant Abertawe. Bydd Ymgyrch Blwyddyn Darganfod yn cynnwys gweithgareddau hyfryd megis padlfyrddio gyda'r hwyr ym Mae Abertawe, teithiau cerdded yng nghoed Penllergare a phrofi diwylliant yn y ddinas.

Pentref Chwaraeon Rhyngwladol/canolfan ragoriaeth chwaraeon

- Byddwn yn parhau i gydweithio â'r partneriaid, sef Pwll Cenedlaethol Cymru a'r Brifysgol, i archwilio'r cyfle i sefydlu Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Mae trafodaethau a gwaith gwerthuso opsiynau yn digwydd ar y cyd â phartneriaid o Fwrdd Pwll Cenedlaethol Cymru a'r Brifysgol fel rhan o gynllun ehangach ynghylch gweithrediad y safleoedd presennol yng nghyffiniau'r Pentref Chwaraeon yn y dyfodol. Mae buddsoddi rheolaidd yn digwydd i adnewyddu a gwella cyfleusterau presennol ac mae gwaith yn cael ei gynnal i sicrhau y gwneir gwelliannau cynaliadwy er mwyn lleihau costau ynni ar draws y safle.

- Mae cyllid ar gyfer cyfleusterau newydd yn cael ei archwilio, ac er bod y gwaith yn ei gamau cynnar, mae'n ymddangos bod rhanddeiliaid allanol yn cefnogi hynny.

Strategaeth Ynni

- 2018-19 oedd blwyddyn olaf adroddiadau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon, ac mae allyriadau Abertawe wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn. Bydd gwaith mesur yn parhau trwy gyflwyno

Ardoll y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r awdurdod hefyd yn gwella defnydd effeithlon o ynni trwy lansio rhaglen gweithgarwch Re:Fit Cymru ar draws nifer o adeiladau'r Cyngor. Dylai'r prosiect hwn sicrhau lleihad o 376 teCO2 y flwyddyn a sicrhau arbedion costau ynni o £186,236. Mae'r gwaith o weithredu elfennau allweddol y strategaeth ynni yn mynd rhagddo ac mae gwaith i ganoli'r holl gyllidebau cyfleustodau cysylltiedig ag adeiladau wedi digwydd; fe wnaeth hyn sicrhau dull cydlynol o gyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni sy'n gysylltiedig â rhaglen Re:fit. Mae datblygiad fferm haul dan arweiniad y Cyngor yn gwneud cynnydd da, â chefnogaeth Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru. Mae safle wedi cael ei ddatblygu, mae cynnig i gysylltu â'r grid wedi cael ei wneud, ac mae achos busnes amlinellol yn cael ei ddatblygu fel y gellir llunio adroddiad i wneud penderfyniad ynghylch y datblygiad erbyn diwedd 2019.

- Am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth, fe wnaeth yr Awdurdod adeiladu cartrefi newydd yn 2018/19. Maent wedi'u hadeiladu yn unol â safon Passivhaus, a chyflawnir yr effeithlonrwydd thermol trwy gyfrwng dylunio blaengar. Trwy gyfrwng y gwersi a ddysgwyd wrth gyflawni'r prosiectau hyn, rydym ni bellach wedi dylunio ein safon ein hunain, sef Safon Abertawe, a fydd yn cysylltu cyflenwyr lleol a chynnyrch o Gymru â phrosiectau'r dyfodol. Rydym ni'n mynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy gyfrwng technoleg newydd megis unedau Adfer Gwres Gwyntyllu Mecanyddol sy'n cael eu gosod. Ym mhrosiectau'r dyfodol, bydd Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer/Daear yn lliniaru'r ddibyniaeth ar adnoddau naturiol sy'n crebachu a'r costau uwch sy'n gysylltiedig â hyn. Trwy annog y defnydd o ynni a gaiff ei harneisio, gallwn ni fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac lleihau'r effaith ar yr amgylchedd i'r eithaf.

- Mae cyflwyno PVt (thermol ffotofoltaidd) a monitro blaengar yn amlygu harneisio ynni a'r defnydd ohono, gan ddiddymu'r ddibyniaeth ar adnoddau naturiol megis olew a nwy. Mae storio ynni mewn batris yn cyfrannu ymhellach at y cysyniad o Gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer, ac mae batris Tesla wedi cael eu gosod i leihau tlodi tanwydd ymhellach a chyfrannu at ddigarboneiddio a pheidio defnyddio adnoddau naturiol sy'n crebachu'n ddiddiwedd. Bydd cynlluniau'r dyfodol yn harneisio gwres sy'n digwydd yn naturiol yn y ddaear/aer a bydd yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r adeilad, gan leihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil.

Cludiant cynaliadwy a charbon isel

- Yn Ionawr 2019, daeth Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yn un o'r cronfeydd pensiwn cyntaf yn y DU i fabwysiadu polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sy'n ymrwymo i sicrhau lleihad o 50% dros y 4 blynedd nesaf yn amlygiad buddsoddiadau'r gronfa bensiwn (oedd eisoes yn isel) i danwyddau ffosil. Wrth wneud hynny, mae'n derbyn bod buddsoddi mewn ynni gwyrdd newydd, isadeiledd a buddsoddiadau sy'n gyfrifol o safbwynt cymdeithasol yn cynnig yr enillion ariannol cynaliadwy gorau ar gyfer aelodau'r gronfa bensiwn yn y tymor hir.

- Ynghyd â'i rhaglen lleihau carbon yn ei phortffolio ecwitïau rhestredig, mae'r gronfa hefyd yn ceisio buddsoddi mewn prosiectau isadeiledd sy'n defnyddio ynni yn effeithlon (ynni adnewyddadwy, ynni'r haul, tanwyddau amgen) a thechnoleg lân mewn rhannau eraill o'i bortffolio, a bydd bob amser yn ceisio sicrhau'r enillion gorau gan effeithio'n llesol ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

- Mae llawer o'r cynnydd a wnaed gan Abertawe yn 2018/19 yn cael ei gydnabod yn y Rhybudd o Gynnig ym Mehefin 2019 yn datgan argyfwng amgylcheddol. Mae hyn yn dathlu llawer o lwyddiannau'r Cyngor eleni.

- Cafodd y Cyngor 40 o faniau trydan Peugeot ym Mai 2018 ac maent yn cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu darparu yn y ddinas. Mae'r fflyd newydd yn

ychwanegol at y deg car trydan a brynodd y Cyngor ar gyfer ei gronfa ceir yn ddiweddar. Mae dulliau rheoli 'Fflyd Werdd' yn canolbwyntio ar fanylebau, dewis a defnyddio cerbydau ecogyfeillgar, a dewisiadau tanwydd ecogyfeillgar. Mae 'Polisi Fflyd Werdd' wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor, ac mae hynny'n ffurfioli'r dull hwn ac yn gosod targedau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

- Rydym ni wedi parhau i gyflawni mewn ymateb i'n polisi lleihau carbon, ac rydym ni wedi sicrhau lleihad o 42% mewn allyriadau ers ein blwyddyn man cychwyn. Cyflwynwyd ceisiadau i'r Gronfa Cludiant Lleol i ddatblygu deg llwybr cerdded a beicio newydd. Fe wnaeth nifer o'r ceisiadau lwyddo i sicrhau cyllid i gyflawni'r gwaith. Mae Cyngor Abertawe wedi gwario £22,000 ar gynnal a chadw llwybrau ar draws y rhwydwaith presennol. Fe wnaeth y llwybrau newydd a gwell a ddisgrifir uchod sicrhau 16.73km o ddefnydd a rennir newydd ac 1.1km o ddefnydd a rennir gwell yn ystod 2018/19.

Arfordir Abertawe/y Faner Las

- Mae'r Cyngor wedi cadw lefel bresennol achrediad y Faner Las a gwobrau glan y môr ar gyfer 2018/19, ac fe wnaeth gyd-drafod lleoliad gwell gyda'r RNLI i gynnal gwasanaethau achub bywyd ar y traethau mwyaf poblogaidd sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi llwyddo â'i gais am gyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfleuster *Changing Places* ar gyfer defnyddwyr anabl ym Mae Cas-wellt. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu partneriaethau ar y cyd â grwpiau lleol, partneriaid preifat a Chynghorau Cymuned i gynnal cyfleusterau ar draws y bae a'r blaendraeth a denu buddsoddiad ychwanegol a sicrhau deilliannau gwell.

Safleoedd Datblygiadau Tai Strategol a Thai Cymysg

- Yn ogystal â Rhaglen *Rhagor o Gartrefi* a sefydlwyd gan y Cyngor i adeiladu tai Cyngor fforddiadwy sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, mae'r Cyngor hefyd wedi cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw i archwilio diddordeb gan ddarpar bartneriaid yn y gwaith o gyflawni rhaglen datblygu ar draws 30 o safleoedd HRA posibl fesul cam. Y nod fydd darparu tai daliadaeth gymysg ar y safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor, gan uchafu darpariaeth tai fforddiadwy i ateb y galw yn lleol. Mae ymarfer caffael hefyd yn cael ei gynnal i ddatblygu cynllun meistr ynghylch adfywio ystâd dai fawr ym Mhenderi.

- Mae'r CDLl yn clustnodi Ardaloedd Datblygu Strategol mewn 12 leoliad ym mhob cwr o'r Ddinas a'r Sir i ddarparu dros 7,100 o dai newydd erbyn 2025, yn ogystal â chyfleoedd i greu swyddi a buddsoddi masnachol ar raddfa strategol. Mae Ardaloedd Datblygu Strategol preswyl yn gallu derbyn isafswm o 400 o gartrefi a mathau eraill o ddefnydd cyflenwol ac ategol, yn dibynnu ar natur a maint y safle. Byddai Ardaloedd Datblygu Strategol tai cymysg yn darparu cartrefi newydd fel rhan o gynigion ehangach ynghylch defnydd cymysg i sicrhau buddsoddiad a budd economaidd sylweddol hefyd, yn deillio o brosiectau adfywio masnachol, cymunedol a diwylliannol.

Yr Economi Gyda'r Hwyr ac yn Ystod y Nos

- Mae nifer o brosiectau presennol a newydd yn eu lle, sy'n cynorthwyo i gyflawni amcanion statws Baner Biws o ran rheoli'r economi gyda'r hwyr ac yn ystod y nos. Er enghraifft, mae'r cynllun Lle Diogel wedi cael ei gyflwyno ar ddyddiadau allweddol gan ddefnyddiol cyllid allanol, ac mae'r Portman Group wedi cydnabod ei fod yn enghraifft o arferion gorau. Mae mesurau wedi cael eu sefydlu hefyd i gomisiynu bolardiau awtomatig yn nau ben Stryd y Gwynt. Gellir gweld tystiolaeth o lwyddiant y bartneriaeth ynghylch yr economi gyda'r hwyr ac yn ystod y nos

yn sgil y gostyngiad o 30% yn nifer y derbyniadau yn ymwneud ag alcohol mewn adrannau A&E a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd. Gwelir tuedd gadarnhaol debyg mewn ystadegau troseddu dros yr un cyfnod.

- Cynhaliwyd Astudiaeth Dichonoldeb ynghylch adfywiad ffisegol Stryd y Gwynt fel rhan o ddatblygiad y strategaeth tymor hir ynghylch yr economi gyda'r hwyr ac yn ystod y nos. Mae'r Astudiaeth Dichonoldeb, a gomisiynwyd ar y cyd â'r AGB, yn amlinellu cyfres o opsiynau â chostau i elwa ar statws cadwraeth yr ardal, rheoli mynediad a diogelwch yn well, a chyflawni'r cyfleoedd masnachol ar draws yr economïau yn ystod y dydd a gyda'r hwyr.

Adfywio

- Mae partneriaeth newydd ar lefel uchel yn ei lle i helpu i adfywio Abertawe; y bartneriaeth hon yw olynydd Partneriaeth Adfywio Economi Abertawe. Mae'r aelodau yn cynnwys Prifysgol Abertawe, Coastal Housing, Pobl, Tai Teulu, AGB Abertawe, Coleg Gŵyr Abertawe, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, Urban Foundry, Indycube, sefydliadau busnes lleol a Busnes Cymru. Mae is-grŵp wedi cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r heriau economaidd sy'n wynebu ardaloedd lleol, gan gychwyn â Threforys.

- Mae Swyddog Datblygu bellach wedi cael ei benodi mewn perthynas â'r Tabernacl yn Nhreforys i ddiogelu dyfodol yr adeilad rhestredig Gradd 1 pwysig ac amlwg hwn. Mae gweithgorau Adfywio Treforys yn cydweithio â masnachwyr, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i archwilio adfywiad y dref o safbwynt treftadaeth.

**Astudiaeth Achos 5: Dinasyddion ieuengaf yn cael eu croesawu i dirnod hanesyddol**

**Gwahoddir preswylwyr ieuengaf Abertawe i dreulio amser chwarae o safon yn un o adeiladau mwyaf eiconig y gymuned.** Drwy ymuno â grŵp chwarae'r Tabernacl yn Nhreforys, byddant yn helpu i ddechrau adfywio'r lleoliad hanesyddol. Mae lleoedd ar gael bellach yn y Cylch Ti a Fi (grŵp i fabanod a phlant bach) a gynhelir yn yr adeilad 147 oed bob dydd Mercher o 9.30yb i 11yb. Mae swyddog Cyngor Abertawe sy'n arwain cynllun adfywio ar gyfer y Tabernacl yn annog mamau a thadau ifanc - a neiniau a theidiau - i achub ar y cyfle. Dywedodd Jacqualyn Box, sy'n gweithio yn y Tabernacl: *"Mae'n wych bod y grŵp hwn ac eraill yn sicrhau bod yr adeilad anhygoel hwn yn cael ei ddefnyddio". Mae'n hyfryd gweld y genhedlaeth ddiweddaraf o bobl Abertawe yn cael cyfle i elwa o'r lleoedd gwych sydd gan y Tabernacl i'w cynnig."* Y Mudiad Meithrin, sef y prif ddarparwr gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector gwirfoddol, sy'n cynnal y grŵp wythnosol. Yn ôl Carole Williams, sy'n gweithio i'r Mudiad: *" Nod y Mudiad Meithrin yw rhoi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa o brofiadau o ofal ac addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg."* Mae'r cynllun i adfywio'r Tabernacl yn cael ei arwain gan y cyngor. Mae'r prosiect yn ddatblygiad pwysig yn hanes adeilad o bwys cenedlaethol, sy'n un o ddau adeiledd rhestredig Gradd I yn unig yn Abertawe.

- Sicrhawyd cyllid gan Raglen Buddsoddiadau Adfywio wedi'u Targedu Llywodraeth Cymru a Chronfa Benthyciadau Canol y Dref i ddod ag eiddo masnachol gwag yn ôl i ddefnydd fel arwynebedd llawr masnachol wedi'i adnewyddu neu unedau tai newydd. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol hefyd yn cynnwys prosiect peilot i adnewyddu blaenau siopau masnachol ac i brofi gweithgareddau mewn perthynas â'r effaith ar nifer yr ymwelwyr yn Stryd Woodfield. Bydd y gweithgareddau a'u heffaith yn cael eu gwerthuso i lywio'r genhedlaeth nesaf o raglenni cyllido a throsoledd cyllid cymunedol i gefnogi blaenoriaethau allweddol.

- Mae ystod o brosiectau yn cael eu hariannu trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig i gefnogi datblygiad yr economi yng nghefn gwlad Abertawe.

Amddiffyn a hybu iechyd, lles, diogelwch a buddiannau defnyddwyr

- Mae'r gwaith wedi parhau i drwyddedu HMOs perthnasol (1,768 HMO trwyddedig ar 9/4/19) a gwella amgylchiadau ar gyfer tenantiaid. Mae Arolwg o HMOs a nodwyd yn Sant Thomas wedi cael ei gynnal, ynghyd â gwaith partneriaeth sy'n mynd rhagddo ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant  Heddlu De Cymru, gan gynnwys cyswllt â'r Swyddog Cyswllt Cymunedol.

- Bydd y gwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) sy'n mynd rhagddo yn yr Awdurdod Lleol yn parhau i asesu'r amlygiad a gaiff aelodau o'r cyhoedd sy'n byw yn Abertawe neu'n ymweld ag Abertawe.  Bydd Tîm Rheoli Llygredd a Thai Sector Preifat Cyngor Abertawe yn parhau i gyflwyno eu Hadroddiadau Cynnydd Blynyddol i Lywodraeth Cymru i'w gwerthuso.  Fel rhan o waith LAQM, bydd Cyngor Abertawe yn parhau i fod yn rhan o brosiectau ymchwil cydweithredol sy'n gweithio tuag at well dealltwriaeth o ddod i gysylltiad ag ansawdd aer lleol ac effeithiau hynny ar aelodau'r boblogaeth.

- Lansiwyd Operation Sceptre gan Heddlu'r Met yn 2015 i helpu i fynd i'r afael ag achosion cynyddol o droseddau cyllyll yn y brifddinas. Ers hynny, mae heddluoedd ledled y DU wedi cael eu hannog i ymuno â'r ymgyrch. Ymgymerodd Safonau Masnach Cyngor Abertawe gan weithio ar y cyd â'r Swyddfa Gartref a Heddlu De Cymru ag ychydig yn llai na 100 ymgais gan blant i brynu cyllyll yn Abertawe. Arweiniodd hyn at erlyn adwerthwr cenedlaethol yn llwyddiannus am werthu cyllyll i blant dan oed. Mae'r gwaith hwn yn parhau gyda Heddlu De Cymru ac yn ddiweddar mae wedi arwain at atafaelu cyfanswm enfawr o gyllyll anghyfreithlon, a oedd yn cael eu gwerthu o warws yn Abertawe.

- Mae gan dîm Safonau Masnach Cyngor Abertawe nifer o fentrau ar waith sy'n cynnwys, ymhlith eraill, rhedeg system rhybuddio am sgiamiau. Ar ôl cael gwybod am unrhyw sgiamiau newydd sy'n effeithio ar drigolion Abertawe, bydd rhybudd yn cael ei raeadru at dros 100 o arweinwyr cymunedol a fydd wedyn yn rhannu'r neges. Enghraifft fyddai'r rhybudd a gyhoeddwyd ar ôl derbyn galwad gan ddioddefwr oedrannus a gafodd ei dwyllo i ildio talebau iTunes gwerth £2,000 ar ôl derbyn 'galwad ddiwahoddiad' gan sgamiwr oedd yn honni ei fod yn galw ar ran CThEM.

**Astudiaeth Achos 6: Safonau Masnach yn rhoi terfyn ar ganolfan alwadau 'dwyllodrus' yn Abertawe**

**Croesawodd Safonau Masnach Abertawe ganlyniad ymchwiliad hir ynghylch canolfan alwadau yn Abertawe. Mae'n bosibl bod yr ymchwiliad wedi atal y cyhoedd rhag colli miliynau o bunnoedd drwy weithredoedd twyllodrus.**
Mae'r ymchwiliad, a ddechreuodd yn 2015, wedi arwain at bedwar dyn yn cael eu dedfrydu i gyfanswm o 153 mis o garchar yn Llys y Goron, Abertawe.  Cafwyd y dynion, a oedd i gyd yn gweithio yn Renewable Energies Centres (REC) Ltd yn Abertawe, yn euog o gynllwyno i dwyllo'r cyhoedd ar ôl iddynt dwyllo mwy na 1,200 o gwsmeriaid, gan ennill cyfanswm o £425,000 yn ystod cyfnod o bum mis. Ymwelodd swyddogion Safonau Masnach Cyngor Abertawe â mangre busnes REC Ltd ym mis Gorffennaf 2015 ar ôl iddynt dderbyn cannoedd o gwynion gan aelodau'r cyhoedd. Addawyd boeler am ddim i'r cwsmeriaid pe byddant yn talu ffi untro am Dystysgrif Perfformiad Ynni a oedd yn costio £250 - £450. Darganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad nad oedd unrhyw un o'r cwsmeriaid wedi derbyn y boeler am ddim a addawyd ac ysgogodd hyn gannoedd o alwadau i Safonau Masnach y cyngor. Ad-

dalwyd llawer o'r cwsmeriaid a gafodd eu twyllo gan y cwmni ers hynny ond cofrestrwyd rhai i gytundebau ar gyfer benthyciadau a fydd yn cymryd deuddeng mlynedd i'w had-dalu. Dywedodd Mark Thomas, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, *"Mae'r ymchwiliad hwn wedi bod yn gymhleth a bu angen cryn dipyn o ymdrech ar ran ein Tîm Safonau Masnach i gwblhau'r ymchwiliad hwn. Rwy'n falch ein bod wedi gallu diogelu'r cyhoedd cyffredinol, gan gynnwys yr henoed a phobl ddiamddiffyn, rhag talu mwy o arian o ganlyniad i'r gweithredoedd twyllodrus hyn."*

**5. Sut mae'r Amcan Lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau lles cenedlaethol.**

- *Cymru ffyniannus* - cydweithio â phartneriaid i weithredu Bargen y Ddinas i fuddsoddi mewn isadeiledd digidol a chefnogi buddsoddiad, arloesedd, twf, swyddi, sgiliau a chynhyrchedd. Cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ailddatblygiad canol y ddinas trwy ymgorffori gofynion ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau (gwastraff ac ynni), ynni adnewyddadwy, gwella bioamrywiaeth/isadeiledd gwyrdd, a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol sy'n cefnogi economi gynhyrchiol a charbon isel ac yn addasu/lliniaru ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Uchafu buddion ceisiadau am gyllid grantiau.
- *Cymru Wydn* – Hyrwyddo'r 'Economi Werdd' gan gynnwys ynni adnewyddadwy i ddarparu diogelwch ynni, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd a buddion economaidd. Hybu dulliau isadeiledd gwyrdd mewn datblygiadau.
- *Cymru Iachach* - Hyrwyddo bioamrywiaeth ac amddiffyn mannau gwyrdd Abertawe, yn cynnwys parciau ar gyfer hamddena a chwarae ac i hybu iechyd a lles. Rheoli arfordir Abertawe a hybu ansawdd dŵr ymdrochi gwell a chynnal statws Baner Las er mwyn hybu twristiaeth, amddiffyn yr amgylchedd a chynorthwyo â lles.
- *Cymru Fwy Cyfartal* - Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir ac sy'n anweithgar yn economaidd trwy gymalau budd cymunedol yng nghontractau'r Cyngor.
- *Cymru â Chymunedau Mwy Cydlynol* – Rhoi blaenoriaeth i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.
- *Cymru â diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu* - Gwella, ehangu ac arallgyfeirio cyfleusterau ac isadeiledd hamdden, diwylliannol a threftadaeth i helpu i hybu'r economi, hyrwyddo twristiaeth a gwella lles.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* – Mae cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ailddatblygiad canol y ddinas yn enwedig o ran effeithlonrwydd adnoddau a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol yn cyfrannu at economi carbon isel ac yn addasu/lliniaru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Annog ymgeiswyr am grantiau i fabwysiadu mesurau isadeiledd gwyrdd wrth adnewyddu adeiladau.

**6. Y gwersi a ddysgwyd a meysydd y dylid eu datblygu.**

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol i gyflawni ei amcan lles ond mae gwersi wedi'u dysgu ac mae meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.

Bargen y Ddinas

- Cyflawni prosiectau Cam 2 i gyflawni'r buddion economaidd ehangach a sicrhau bod datblygiad wedi'i gysylltu'n briodol â chanol y ddinas. Sefydlu cost derfynol y Sgwâr Digidol a'r Arena ac adrodd wrth y cabinet. Cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y Pentref Digidol.

CDLl

- Sicrhau y caiff polisïau'r CDLl eu gweithredu'n effeithiol i gynorthwyo i adfywio Abertawe a hybu cymunedau cynaliadwy.

Y Tu Hwnt i Frics a Mortar

- Parhau i gyflawni contractau budd cymunedol a sicrhau bod adrannau'n cydymffurfio â pholisi cymalau budd cymunedol mewn contractau sy'n arwain at greu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith.

Dinas Diwylliant, Digwyddiadau Diwylliannol

- Diweddaru ac ail-lansio'r Strategaeth Dwristiaeth a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan ar gyfer Bae Abertawe. Cynhyrchu'r Strategaeth Ddiwylliannol ehangach sydd wedi'i mapio i flaenoriaethau a strategaethau'r cyngor, y ddinas a'r rhanbarth gan adeiladu ar y 9 ymrwymiad ar gyfer diwylliant mewn dinasoedd cynaliadwy sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Rhoi Cynllun Gweithredu'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar waith.

Hyrwyddo digwyddiadau

- Cynnal o leiaf 2 ddigwyddiad blynyddol ychwanegol yng Nghanol y Ddinas gan gynnwys gweithgareddau'r Farchnad Nadolig, Calan Gaeaf a'r Faner Borffor i annog cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal a chreu awyrgylch bywiog. Hwyluso partneriaid i gynnal digwyddiadau yng Nghanol y Ddinas gan gynnwys Digwyddiadau Arbennig ac AGB. Goruchwylio gwasanaethau gosod masnachol yng nghanol y ddinas i roi cyfle i fasnachu ar y stryd, hyrwyddiadau a digwyddiadau ar y stryd. Goruchwylio menter "Clera Tan y Wawr" Canol y Ddinas i annog adloniant ar y stryd. Hyrwyddo arlwy Canol y Ddinas yn ddigidol trwy wefan Canol y Ddinas a phostio cynnwys perthnasol trwy gyfryngau cymdeithasol Canol y Ddinas a gwefannau cysylltiedig.

Gwaith Copr Hafod / Skyline / Coridor Tawe

- Sicrhau bod materion perchnogaeth tir, gwasanaethau ac effeithiau'r safle awyr yn cael eu datrys er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r atyniad ceir llusg gan gwmni Skyline. Parhau â'r gwaith o adfywio Treforys gan bwysleisio'i nodweddion Treftadaeth gan sicrhau bod cyllid cyfalaf ar gael trwy'r Rhaglen Buddsoddiadau Adfywio wedi'u Targedu. Ailddatblygu Distyllfa Wisgi Penderyn a'r Ganolfan Ymwelwyr yng Ngwaith Copr Hafod.

Cludiant carbon isel

- Nodi a chaffael cerbydau carbon isel/trydan trwy gyfrwng rhaglen adnewyddu'r fflyd. Mabwysiadwyd y Polisi Fflyd Werdd ac mae'n sefydlu fframwaith i'n galluogi i ystyried y dewisiadau gwyrdd mwyaf ymarferol wrth adnewyddu'r fflyd. Dadansoddi Telmateg a metrigau gyrru i leihau'r defnydd o danwydd. Mae gostyngiad mewn adnoddau yn golygu nad ydym ni wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â hyn ond rydym ni'n bwriadu gwneud hynny cyn gynted ag y prynir cerbydau newydd.

Bioamrywiaeth / mannau gwyrdd

- Datblygu mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mannau gwyrdd a chyngor ecolegol yn gyffredinol i sicrhau fod hynny'n cael ei ystyried yn llawn ar draws yr Awdurdod ym mhob

cynllun, strategaeth a phrosiect (hyfforddiant ynghylch Deddf Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd). Sicrhau bod rhagor o wasanaethau a gwybodaeth ar gael ar-lein, e.e. rhywogaethau ymledol estron, Clefyd (Chalara) Coed Ynn, Rhwydwaith Hawliau Tramwy. Cynllun Mabwysiadu Coed y Cyngor a’r Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol.

Safleoedd Datblygiadau Tai Strategol a Thai Cymysg

- Ymateb i ofynion rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) a'i chyflawni erbyn 2020 gan adeiladu ar ganlyniadau adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Monitro'r modd y cyflawnir Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol 2019/20, Grant Cyllid Tai a grantiau eraill i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu dwyn ymlaen i annog twf cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy yn y gymuned. Asesu tir y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer datblygiadau’r Cyngor a datblygiadau cymysg.

Tai gwledig fforddiadwy

- Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mae gan y Cyngor bolisi diweddaredig erbyn hyn, wedi'i seilio ar dystiolaeth, i'w gwneud yn ofynnol i bob cynnig datblygu preswyl ar gyfer dau annedd neu ragor yn Ardaloedd Gŵyr ac Ymylon Gŵyr ddarparu tai fforddiadwy ar y safle. Yn ychwanegol, mae'r CDLl yn cynnwys polisi sy'n clustnodi safleoedd addas ar gyrion lleoliadau gwledig a lled wledig i ddarparu o leiaf 51% o gartrefi fforddiadwy i bobl leol â'r cydbwysedd wedi'i deilwra tuag at dystiolaeth o angen lleol e.e. diffyg cartrefi llai a/neu gartrefi unllawr ar gyfer prynwyr sy’n prynu tai llai eu maint neu’n prynu am y tro cyntaf. Mae hwn yn bolisi arloesol ac yn ymateb ymarferol i broblem hanesyddol o ddiffyg darpariaeth a methu â darparu cartrefi newydd i'r gymuned leol mewn modd cynaliadwy.

- Monitro'r modd y cyflawnir Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol 2019/20, Grant Cyllid Tai a grantiau eraill i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu dwyn ymlaen i annog twf cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy yn y gymuned. Asesu tir y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer datblygiadau’r Cyngor a datblygiadau cymysg.

Adfywio

- Darparu grantiau datblygu gwella eiddo (PEDG) a grantiau byw'n gynaliadwy (SLG) a ariennir gan raglen Buddsoddiadau Adfywio wedi’u Targedu Llywodraeth Cymru, ynghyd â Chronfa Fenthyciadau Canol y Dref - mae hyn wedi gweithio'n dda yn ystod 2018/19 ac mae sawl eiddo gwag yn cael eu defnyddio eto yng nghanol y ddinas. Bydd y tîm adfywio yn parhau i gydweithio â pherchnogion eiddo yn ystod 2019/20 i sicrhau bod rhagor o fangreoedd yn cael eu defnyddio o’r newydd er mwyn ategu arlwy canol y ddinas. Bydd gwaith hefyd yn canolbwyntio ar Dreforys i arallgyfeirio arlwy Stryd Woodfield.

Ynni

- Yn 2019 ac wedi hynny, cyflwyno rhaglen Re:fit i gynhyrchu trydan a fydd naill ai'n cael ei werthu yn ôl i'r grid, neu os bydd teclyn derbyn addas ar gael, trefniant gwifren breifat posibl. Bydd gosod tyrbin newydd yn y marina yn cael ei ystyried fel rhan o Re:Fit.

## Trechu Tlodi

### 1. Pam mae hwn yn Amcan Lles?

- Rydym ni'n dymuno cael Abertawe ble nad yw tlodi incwm yn rhwystr i wneud yn dda yn yr ysgol, mwynhau bywyd iach a bywiog, datblygu sgiliau a chymwysterau a chael galwedigaeth foddhaus.
- Rydym yn dymuno herio mynediad annigonol at wasanaethau angenrheidiol o ansawdd da trwy dargedu adnoddau lle maent yn cael yr effaith fwyaf, a bydd penderfyniadau am hynny yn cael eu gwneud ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau.
- Rydym am i'n holl breswylwyr gael y cyfle a'r adnoddau i ymuno â gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden a gwneud penderfyniadau.
- Rydym ni am i bobl gynyddu eu hincwm i'r eithaf a gwneud y gorau o'r arian sydd ganddynt.
- Rydym ni am i bobl osgoi talu'r 'premiwm tlodi', y costau ychwanegol y mae'n rhaid i bobl ar incwm isel eu talu am hanfodion fel tanwydd a chludiant.
- Rydym ni am ddiddymu rhwystrau rhag cyflogaeth megis diffyg cludiant a gofal plant.
- Rydym am sicrhau bod pobl o gymunedau mwyaf difreintiedig Abertawe yn cael eu cynnwys fel ein bod yn lleihau anghydraddoldebau rhwng ac o fewn cymunedau.

### 2. Y camau y dywedom ni y byddem yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r Amcan Lles hwn.

- Gweithredu'r Strategaeth Tlodi ddiwygiedig i rymuso pobl leol, newid diwylliannau i bwysleisio bod mynd i'r afael â thlodi yn gyfrifoldeb i bawb a thargedu adnoddau i sicrhau'r mynediad gorau posibl at gyfleoedd a ffyniant.
- Gweithio gyda'n partneriaid Iechyd i sicrhau, trwy ein Strategaeth Blynyddoedd Cynnar, bod plant yn eu blynyddoedd cynnar ac yn y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni eu datblygiad iaith, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol disgwyliedig a'u bod yn barod i ddysgu a mynd i'r ysgol.
- Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ôl troi'n 16 oed.
- Helpu i fynd i'r afael ag effeithiau diwygiadau Lles, megis cynorthwyo pobl i hawlio'r buddion llawn y mae ganddynt hawl iddynt fel eu bod yn gallu cynyddu eu hincwm i'r eithaf.
- Buddsoddi i wella tai ac adeiladu tai Cyngor sy'n defnyddio ynni yn fwy effeithlon a chefnogi adeiladu tai fforddiadwy i helpu i ddiwallu angen am dai, lleihau biliau tanwydd, adfywio ystadau a denu buddion economaidd a chyflogaeth ehangach.
- Atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i gynnal eu tenantiaethau i helpu i ddarparu sefydlogrwydd a diogelwch i deuluoedd a chymunedau er mwyn diogelu iechyd a lles ac atal allgáu cymdeithasol.
- Ymchwilio ynghylch creu ein menter ynni ein hunain i ddarparu ynni cost isel i gartrefi gan helpu i fynd i'r afael â biliau tanwydd domestig uchel a thlodi tanwydd.
- Cynorthwyo â'r gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a helpu i ddileu tlodi tanwydd a hybu datblygiad yr economi trwy'r cynllun ARBED a mesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai cymdeithasol.
- Cynorthwyo unigolion i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael cyflogaeth trwy gymorth cyflogadwyedd cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Darparu cyfleoedd celf, diwylliant a threftadaeth er mwyn hybu sgiliau, hyder, hunan-barch a dyhead.
- Gweithredu'r Cynllun Cyflenwi Cydlyniant Cymunedau i hyrwyddo cymunedau cydlynol a chynhwysol yn Abertawe.

**3. Beth yn union fydd llwyddiant.**

- Mae gan Abertawe strategaeth gorfforaethol a chynhwysfawr i drechu tlodi. Bydd llwyddiant yn cael ei farnu yn ôl llwyddiant gwaith i helpu i drechu tlodi, lliniaru hynny a helpu i oresgyn ei achosion a'i effeithiau. Bydd llwyddiant yn golygu: cychwyn ar oedran cynnar i helpu plant i gyflawni cerrig milltir datblygiadol a rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gael gwaith neu hyfforddiant; lliniaru effeithiau tlodi incwm; atal achosion allgáu cymdeithasol, megis digartrefedd; helpu i liniaru effeithiau'r hyn a elwir yn 'bremiwm tlodi' ar gostau tai, tanwydd a chludiant, a helpu i gael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl rhag derbyn cyflogaeth megis gofal plant anfforddiadwy.

**4. Camau i wneud cynnydd i fodloni'r Amcan Lles hwn – beth lwyddodd.**

Strategaeth Trechu Tlodi

- Adolygwyd a chytunwyd ar *Strategaeth Trechu Tlodi*'r Cyngor ym mis Ionawr 2018 ac roedd yn cynnwys datblygu Cynllun Cyflawni ar draws y Cyngor. Roedd y Strategaeth Trechu Tlodi ddiwygiedig yn cynnwys diffiniad o dlodi, gweledigaeth ar gyfer Abertawe a dull un Cyngor o fynd i'r afael â thlodi. At ei gilydd, gwnaed cynnydd da o ran gweithredu'r amcanion yn y Cynllun Cyflawni. Mae dangosyddion perfformiad corfforaethol sy'n mesur yr amcan Llesiant hwn wedi dangos bod mwyafrif y targedau wedi'u cyflawni eleni, gan gefnogi'r nodau a'r amcanion ehangach sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Trechu Tlodi. Fodd bynnag, mae angen gwelliant o ran cyflawni targedau ynghylch hyfforddiant a chyflogaeth. Bwriedir cynnal adolygiad tymor canol o'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yn Hydref 2019.

- Adolygodd y Cyngor y cylch gorchwyl ar gyfer ei Fforwm Tlodi ym mis Ebrill 2019. Ail-ganolbwyntiwyd y Fforwm i arwain a chydlynu camau i fynd i'r afael â thlodi a lliniaru ei effeithiau ar draws y Cyngor. Mae'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr gweithredol ac uwch reolwyr o Adrannau ac yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Nod y Fforwm yw sicrhau bod rhaglenni a mentrau presennol yn cyd-fynd ar draws y Cyngor ac integreiddio ymrwymiadau mynd i'r afael tlodi fel rhan o ddarpariaeth gwasanaethau prif ffrwd. Mae'r Fforwm hefyd yn gyfrifol am ddatblygu cyfleoedd a phrosesau newydd i fynd i'r afael â thlodi ac i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a'i gymhwyso o fewn ac ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

- Mae Fforwm Tlodi'r Cyngor yn cydweithredu â Fforwm Tlodi Partneriaeth Abertawe, gan sicrhau bod agendâu yn cyd-fynd. Bydd yn rhoi adroddiadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac yn briffio'r Aelod Cabinet dros Gymunedau Gwell (Pobl) trwy law'r Cadeirydd. Daeth adroddiad ar effaith Ymchwiliad Craffu ynghylch Trechu Tlodi (Hydref, 2018) i'r casgliad bod yr ymchwiliad wedi cynorthwyo i wella proffil trechu tlodi ar draws y Cyngor, gan weithredu fel 'ffrind beirniadol' ac ail-gadarnhau'r cyfeiriad i deithio tuag ato a'r adolygiad o'r strategaeth. Mae'r Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi wedi ystyried argymhellion yr Ymchwiliad Craffu ac wedi datblygu argymhellion polisi i gryfhau dull y Cyngor o fynd i'r afael â thlodi.

Strategaeth Blynyddoedd Cynnar

- Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu a chryfhau ei *strategaeth Blynyddoedd Cynnar* trwy law Teuluoedd yn Gyntaf, y Rhaglen Dechrau'n Deg, y Cyfnod Sylfaen, yr Ymgyrch Cychwyn Gorau, Jig-so ac ystod o weithgareddau eraill i gynorthwyo plant, rhieni a'u teuluoedd. Gan gydweithio â Gwasanaethau Iechyd a Phartneriaid eraill, mae dull gweithredu'r Cyngor wedi ymgorffori ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd ble'r ceir amddifadedd cymharol uchel, plant ag anghenion ychwanegol sy'n dod i'r amlwg a darpariaeth gyffredinol i blant a'u rhieni ledled Abertawe.

- Yn ystod 2018/19, cynorthwyodd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf 10,780 o blant, rhieni a theuluoedd yn Abertawe trwy gynnig ystod o ymyriadau wedi'u targedu â'r nod o atal anghenion sy'n dod i'r amlwg rhag gwaethygu a darparu cymorth i ddiwallu anghenion mwy cymhleth. Parhaodd Dechrau’n Deg i ddarparu'r Cychwyn Gorau mewn bywyd i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Yn ystod 2018/19, fe wnaeth cyfanswm o 2,925 o blant elwa o raglen Dechrau’n Deg. Roedd y presenoldeb cyfartalog yn narpariaeth gofal plant rhaglen Dechrau’n Deg yn 79% yn ystod yr un cyfnod.

- Parhaodd y rhaglen Dechrau’n Deg i weithredu gyda Phroffil y Cyfnod Sylfaen (PCS) wedi'i addasu ar gyfer plant cyn-ysgol ac adnodd Lleferydd ac Iaith Wellcomm. Canolbwyntiwyd eleni ar ddata a safoni PCS, gan sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso’n gyson ar draws lleoliadau. Mae cysylltiadau wedi cael eu gwneud ag Addysg i alluogi dadansoddiad o PCS ar gyfer Plant Dechrau’n Deg trwy gydol eu Haddysg. Mae'r canlyniadau'n dangos bod 29% o blant wedi cyflawni neu ragori ar eu cerrig milltir iaith a lleferydd wrth gychwyn mynychu darpariaeth gofal plant (wedi'u sgrinio trwy WellComm), bod 61% o blant wedi cyflawni neu ragori ar eu cerrig milltir lleferydd ac iaith wrth adael darpariaeth gofal plant (wedi'u sgrinio trwy WellComm), bod 45% o blant wedi cyflawni safon 'Aur' mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol wrth gychwyn mynychu Darpariaeth Gofal Plant (wedi'i asesu trwy PCS) a bod 72% o blant wedi cyflawni 'Aur' mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol wrth adael Gofal Plant (wedi'i asesu trwy PCS).

- Mae cyflwyno prosiect integredig Jig-so hefyd wedi parhau i gynorthwyo teuluoedd ifanc bregus o adeg y beichiogi ac yn ystod blynyddoedd cynnar y plentyn. Nod y prosiect yw llenwi'r bylchau rhwng gwasanaethau statudol ar draws sectorau â thîm o fydwragedd, nyrsys meithrin cymunedol, hwyluswyr teulu a gweithwyr datblygu iaith yn cynnig cymorth i bob rhiant ifanc hyd at 18 oed a rhieni bregus 19-24 oed. Ehangodd model clwstwr Meddygfa Penderi i ddau faes arall yn 2018/2019 ac fe’i henwebwyd yn y rownd derfynol yng Ngwobrau Arloesi ACADEMI Cymru 2019 am Arloesi. Daeth gwerthusiad o'r prosiect a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe i'r casgliad bod y prosiect yn effeithiol wrth gydlynu cymorth yn gynnar i blant bregus a'u rhieni.

- Mae'r Ymgyrch Cychwyn Gorau wedi parhau ac mae wedi cael ei ddatblygu ymhellach trwy'rcyfryngau cymdeithasol, posteri a digwyddiadau. Mae cwmpas yr ymgyrch wedi cael ei ymestyn ac amcangyfrifir fod Cyfryngau Cymdeithasol wedi cyrraedd at dros 300,000 o bobl yn ystod 2018/19. Cynhaliwyd sawl digwyddiad ymgysylltu Cychwyn Gorau â phwyslais ar hyrwyddo negeseuon allweddol Cychwyn Gorau gan adeiladu ar y digwyddiad 1,000 diwrnod cyntaf a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017 a'r cynllun gweithredu dilynol. Mae rhaglen digwyddiadau haf yn cael ei chynllunio er mwyn cynorthwyo i hyrwyddo’r negeseuon. Ysgrifennwyd trydydd llyfr straeon i hyrwyddo'r negeseuon, y tro hwn gan blant sy'n byw mewn lleoliadau gofal, i dynnu sylw at y ffaith y gall y Cychwyn Gorau mewn bywyd ddigwydd ar wahanol adegau i rai plant. Mae cyflwyno prosiect llythrennedd corfforol seiliedig ar dystiolaeth SKIP Cymru yn y blynyddoedd cynnar wedi parhau, ac mae 15 lleoliad wedi defnyddio’r ymyriad hyd yn hyn. Mae Abertawe wedi'i nodi fel awdurdod Braenaru i archwilio integreiddiad systemau blynyddoedd cynnar ac mae hyn wedi cynnig cyfle i gydweithio’n agos â Chastell-nedd Port Talbot ar draws agenda'r blynyddoedd cynnar.

- Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi cyflwyno cais i gyfranogi yng Ngham VII y rhaglen Dinasoedd Iach, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau iechyd cynyddol mewn dinasoedd. Bydd cyfranogi yng ngham nesaf y rhaglen yn cynorthwyo â gwaith parhaus y Cyngor a'i bartneriaid ynghylch y Blynyddoedd Cynnar a'r Cychwyn Gorau fel cyfrwng cyflawni ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ôl troi'n 16 oed

- Mae monitro ac olrhain amlasiantaethol trylwyr yn parhau i ddigwydd o dan Gynllun Dilyniant ac Ymgysylltu Ieuenctid y Cyngor, dan oruchwyliaeth y Bwrdd NEET (Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant). Mae Strategaeth *Cadw mewn Cysylltiad* Abertawe a gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cynnydd da'r Cyngor a'i bartneriaid wrth leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn 16-18 oed. Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi tuedd ddisgynnol yng nghyfradd Cymru gyfan ynghylch pobl ifanc NEET a adawodd yr ysgol ym mlwyddyn 11 2008 a 2015. Mae'r gyfradd NEET ar gyfer y sawl sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 wedi gostwng o 5.8% yn 2008 i 2.7% yn 2015, 2.1% yn 2016 a 2.2% yn 2017. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 1.7%. Mae'r bobl ifanc sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddod yn NEET (ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) yn cael eu nodi ac yn cael y cymorth personol sydd ei angen arnynt i barhau i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng ysgolion, gyrfaoedd, Evolve a sefydliadau partner i olrhain y rhai sydd mewn perygl yn rheolaidd yn ystod blwyddyn 11.

- Fodd bynnag, nid yw ffigur Abertawe wedi symud ymlaen ymhellach dros y 2 flynedd ddiwethaf oherwydd anghenion cymhleth grŵp craidd o bobl ifanc NEET. Mae dadansoddiad wedi dangos bod bron i 70% (158 o 225, Gorffennaf 2018) o'r grŵp hwn naill ai 'ddim ar gael' neu 'ddim yn barod' i gychwyn gweithio neu raglen hyfforddiant ac mae angen cymorth arbenigol arnynt i sicrhau eu bod yn barod i gael gwaith neu hyfforddiant. Mae rhwystrau penodol rhag cyflogaeth neu hyfforddiant a nodwyd wedi cynnwys: ffactorau cymdeithasol ac iechyd (e.e. cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl, ymddygiad ac emosiynol, diffyg cefnogaeth gan rieni, hyder a chymhelliant); ffactorau sy'n gysylltiedig â sgiliau (e.e. Anghenion Dysgu Ychwanegol, cyflogadwyedd, profiad gwaith, hyfforddiant, cymwysterau); a ffactorau ehangach (e.e. tai, cludiant, gofal plant, arian i dalu am eitemau cysylltiedig â gwaith).

- Mae cymorth i bobl ifanc sydd eisoes yn NEET, neu sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET, yn cael ei ddarparu *Cynnydd* (prosiect rhanbarthol ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn NEET), Strategaeth Addysg Heblaw yn Ysgol (EOTAS) y Cyngor, Cam Nesa (rhaglen ymgysylltu, dysgu a hyfforddi ranbarthol ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed), *Cymunedau ar gyfer Gwaith* a *Gweithio Abertawe*. Mae dyraniad Abertawe o gyllid Cam Nesa wedi cefnogi ehangu tîm gwaith arweiniol Evolve a sefydlwyd yn ddiweddar yn ein Gwasanaethau Pobl Ifanc. Mae'r tîm hwn wedi gweithio'n ddwys gyda phobl ifanc a'u teuluoedd i ddatblygu cynlluniau llesiant unigol a rhai sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc NEET, gan eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau cymhleth a all atal eu cynnydd.

Hawliau Lles a chamau a gymerwyd i fynd i'r afael â Diwygiadau Lles

- Mae'r Tîm Hawliau Lles wedi parhau i gynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am hawliau lles yn Abertawe trwy ddarparu hyfforddiant i staff, darparu llinell gyngor, cynrychiolaeth mewn apeliadau, gwaith achos cymhleth, cynhyrchu cyhoeddiadau a chanllawiau hunangymorth a gwaith polisi. Yn ystod 2018/19, fe wnaeth y Tîm gynrychioli 68 o bobl mewn apeliadau (roedd 65 yn llwyddiannus), darparu cyngor mewn perthynas â 795 o ymholiadau a chodi £1,078,574.39 trwy sicrhau hawliau budd-daliadau lles. Amcangyfrifwyd bod hyn yn werth £3,500,000 i'r economi leol.

- Mae gwaith y Tîm Hawliau Lles yn parhau i ddylanwadu ar y lefelau cenedlaethol a lleol; er enghraifft, nododd y tîm wallau prosesu yn systemau cyfrifiadurol yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n rheoli budd-daliadau etifeddiaeth i gyplau oedran cymysg. O ganlyniad i'w cyfranogiad, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau bellach yn y broses o unioni'r problemau hyn, a bydd hynny'n

effeithio ar hawlwyr yn genedlaethol. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn cydweithio â’r Adran Refeniw a Budd-daliadau i nodi a sicrhau hawl i fudd-daliadau etifeddiaeth i gyplau oedran cymysg a fyddai fel arall wedi cael eu trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol. Mewn un achos, byddai cwpl oedran cymysg wedi colli £ 234.73 yr wythnos pe byddent wedi cael eu trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol yn lle cyrchu hawl i fudd-dal etifeddiaeth.

- Mae'r Uned Cynnal Tenantiaethau hefyd wedi darparu cymorth i'w cleientiaid gael gafael ar grantiau ychwanegol, lleihau ôl-ddyledion rhent a rheoli budd-dal tai a dyled treth gyngor. Yn ystod 2018/19, sicrhaodd yr Uned oddeutu £ 95,000 o fudd-daliadau ôl-ddyddiedig ar gyfer hawlwyr e.e. Credyd Treth a Lwfans Byw i'r Anabl. Mae'r Uned wedi parhau i ddarparu cymorth a chyngor i denantiaid y Cyngor trwy gymorthfeydd Rhent a chymorth Cyllidebu Personol Credyd Cynhwysol. Mae'r Cyngor yn parhau i gynyddu cyflymder prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth Gyngor a gwneud addasiadau mewn ymateb i newid mewn amgylchiadau. Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu hawliadau Budd-dal Tai newydd yn 2018/19 oedd 13.3 diwrnod ac 19 diwrnod ar gyfer Gostyngiad Treth Gyngor. Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i wneud addasiadau ar gyfer Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth Gyngor oedd 3.5 diwrnod a 2.5 diwrnod yn y drefn honno.

**Astudiaeth Achos 1: Policy in Practice**

**Mewn ymateb i newidiadau yn y Polisi Lles yn ystod 2018, sef cyflwyno Credyd Cynhwysol, comisiynodd y Cyngor Polisy in Practice i ymchwilio i effaith diwygiadau lles niferus ar lefel aelwydydd.** Diben y gwaith oedd nodi’r aelwydydd oedd yn wynebu’r risgiau mwyaf a mynd ati i gynorthwyo’r rhai oedd yn wynebu’r risgiau mwyaf i sicrhau eu bod yn barod am y newidiadau a’u bod yn hawlio’r holl fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl i’w cael. Roedd yr ymchwil yn cynnwys dadansoddiad o Ddetholiad Budd-dal Tai Sengl Abertawe ym mis Medi 2018 a gwybodaeth am 24,500 o aelwydydd incwm isel yn Abertawe. Dangosodd y canlyniadau y nodwyd bod dros 200 o deuluoedd mewn argyfwng ariannol (incwm yn llai na rhent) a bod 3,000 o deuluoedd eraill mewn perygl o golli cefnogaeth ariannol ar gyfer trydydd plentyn. Dangosodd yr adroddiad hefyd fod dros 80% o aelwydydd yn debygol o gael eu heffeithio gan ddiwygiau lles cronnus yn 2020 (o gymharu â 15% yn 2018). Nododd y canfyddiadau y rhagwelir y bydd canran yr aelwydydd ag effaith uchel (colled o £ 30+ bob wythnos) oherwydd diwygiadau lles cronnus yn codi o 2.4% yn 2018 i 38.3% yn 2020 a bydd canran yr aelwydydd ag effaith ganolig (colled o £15-£30 bob wythnos) oherwydd diwygiadau lles cronnus yn codi o 5.9% yn 2018 i 23.2% yn 2020.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, cynhaliwyd gweithdy cychwynnol i dynnu sylw at effaith a nodi ffyrdd y gallai adrannau'r Cyngor weithio gyda'i gilydd i liniaru effaith. Mae dull brysbennu wedi'i ddatblygu ar draws Adeiladau allweddol y Cyngor (y Ganolfan Ddinesig, Swyddfeydd Tai a Llyfrgelloedd) ar gyfer pobl leol y mae arnynt angen cymorth cyllidebu personol, budd-daliadau neu gymorth digidol i’w cynorthwyo i drosglwyddo i Gredyd Cynhwysol. Datblygodd y Gwasanaeth Trechu Tlodi a Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau’r Cyngor bolisi rhannu data mewnol er mwyn cynnig cymorth wedi’i dargedu i aelwydydd bregus. Yn dilyn hynny, cynigodd y Gwasanaeth Trechu Tlodi a Gwasanaeth Tai'r Cyngor i’r sawl yr oedd arnynt angen cyngor ynghylch dyledion rhent, â’r nod o leihau nifer yr achosion o ddadfeddiannu. Nododd y Gwasanaeth Trechu Tlodi a Thîm Blynyddoedd Cynnar y Cyngor 157 o aelwydydd eraill a oedd yn gymwys i gael oriau gofal plant ychwanegol ac fe wnaethant gynnig cymorth i deuluoedd sydd â 3ydd plentyn ac nad ydynt bellach yn gymwys i gael Credydau Treth.

Tai Cyngor sy'n Defnyddio Ynni yn Effeithlon

- Mae'r Cyngor yn parhau â'i waith i wella Tai Cyngor ledled Abertawe fel rhan o Safonau Ansawdd Tai Cymru. Un o flaenoriaethau allweddol y gwaith gwella yw gwella gallu tai i ddefnyddio ynni yn effeithlon, lleihau costau gwresogi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi'r Cyngor a rhai preifat fydd sylw Digarboneiddio a fydd yn dod yn faes polisi pwysig ar ôl 2020 a bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ei ymdrech i wella effeithlonrwydd ei stoc dai. Yn 2019, bydd y Cyngor yn cwblhau ei beilot Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer gyda Phrifysgol Caerdydd ble mae cyfres o dechnolegau adnewyddadwy a mesurau inswleiddio yn cael eu hôl-osod yng nghartrefi presennol pobl hŷn. Bydd y peilot yn dangos sut gellir defnyddio technolegau ac yn hysbysu rhaglenni gwella'r dyfodol. Mae cyflawniadau 2018/19 yn cynnwys adnewyddu toeau 417 o gartrefi ac inswleiddio waliau mewn 509 eiddo, ac erbyn hyn mae gan y Cyngor dros 13,500 o dai sydd â systemau gwresogi sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru.

- Yn dilyn y peilot cyntaf o Passivhaus yn Colliers Way, mae ail gam prosiect Rhagor o Dai yn mynd rhagddo ar 2 safle ychwanegol ym Mharc yr Helyg a Cham 2 Colliers Way. Fel rhan o'r cam hwn, bydd 34 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu fel 'Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer' gan ddefnyddio arian o grant Rhaglen Tai Arloesol gwerth £ 1.5m gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cartrefi yn cynnwys nodweddion arloesol megis paneli solar ac ynni o fatris, yn ogystal â chynnwys briciau gwenoliaid duon i gynorthwyo â bioamrywiaeth.

- Mae'r Cyngor yn parhau i gyflwyno ein Strategaeth Prentisiaethau i helpu i wella dyheadau gyrfa a lefel sgiliau galwedigaethol yn y gweithle. Mae dros 200 o bobl ifanc wedi elwa o raglen brentisiaethau'r Cyngor yn y Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol dros y deng mlynedd diwethaf, gan ddysgu crefftau megis gwaith saer, plastro, gosod brics, plymio a gwaith trydanwr.

**Astudiaeth Achos 2: Ymweliad gan y Gweinidog yn dechrau proses adeiladu tai cyngor newydd**

**Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar dai cyngor newydd, ynni effeithlon, fforddiadwy yn Abertawe.** Mae'r 16 o dai yn cael eu hadeiladu ar safle newydd ym Mharc yr Helyg, Gellifedw. Mae datblygiad Cyngor Abertawe'n dilyn creu 18 o dai ar Colliers Way, Penderi, a gwblhawyd yn 2018. Bydd 18 o dai eraill yn cael eu hadeiladu yng Ngham 2 Colliers Way yn hwyrach yn y flwyddyn. Fe wnaeth Julie James, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Dai a Llywodraeth Leol, fynychu digwyddiad torri tir datblygiad Gellifedw. Bydd y prosiect yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan Dîm Gwasanaethau Adeiladau'r cyngor er mwyn sicrhau bod swyddi lleol a phrentisiaethau'n elwa o'r cynllun.

Dywedodd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe: *" Mae'r cyngor yn ymrwymo'i hun i barhau â chynllun adeiladu tai cyngor mawr eu hangen am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth. Bydd y tai newydd ar gael am rent fforddiadwy a byddant yn hawdd eu haddasu fel y gall tenantiaid hŷn, neu'r rheiny sydd ag anableddau, addasu'r eiddo i ddiwallu eu hanghenion."* Ychwanegodd Andrea Lewis, Aelod Cabinet Cyngor Abertawe dros Gartrefi ac Ynni: *" Bydd oddeutu 150 o dai cyngor newydd yn cael eu hadeiladu am gost o £22.8m rhwng nawr a 2022 dan gynlluniau adeiladu tai uchelgeisiol Cyngor Abertawe. Bydd yr holl eiddo'n cael eu hadeiladu i lefel effeithlonrwydd ynni newydd Safon Abertawe i helpu tenantiaid newydd i gadw biliau tanwydd mor isel â phosib. Mae cyllid yr IHP yn galluogi cyfuno manyleb Safon Abertawe â'r dechnoleg ddiweddaraf i ddatblygu'r cartrefi fel Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer. Bydd toeau solar integredig a batris i storio ynni yn y cartrefi hyn. Bydd hyn yn cael ei gyfuno â phympiau gwres o'r ddaear, mesuryddion SMART sy'n arddangos yr ynni a ddefnyddir mewn cartrefi ac apiau y gall tenantiaid eu defnyddio i fonitro'r defnydd o ynni a pherfformiad batri.*

*Bydd y cartrefi hyn yn darparu gwely prawf ar gyfer cyflwyno'r cysyniad Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (HAPS) a gweithio tuag at ddarparu cartrefi ynni-bositif ar raddfa fawr."*

Nod y rhaglen HAPS yw darparu'r cartrefi clyfar, carbon isel ac ynni-effeithlon hyn trwy ddull cydgysylltiedig ar draws y rhanbarth, gan arwain yn y pen draw at ostyngiad mewn tlodi tanwydd a'i effaith ar iechyd a lles a chyfrannu at dargedau lleihau allyriadau carbon a lliniaru'r prinder tai. Y nod hefyd yw ehangu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer elfennau arbenigol, a hyrwyddo cadwyni cyflenwi lleol a thwf yn yr economi leol trwy gyfrwng cyflogaeth. Yn ogystal â'r prosiectau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Parc yr Helyg a Colliers Way, mae'r cyngor yn cynllunio gwaith paratoi pellach ar gyfer adeiladu tai sydd wedi'i glustnodi ar gyfer Hill View Crescent a Beacons View Road yn y Clas, ochr yn ochr ag ysgol gynradd Gymraeg newydd. Mae yna hefyd gynigion ar gyfer gwaith adeiladu yn y dyfodol ym Môn-y-maen, Trecastell, West Cross a'r Clas. Daw'r fenter cartrefi newydd wrth i Gyngor Abertawe barhau â'i waith uwchraddio ei holl stoc tai, sef 13,500 o gartrefi, i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y flwyddyn nesaf. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae dros 6,200 o gartrefi wedi cael ceginau newydd ac mae nifer debyg wedi cael ystafelloedd ymolchi newydd.

Atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i gynnal eu tenantiaethau

- Cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd newydd 2018-22 ym mis Tachwedd 2018. Pwrpas y strategaeth yw nodi'r egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau digartrefedd yn Abertawe dros y pedair blynedd nesaf. Ei nod yw sicrhau bod y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar waith ar gyfer y sawl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu'n profi digartrefedd, mor effeithiol a hygyrch â phosibl. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig wedi cael eu datblygu mewn ymateb i ganfyddiadau Adolygiad Digartrefedd 2017, a ddarparodd ddealltwriaeth gynhwysfawr o ddigartrefedd ledled Abertawe.

- Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu ystod o wasanaethau i atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i gynnal eu tenantiaethau. Dewisiadau Tai yw gwasanaeth cyngor tai y Cyngor, sy'n darparu cyngor a gwybodaeth am ddim gan gynnwys: digartrefedd, mynediad at lety dros dro ar gyfer aelwydydd cymwys, gwneud cais am dŷ cyngor, rhentu'n breifat, cyngor ynghylch dyled/arian, mynediad at lety cymdeithasau tai a llety arbenigol i bobl ag anableddau. Mae'r gwasanaeth yn nodi anghenion cymorth ac yn cyfeirio at yr Uned Cynnal Tenantiaethau i sicrhau bod aelwydydd bregus yn gallu cynnal eu tenantiaethau. Darperir y Gwasanaeth Digartrefedd gan dîm o swyddogion digartrefedd, ynghyd ag arbenigwyr mewn meysydd megis cyngor ariannol, cyn-droseddwyr a ffoaduriaid. Darperir gwasanaethau i bobl ifanc trwy bartneriaeth gydweithredol rhwng y Cyngor a Barnardo's sy'n darparu'r gwasanaeth i bobl ifanc 16 - 20 oed sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Yn 2018/19, cafodd 75.45% o aelwydydd oedd dan fygythiad o ddigartrefedd eu hatal yn llwyddiannus gan y Cyngor rhag dod yn ddigartref, gwelliant o'i gymharu â'r 68.75% yn 2017/18. Yn ychwanegol, parhaodd nifer cyfartalog y diwrnodau a dreulir gan deuluoedd digartref sydd â phlant mewn llety Gwely a Brecwast yn sefydlog, sef 1.5 diwrnod, yn 2018/19.

- Rhoddir cymorth i aelwydydd i gynnal eu tenantiaeth trwy law'r Uned Cynnal Tenantiaethau. Mae'r Uned Cynnal Tenantiaethau yn darparu cymorth cysylltiedig â thai i bobl fregus sy'n byw yn Abertawe wedi'i ariannu gan Grant y Rhaglen Cynorthwyo Pobl. Mae tîm mewnol yr Uned yn darparu porth atgyfeirio ac asesu canolog ar gyfer mwyafrif helaeth y gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen yn Abertawe. Mae asiantaethau partner yn darparu cymorth i grwpiau penodol o gleientiaid megis pobl ifanc, pobl hŷn, cam-drin domestig, iechyd meddwl, teuluoedd a phobl sengl. Yr Uned Cynnal Tenantiaethau hefyd yw darparwr cymorth mewnol y Cyngor ac mae'n darparu gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen i'r holl breswylwyr gan gynnwys tenantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai), landlordiaid awdurdod lleol neu

landlordiaid preifat, ac i berchnogion preswyl. Yn ystod 2018/19, cynorthwyodd yr Uned 86% (85.75%) i reoli a chynnal eu tenantiaethau, sy'n lleihau nifer yr achosion o weithredoedd meddiannu a dadfeddiannu. Ataliwyd digartrefedd yn achos 88% (87.5%) o'r bobl oedd yn cael eu cynorthwyo gan yr Uned ac a oedd yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd.

**Astudiaeth Achos 3: Esgidiau ymarfer ac esgidiau yn cael eu cynnig am ddim i bobl ddigartref mewn digwyddiad Nadolig yn Neuadd Brangwyn**

**Mae dwsinau o barau o esgidiau ac esgidiau hyfforddi a atafaelwyd yn ystod cyrchoedd safonau masnach yn cael eu cynnig i bobl ddigartref yn Abertawe.** Yn flaenorol, mae Tîm Safonau Masnach Cyngor Abertawe wedi cynnal cyfres o weithrediadau a arweiniodd at atafaelu gwerth mwy nag £1 miliwn o nwyddau ffug, gan gynnwys dillad, esgidiau a phersawr. Mae'r achosion wedi dod i ben, felly mae'r tîm wedi bachu ar y cyfle i roi rhai o'r eitemau i achosion da yn lle eu dinistrio. Roedd yn golygu y cafodd dwsinau o esgidiau hyfforddi eu rhoi i bobl ddigartref oedd yn mynychu digwyddiad Nadolig rhad ac am ddim arbennig a oedd yn cael ei gynnal yn Neuadd Brangwyn Abertawe. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r digwyddiad blynyddol sydd wedi cael ei drefnu gan JR Events and Catering. Dywedodd Mark Thomas, Aelod Cabinet y Cyngor dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd: *"Gofynnir yn aml i ni beth sy'n digwydd i eitemau ffug y mae ein Safonau Masnach wedi'u hatafaelu yn ystod eu gweithgareddau. Os bydd hynny'n bosibl, byddwn yn cydweithio ag elusennau lleol neu'n manteisio ar ddigwyddiadau fel yr un sy'n digwydd yn Neuadd Brangwyn. Bydd y brand ffug yn cael ei dynnu oddi ar ddillad ac yna gallwn eu rhoi i'r sawl sy'n anghenus yn lle gorfod eu dinistrio. Mae'n ffordd wych i ni allu cynorthwyo i roi eitemau defnyddiol i bobl sy'n anghenus iawn."*

Dywedodd Andrea Lewis, aelod cabinet y Cyngor dros Gartrefi ac Ynni: *"Rydym ni'n falch iawn o allu cefnogi'r digwyddiad pwysig hwn. Nid helpu pobl sy'n ddigartref ac yn cysgu allan yw'r unig ddiben – mae'n ddigwyddiad i bobl fregus, pobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig yn ystod tymor y Nadolig. Mae'r digwyddiad yn adlewyrchu union ystyr ei deitl eleni – gyda'n gilydd yn ystod y Nadolig."*

Ynghyd â'r esgidiau am ddim, fe wnaeth elusennau lleol eraill fynychu'r digwyddiad a dosbarthu dillad oedd wedi cael eu cyfrannu yn benodol at y digwyddiad. Yr oedd hefyd yn cynnwys cinio Nadolig dau gwrs yn rhad ac am ddim ar gyfer pobl yn Abertawe sy'n fregus, yn teimlo'n unig, neu ddigartref efallai. Roedd y digwyddiad amser cinio tair awr hefyd yn cynnwys awyrgylch parti Nadolig, yn cynnwys coeden Nadolig, clecars Nadolig, cerddoriaeth fyw a chantorion. Roedd y gwasanaethau am ddim yn ystod y digwyddiad, diolch i garedigrwydd busnesau lleol, yn cynnwys gwasanaeth trin gwallt a phwyntiau gwybodaeth ynghylch cymorth â thai. Roedd gwybodaeth am gynlluniau cyflogaeth a chyngor ynghylch lles a budd-daliadau ar gael hefyd. Fe wnaeth Cyngor Abertawe drefnu cludiant am ddim i'r digwyddiad ac oddi yno, a threfnwyd llecyn o dan ofal staff y tu allan i Neuadd Brangwyn ble gallai cŵn pobl fwynhau danteithion Nadoligaidd.

Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu Menter Ynni

- Mae'r Cyngor wedi parhau i ymchwilio i'r posibilirwydd o sefydlu cwmni ynni i reoli'r cyfleusterau cynhyrchu ynni newydd ar draws yr awdurdod ac i sicrhau bod trethdalwyr Abertawe yn derbyn buddion incwm o'r ynni a gynhyrchir. Mae dull y Cyngor o ymdrin ag ynni bellach wedi'i gysylltu â phrosiect Morlyn Llanw sy'n dod i'r amlwg - Ynys y Ddraig. Comisiynwyd adroddiad gan dasglu Rhanbarth Dinas Bae Abertawe a sefydlwyd i archwilio opsiynau i gyflenwi'r morlyn llanw yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â bwrw ymlaen â chynigion blaenorol ym mis Mehefin 2018. Daw'r adroddiad yn dilyn cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw i ganfod a oedd gan gwmnïau ddiddordeb mewn helpu i gyflawni'r

prosiect wedi'i ail-ddychmygu. Mynegodd un ar ddeg o gwmnïau ddiddordeb, gan gynnwys sawl cwmni corfforaethol byd-eang mawr, sydd wedi cefnogi argymhellion y cynigion diweddaraf. Byddai'r cynnig yn cynhyrchu cyfuniad o ynni morol, solar a hydrogen, ac er ei fod wedi'i leoli ar ôl troed y cynnig blaenorol a wrthodwyd gan y Llywodraeth ganolog, ni fyddai angen cefnogaeth ariannol y llywodraeth ganolog i'w gyflawni. Byddai'n cynnwys cymuned arnofiol o hyd at 10,000 o gartrefi, a byddai potensial i arbed hyd at 30% ar amcangyfrifon blaenorol cost cyfalaf a'r potensial am drefniadau caffael cyhoeddus, a allai arwain at sefydliadau'r sector cyhoeddus yn prynu trydan yn uniongyrchol o'r ynys ynni. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil ynghylch y prosiect a rhagor o ddadansoddi ariannol, ond gallai'r gwaith adeiladu ddechrau yn 2021 a dod i ben yn 2026.

**Astudiaeth Achos 4: Ymgyrchwyr tlodi tanwydd a busnesau yn cefnogi arolwg ynni Abertawe**

**Mae ymgyrch ledled y DU sy'n brwydro i ddiogelu pobl ddiamddiffyn sy'n byw mewn cartrefi oer wedi canmol cynnig newydd gan Gyngor Abertawe.** Dywedodd aelodau Fuel Poverty Action y gallai syniad y cyngor i sefydlu cwmni ynni nid er elw helpu llawer o bobl. Mae Fuel Poverty Action yn ymgyrch ar lawr gwlad sy'n brwydro biliau tanwydd uchel, cartrefi oer ac argyfwng yr hinsawdd. Dywedodd Ruth London, Fuel Poverty Action: *" Rydym yn falch iawn o weld y datblygiad hwn yn Abertawe. Mae'n rhaid i bob menter leol o'r fath weithredu o fewn cyfyngiadau marchnad gyfanwerthu a'r grid cenedlaethol sy'n cael eu rheoli'n llwyr gan ddinosoriaid tanwyddau ffosil budrelwol. Fodd bynnag, mae cyfle o hyd i gwmnïau ynni dinesig gyflenwi ynni i aelwydydd mewn ffordd sy'n fwy atebol, yn decach ac yn rhatach hefyd gobeithio. Yn ogystal â symud i ynni adnewyddadwy a chartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n well, mae'n rhaid i hyn fod yn gam i'r cyfeiriad cywir."* Mae'r cyngor yn cynnig ateb arloesol i leihau biliau ynni busnesau a chartrefi ar draws y ddinas. Byddai'n ymwneud â sefydlu cwmni gwasanaethau ynni dielw a fyddai'n fuddiol i bobl yn y ddinas. Ei brif ffocws fyddai preswylwyr a sefydliadau lleol. Byddai'r fenter gymdeithasol gyfrifol yn helpu i fynd i'r afael â'r her o daliadau nwy a thrydan uchel sy'n wynebu trigolion Abertawe a'r anhawster sy'n wynebu busnesau lleol i sicrhau bargeinion ynni da. Byddai'r cwmni yn cael ei sefydlu gan y Cyngor a byddai'n fenter hyd braich ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor. Ni fyddai'n costio dim i drethdalwyr. Dyma fyddai'r fenter gyntaf o'r fath gan gyngor yng Nghymru, er bod nifer fechan yn bodoli yn Lloegr.

Mae rheolwyr busnesau ledled Abertawe hefyd wedi canmol y cynnig hwn. Dywedodd David Bellis, prif weithredwr y Millennium Group ac un o gyfarwyddwyr y Refining Dining Co: *"Fel perchennog busnes lleol yn y sector lletygarwch, mae hyn yn atyniadol dros ben. Biliau ynni yw un o'n hargostau mwyaf, ac mae'r cyfle i gyd-drafod yn brin. Rwy'n croesawu'r ateb arfaethedig hwn gan Gyngor Abertawe i leihau costau ar gyfer preswylwyr a busnesau. Mae'r farchnad ynni dan ddylanwad y Chwe Chwmni Mawr, felly mae'n rhaid i ni wneud safiad i ddangos ein hanfodlonrwydd â sut maent yn ein trin ni fel defnyddwyr o safbwynt eu tariffau a'u gwasanaeth i gwsmeriaid. Trwy ddangos consensws unedig ein bod ni'n ystyried bod angen model newydd, tebyg i'r un a gynigir gan y Cyngor, rwy'n hyderus y gwnaiff hyn sbarduno newid. Yn sicr, fe wnaf i hyrwyddo'r arolwg hwn ymhlith fy rhwydweithiau i ddenu cefnogaeth a chynhyrchu momentwm."*

Dywedodd Andrea Lewis, aelod cabinet y Cyngor dros gartrefi ac ynni: *"Rwy'n croesawu'n gynnes y gymeradwyaeth gan Fuel Poverty Action ac ymateb cadarnhaol busnesau lleol. Gallai cwmni ynni hyd braich dielw sy'n eiddo i'r cyngor wneud gwahaniaeth sylweddol i'r biliau nwy a thrydan i deuluoedd a busnesau ledled Abertawe, gan gynnig dewis arall rhatach a allai fod yn wyrddach."*

Arbed a mesurau ynghylch defnyddio ynni'n effeithlon mewn tai cymdeithasol

- Mae'r Cyngor yn parhau i wella eiddo i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella lles unigolion trwy fforymau fel Fforwm Amgylcheddol Abertawe ac Abertawe Carbon Isel a thrwy gyflwyno cynigion Arbed priodol pan wahoddir hwy. Ymgorfforwyd mesurau effeithlonrwydd ynni yng Nghynllun Ardal Adnewyddu Tai Sandfields, rhaglen 5 mlynedd o welliannau i dai yn y sector preifat â lefelau uwch o amddifadedd cymdeithasol, amgylchiadau tai gwael a lefelau uchel o dlodi tanwydd. Roedd cais am gyllid Arbed Am Byth ar gyfer ardal Sandfields yn llwyddiannus: Cafodd 49 eiddo amrywiaeth o 268 o fesurau effeithlonrwydd ynni a oedd yn cynnwys amnewid boeleri, adnewyddu systemau rheiddiaduron, ychwanegion inswleiddio atigau, system paneli solar a synwyryddion carbon monocsid.

- Yn ychwanegol, parhaodd y Cyngor i wella ei stoc dai trwy orchuddio, ailosod boeleri, rheolyddion gwresogi, inswleiddio llofftydd er mwyn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella'r amgylchedd. Mae'r Cyngor yn parhau i ariannu gwelliannau i dai yn y sector preifat trwy ddarparu benthyciadau atgyweirio tai ar gyfer cartrefi pobl oedrannus, pobl anabl a phobl sydd ag incwm isel i gael gwared ar beryglon a chyflawni gwelliannau thermol.

Cynorthwyo unigolion i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith

- Mae'r Cyngor wedi parhau i gynorthwyo unigolion i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith trwy ddarparu cefnogaeth wedi'i theilwra'n unigol a ddarperir trwy sawl ffrwd ariannu gan gynnwys *Cymunedau ar gyfer Gwaith*, *Cymunedau ar gyfer Gwaith a Mwy* a *Cam Nesa*.

- *Gweithio Abertawe* yw dull gweithredu cyffredinol Cyngor Abertawe a'n partneriaid allweddol o ymdrin â chyflogaeth. Nod y dull gweithredu yw symleiddio mynediad at gefnogaeth i bobl leol o oedran gweithio sy'n ddiwaith neu 'gyflogedig ac yn dlawd', gan gynnig un lle iddynt alw a chymorth wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol. Mae'r dull 'yn cuddio gwifrau' ffrydiau a dulliau cyllido lluosog, gan gynnwys *Cam Nesa* a *Chymunedau ar gyfer Gwaith* uchod. Mae *Gweithio Abertawe* yn ei gwneud hi'n hawdd i gysylltu ac yn galluogi cymorth ynghylch cyflogadwyedd i'r sawl y mae arnynt angen hynny, pryd a ble bydd angen hynny arnynt yn Abertawe.

- Mae *Gweithio Abertawe* wedi darparu 39 o gyrsiau hyfforddi/cyfleoedd i wella sgiliau. Mae rhaglenni sy'n rhan o *Gweithio Abertawe* wedi darparu bron iawn 400 o swyddi gwag yn y farchnad swyddi gudd i gyfranogwyr eu cyrchu. Mae digwyddiadau penodol i sectorau, ymgysylltu â chyfranogwyr, digwyddiadau gwybodaeth a digwyddiadau darganfod wedi digwydd gan gynhyrchu dros 150 o atgyfeiriadau at raglenni cyflogadwyedd. Mae dros 20 o bartneriaethau newydd wedi'u datblygu yn ychwanegol at lawer o bartneriaethau presennol i gynorthwyo dinasyddion â sawl agwedd o gymorth ynghylch cyflogadwyedd. Derbyniwyd 1325 o atgyfeiriadau trwy system atgyfeirio *Gweithio Abertawe* rhwng Mai 2018 a Mawrth 2019. Arweiniodd hyn at dros 450 o ganlyniadau swyddi, dros 370 yn cyflawni hyfforddiant achrededig a dros 220 o gyfranogwyr o 14 partner yn cyrchu hyfforddiant sy'n benodol i sectorau trwy gyfrwng Gweithio Abertawe hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019. Bydd 38 o bartneriaid yn derbyn atgyfeiriadau neu'n atgyfeirio i'n system, sy'n dystiolaeth o faint o gydweithredu sy'n digwydd.

**Astudiaeth Achos 5: Digwyddiad i helpu pobl ganfod cyflogaeth newydd**

**Cynhaliwyd digwyddiad oedd yn ceisio helpu pobl i ganfod cyflogaeth newydd yn Abertawe.** Roedd yn arddangos y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i bobl o bob oedran sy'n chwilio am waith, boed yn rhai sy'n chwilio am waith am y tro cyntaf neu'n rhai sy'n edrych am her newydd neu i gael swydd well.  Fe wnaeth Gweithio Abertawe, gwasanaeth cyflogadwyedd sy'n cael ei gynnal gan

Gyngor Abertawe a'i bartneriaid, drefnu digwyddiad yn y YMCA ar Ffordd y Brenin ddydd Mawrth 22 Ionawr Roedd gwybodaeth ar gael am swyddi gwag presennol, hyfforddiant a budd-daliadau. Roedd nifer fawr o wasanaethau cysylltiedig â chyflogaeth a darparwyr hyfforddiant ymhlith y partneriaid oedd yn mynychu. Dywedodd y Cynghorydd Mary Sherwood, Cyd-aelod Cabinet Cyngor Abertawe dros Gymunedau Gwell: *"Gall Gweithio Abertawe helpu pobl i ddod o hyd i swyddi newydd, gwell swyddi neu hyfforddiant. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ceisio chwalu'r rhwystrau sy'n gwneud i lawer o bobl barhau i fod yn ddi-waith neu barhau i wneud gwaith am gyflog isel. Gofal plant a chludiant yw'r problemau mwyaf cyffredin, ac mae'r tîm ar gael i gynorthwyo. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn cynnwys cynlluniau gweithredu personol ynghylch cyflogaeth, hyfforddiant, cymorth i ddatblygu CV, cymorth â sgiliau cyfweliadau ac i lunio ceisiadau am swyddi, a lleoliadau profiad gwaith, prentisiaethau a chymorth i bobl sy'n gweithio. Mae tîm Gweithio Abertawe eisoes wedi llwyddo i gynorthwyo nifer fawr o bobl i ganfod gwaith a hyfforddiant mewn amrywiaeth o sectorau. Maent yn weithwyr proffesiynol cyfeillgar a phroffesiynol sy'n awyddus i ganfod atebion i ddatrys unrhyw broblemau y bydd pobl yn eu profi wrth chwilio am swyddi."*

Cyfleoedd celf, diwylliant a threftadaeth er mwyn hybu sgiliau, hyder, hunan-barch a dyhead

- Mae'r Cyngor wedi parhau i gynnig rhaglenni dysgu gydag ysgolion a gwaith allgyrsiol cost isel / rhad ac am ddim sy'n canolbwyntio ar y teulu mewn cyfleusterau cymunedol ac mewn lleoliadau celfyddydau ac amgueddfeydd. Mae ein rhaglenni dysgu wedi parhau yn 2018/2019 â gweithgareddau ar gyfer grwpiau cymunedol ac unigolion allweddol craidd ac wedi'u targedu ac unigolion sy'n gweithio gyda rhwydwaith o sefydliadau sy'n targedu'r sawl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd, trwy Bartneriaeth Dysgu Creadigol Abertawe a gyda swydd Cydlynydd Diwylliannol Cymunedol a ariennir gan Fusion. Roedd ein rhaglenni wedi'u targedu a'n hadnoddau ar gyfer 2018/2019 yn cynnwys:

  - Art Babas; plant cyn-ysgol a blynyddoedd cynnar 0-3 oed a'u teuluoedd.
  - Llu Celf Ifanc ar gyfer pobl ifanc NEETs (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), pobl ifanc sy'n cael eu haddysg gartref a phlant sy'n derbyn gofal sy'n 11-16 mlwydd oed; cynigir achrediad Arts Award.
  - Gweithdai ar gyfer Oedolion (55+) bod dydd Merch – Dosbarthiadau celf rheolaidd i bobl hŷn a phobl unig.
  - Grŵp croeso - ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, yn gweithio mewn partneriaeth â Dinas Noddfa Abertawe a Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe i ddarparu cyfleoedd ar gyfer sesiynau celf ymarferol a gwirfoddoli.
  - Ysgol Gelf Amgen, ar gyfer oedolion sydd ag anghenion ychwanegol ac arbennig, trwy bartneriaeth â chanolfannau Gwasanaeth Dydd Abertawe.
  - Dosbarthiadau celf misol RNIB ar gyfer oedolion sydd â namau ar y golwg.
  - Glynn Vivian Gyda'r Hwyr yn Chwefror 2019 - fe wnaethom ni gydweithio â Pride Abertawe i ddathlu Mis Hanes LGBT+ trwy agor yr Oriel yn hwyr, a chafwyd perfformiadau, cerddoriaeth, sgyrsiau a gweithdai i ddod â chynulleidfaoedd ynghyd.
  - Gweithdai Pride – diwrnodau o hwyl i deuluoedd a gweithdai yn ystod y gwyliau i greu baneri a hysbyslenni ar gyfer Pride Abertawe 2019.
  - Gorymdaith Pride - fe wnaeth staff a chyfranogwyr o Oriel Glynn Vivian gyfranogi yng Ngorymdaith Pride 2019. Roedd y Galeri hefyd yn rhannu stondin ag Amgueddfa Abertawe yn ystod y digwyddiad, yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.
  - Gŵyl y Gwanwyn - Cydweithiwyd â Gŵyl y Gwanwyn i gynnal diwrnod gŵyl yn pontio'r gwahanol genedlaethau ac yn cynnwys sawl cymuned, i ddathlu creadigrwydd ymhlith y genhedlaeth hŷn.

- Sachau Teithio Celf Synhwyraidd – Mae llwybrau ein Horiel a’n sachau teithio yn cynnwys teganau ac adnoddau synhwyraidd ar gyfer ymwelwyr sydd ag awtistiaeth fel y gallant ymgysylltu â’r arddangosfeydd a’r casgliadau.
- Clwb Ffilmiau ar gyfer Teuluoedd – dangoswyd ffilmiau mewn modd addas i bobl sydd ag awtistiaeth trwy gydol y flwyddyn, bob dydd Sul a bod Gŵyl y Banc.
- Hyfforddiant ar y cyd ag Engage Cymru - Hyfforddiant i wella ymwybyddiaeth o ddementia ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau, archwiliad dementia ar gyfer yr Oriel.
- Dangos ffilmiau ychwanegol – dangosir ffilmiau ar sail ad hoc ar gyfer menywod BAME, pobl LGBTQ+, oedolion a phobl ifanc.

- Mae gwaith wedi cael ei gynnal hefyd gyda phobl ifanc ac oedolion sy’n ddi-waith - animeiddio gydag Oriel Glynn Vivian, creu ffilmiau gyda chynhyrchydd ffilmiau lleol trwy bartneriaeth â Dysgu Oedolion Cymru. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys datblygu rhwydwaith cyflogadwyedd ymhellach a chysylltiadau â darparwyr mewnol ac allanol i barhau i gynyddu niferoedd sy'n canfod cyflogaeth gynaliadwy. Yn ychwanegol, mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys sicrhau bod llwybrau atgyfeirio yn glir ac yn hawdd i'w deall gan ddefnyddwyr terfynol ac ymarferwyr.

**Astudiaeth Achos 6: Llyfrgelloedd yn cefnogi ymgyrch tlodi’r misglwyf**

**Mae llyfrgelloedd y cyngor ac adeiladau cyhoeddus eraill yn Abertawe'n paratoi i gefnogi grŵp newydd sy'n mynd i'r afael â thlodi'r misglwyf.** Fe wnaeth grŵp Swansea Takes On Period Poverty (STOPP) sefydlu rhwydwaith o fannau casglu ble gall menywod a merched sy'n methu fforddio nwyddau misglwyf neu'n methu cael mynediad atynt eu cael am ddim. Mae’r mannau casglu hefyd yn cynnal "Safleoedd Rhoddi", ble gall pobl roddi nwyddau a chefnogi gwaith STOPP. Bydd gwirfoddolwyr yn ailddosbarthu'r nwyddau a roddir i leoliadau amrywiol y mae eu hangen arnynt, megis Cymorth i Fenywod Abertawe a'r banciau bwyd yn Abertawe. Dywedodd y Cynghorydd Louise Hibbard, Hyrwyddwr dros Fenywod Cyngor Abertawe, *" Bu llawer o straeon yn y cyfryngau yn ddiweddar am dlodi misglwyf lle na all menywod a merched gael gafael ar gynhyrchion misglwyf oherwydd cyfyngiadau ariannol, diwylliannol neu gyfyngiadau eraill. Mae ffigurau cenedlaethol yn awgrymu ei fod yn effeithio ar un o bob pedair menyw a geneth ar ryw adeg yn eu bywydau ac er nad oes gennym ffigurau ar gyfer Abertawe, byddai'n wirion pe byddem yn meddwl nad oedd yn broblem yma. Hefyd, mae’n ymwneud ag urddas, gall unrhyw un gael eu dal allan. Dylai cynhyrchion misglwyf rhad ac am ddim fod yn norm. Rwy’n falch iawn bod ein llyfrgelloedd, ynghyd â lleoliadau eraill yn y ddinas yn cynnwys Oriel Gelf Glynn Vivian, Canolfan Dylan Thomas ac Amgueddfa Abertawe, yn cynnig nwyddau am ddim yn eu toiledau. Yn fuan iawn, bydd llawer o ganolfannau cymunedol yn cyfranogi hefyd. Bydd ein llyfrgelloedd hefyd yn derbyn cyfraniadau gan y cyhoedd, a byddem yn croesawu unrhyw gymorth, oherwydd mae hyn yn rhywbeth sy’n achosi chwithdod ac arwahanrwydd."*

Hyrwyddo cymunedau cydlynol a chynhwysol yn Abertawe.

- Rydym wedi parhau i weithredu rhaglen Cydlyniant Cymunedau Llywodraeth Cymru yn ystod 2018-19 i: chwalu'r rhwystrau rhag cynhwysiant ac integreiddio; cynorthwyo mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau sy’n eu cynnal yn ystod y broses integreiddio; a mynd i'r afael â gwahaniaethu, gelyniaeth, tensiynau ac eithafiaeth.

- Gwnaed gwaith i gynnwys Cynghorwyr, staff amlasiantaethol, gwirfoddolwyr ac unigolion i wrthweithio negeseuon negyddol sy'n ymwneud â rhannau o'n cymuned. Mae gwybodaeth i chwalu mythau wedi cael ei datblygu a’i rhannu i gynorthwyo i frwydro camsyniadau. Yn

ychwanegol, rydym ni wedi galluogi grwpiau i ddod ynghyd, yn cynnwys Grŵp Rhyng-ffydd. Rydym ni wedi cefnogi digwyddiadau cymunedol, megis Gŵyl y Darlun Mwy ym Mhrifysgol Abertawe a digwyddiad blynyddol Eid yn y Parc.

- Mae ein Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedau hefyd wedi ymgorffori nifer o weithgareddau newydd i nodi a lliniaru unrhyw densiynau yn gysylltiedig â Brexit yn y gymuned. Rydym ni wedi sefydlu Grŵp Llywio Brexit er mwyn deall oblygiadau Brexit ar gyfer y Cyngor ac i sicrhau ein bod ni'n lliniaru risgiau a'n bod ni wedi'n paratoi yn effeithiol at unrhyw ddatblygiadau, yn cynnwys materion cymunedol. Mae gwaith wedi cynnwys casglu gwybodaeth am ganfyddiadau ynghylch diogelwch cymunedau, troseddau casineb a Brexit gan ddefnyddio arolwg ar-lein.

- Gwaith ynghylch cydlyniant cymunedau i gynorthwyo Sipsiwn a Theithwyr, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, a dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern a Throseddau Casineb wedi parhau. Rydym ni'n parhau i gyfranogi ym mhrosiect peilot Dovetail y Swyddfa Gartref. Mae Cydlynydd Sianel yr Awdurdod Lleol yn monitro achosion Gwrthderfysgaeth a radicaleiddio ac mae nifer o ymyriadau amlasiantaethol ar waith. Gwnaed gwaith i ymgorffori'r llwybr Ymateb i Ddioddefwyr Gwrth-gaethwasiaeth Cymru yn y Siarter Gofal Moesegol ynghylch caffael, ac ar hyn o bryd, rydym yn datblygu datganiad polisi. Mae Gweithgor Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe wedi datblygu llwybr atgyfeirio mewnol ar gyfer Caethwasiaeth Fodern a darparwyd hyfforddiant ar Gaethwasiaeth Fodern i dros 100 o bobl, gan gynnwys datblygu sesiwn 'Hyfforddi'r Hyfforddwr'. Mae sesiynau gwybodaeth am Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches wedi'u cynnal gyda staff Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymunedau ar gyfer Gwaith. Bwriedir cynnal hyfforddiant yn y dyfodol agos ar gyfer y Tîm o Amgylch y Teulu a Chydlynwyr Ardaloedd Lleol.

**5. Sut mae'r Amcan Lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau lles cenedlaethol.**

- *Cymru Ffyniannus* – Gwneud y mwyaf o ddefnydd a hawl i fudd-daliadau a darparu un porth i gymorth cyflogaeth.
- *Cymru Wydn - Adeilad tai Cyngor sy'n fwy effeithlon o ran ynni ac adeiladu tai fforddiadwy i helpu i ddiwallu angen am dai, lleihau biliau tanwydd, adfywio ystadau a dod â buddion economaidd a chyflogaeth ehangach.*
- *Cymru Iachach* - Darparu digwyddiadau celf, diwylliannol a threftadaeth yn rhad ac am ddim mewn cymunedau wedi'u targedu trwy ystod eang o sgyrsiau, gweithdai a gweithgareddau gyda'r nod o fynd i'r afael ag iechyd a lles.
- *Cymru Fwy Cyfartal - Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n ddi-waith dros dymor hir ac sy'n anweithgar yn economaidd trwy gymalau budd cymunedol yng nghontractau'r Cyngor.*
- *Cymru â Chymunedau Mwy Cydlynol* - Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol i hyrwyddo cymunedau cydlynol a chynhwysol yn Abertawe.
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu* – Helpu cymunedau tlotaf Abertawe i fynd i'r afael â thlodi trwy gyrchu'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth er mwyn hybu sgiliau, hyder, hunan-barch a dyhead.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar y lefel fyd-eang* – Mesurau sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gan gynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai ac adeiladu tai Cyngor sy'n fwy effeithlon o ran ynni.

**6. Y gwersi a ddysgwyd a meysydd y dylid eu datblygu**

- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol i gyflawni ei amcan lles ond mae gwersi wedi'u dysgu ac mae meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.

Strategaeth ynghylch Tlodi

- Mae angen gwaith rheolaidd a chanolbwyntiedig i sicrhau dull un Cyngor o fynd i'r afael â thlodi a chydnabyddiaeth gan bob adran i'r dull gweithredu sy'n nodi bod mynd i'r afael â thlodi yn gyfrifoldeb i bawb. Yn ogystal, mae angen cryfhau'r cysylltiadau rhwng y strategaeth Trechu Tlodi, datblygu'r economi a'r cyfleoedd a gynigir gan Fargen Dinas Bae Abertawe.

Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ôl troi'n 16 oed.

- Mae toriadau yng nghyllid ôl-16 Llywodraeth Cymru ac ansicrwydd ynghylch cyllid yn lle arian Ewropeaidd yn parhau i danseilio cynaliadwyedd ehangder yr 'arlwy' i ddysgwyr yn y dyfodol. Yn ychwanegol, mae rhagor o gymorth wedi'i deilwra ar gyfer unigolion i fynd i'r afael ag anghenion grŵp craidd o NEETS sydd ag anghenion cymhleth.

Hawliau Lles

- Mae ymchwil wedi dangos y bydd newidiadau diweddar yn y polisi lles yn arwain at nifer gynyddol o gartrefi yn cael eu niweidio gan effaith gronnus diwygiadau lles a pherygl o galedi ariannol. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i ddatblygu ei bolisïau rhannu data mewnol a rhai ar y cyd â'i bartneriaid er mwyn cynnig cymorth rhagweithiol cynnar i aelwydydd sydd mewn perygl ac i atal problemau rhag gwaethygu.

Tai Cyngor sy'n Defnyddio Ynni yn Effeithlon

- Mae gwersi a ddysgwyd o brosiect peilot cyntaf Passivhaus yn Colliers Way wedi hysbysu datblygiad tai newydd Safon Abertawe sy'n defnyddio ynni yn effeithlon. Gellir cyfuno Safon Abertawe â thechnoleg adnewyddu ychwanegol hefyd, megis toeau solar a batris i storio ynni i sicrhau rhagor o ostyngiad mewn costau tanwydd i breswylwyr.

Atal Digartrefedd

- Cyhoeddwyd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd newydd 2018-22 ym mis Tachwedd 2018. Erys heriau allweddol o ran diwallu'r holl anghenion blaenoriaethol - gan gynnwys bylchau yn y ddarpariaeth - o fewn y lefel bresennol o adnoddau. Mae angen gwaith rheolaidd ar draws adrannau ac ar y cyd â phartneriaid allanol er mwyn cynorthwyo aelwydydd â dyledion ac ôl-ddyledion rhent yn gynnar, er mwyn atal dadfeddiannu ac atal problemau rhag gwaethygu.

Menter Ynni

- Mae'r Cyngor wedi amlinellu dull gweithredu uchelgeisiol ac arloesol o gyflawni mentrau ynni yn y cynllun ar gyfer Ynys y Ddraig. Mae angen Arweinyddiaeth Wleidyddol Gadarn a pharodrwydd gan Lywodraeth Cymru a'r sector preifat i dderbyn y cynigion er mwyn gallu eu gweithredu.

Cynorthwyo unigolion i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth

- Mae Gweithio Abertawe yn cynnig un porth at hyfforddiant a chyflogaeth. Mae ymgysylltu â'r sawl sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur yn parhau i fod yn her ac mae angen rhagor o waith i gael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl rhag cael gwaith, megis darparu digon o ofal plant ar ddyddiau ac ar adegau sy'n diwallu anghenion yr hyfforddiant a/neu'r gyflogaeth ac anghenion teuluoedd unigol.

Darparu cyfleoedd celf, diwylliant a threftadaeth er mwyn hybu sgiliau, hyder, hunan-barch a dyhead

- Mae’r Cyngor wedi datblygu dulliau newydd o weithio a modelau newydd o ddarparu ar y cyd â’r sector preifat a’r gymuned er mwyn gwella a chynnal cyfleoedd hamdden. Erys heriau o ran cynnal ehangder ac ansawdd yr arlwy o fewn cyfyngiadau presennol y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi cyflwyno cyfres amrywiol a rhagorol o raglenni, prosiectau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn a byddant yn ymdrechu i ddefnyddio'r cyfleoedd i hybu lles, yn enwedig yn achos grwpiau bregus a/neu ddifreintiedig.

**Trawsnewid** a datblygu **Cyngor y dyfodol**

## 1. Pam mae hwn yn Amcan Lles.

- Rydym yn dymuno moderneiddio a gweddnewid y Cyngor trwy gyfrwng ein rhaglen *Abertawe Gynaliadwy: Yn Addas i'r Dyfodol*, i helpu i fynd i'r afael â'r galw cynyddol a chyllidebau refeniw sy'n crebachu.
- Rydym ni'n dymuno moderneiddio gwasanaethau trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd, gan leihau gweinyddu a gwasanaethau swyddfa gefn. Rydym ni'n dymuno creu incwm ychwanegol i dalu am wasanaethau a helpu teuluoedd yn gynharach fel y gallwn ni leihau costau yn nes ymlaen.
- Rydym ni'n dymuno gwella effeithlonrwydd a lleihau costau rheoli a chymorth busnes ymhellach. Rydym ni hefyd yn dymuno parhau i adolygu ein holl wasanaethau i sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn y dull gorau posibl ac arbed arian trwy gydweithio â phartneriaid megis yr heddlu a gwasanaethau iechyd, neu atal pobl rhag gorfod cyrchu gwasanaethau statudol costus os gellir diwallu'r angen yn rhywle arall.
- Rydym ni'n dymuno gweld y cyhoedd yn gwneud cyfraniad trwy gyd-gynhyrchu gwasanaethau a'u rhedeg, megis y cynllun llwyddiannus ble mae bowlwyr yn cynnal a chadw eu lleiniau, neu gynyddu ailgylchu yn y cartref.
- Rydym ni'n dymuno gweld rhagor o bobl yn cyfranogi ym musnes y Cyngor ac yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n eu heffeithio hwy, eu teuluoedd a'u cymunedau.
- Rydym ni'n dymuno buddsoddi yn ein blaenoriaethau megis canol y ddinas, gwella dosbarthiadau, gwella ac ehangau ein stoc o dai sy'n defnyddio ynni yn effeithlon, a chyflawni Bargen y Ddinas sydd â'r potensial i greu 10,000 o swyddi.

## 2. Y camau y dywedom ni y byddem yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r Amcan Lles hwn.

- Adolygu a pharhau â rhaglen moderneiddio *Abertawe Gynaliadwy – yn Addas i'r Dyfodol*, er mwyn gweddnewid gwasanaethau, sicrhau deilliannau gwell i breswylwyr a chyflawni cynaliadwyedd ariannol.
- Cynorthwyo a hyfforddi gweithlu'r Cyngor trwy'r Strategaeth Datblygu Sefydliadol i gyflawni gwasanaethau wedi'u trawsnewid er mwyn sicrhau fod gennym ni'r bobl briodol sydd â'r sgiliau priodol, gan ddarparu'r llwybr datblygu a buddion priodol, a'n bod ni'n gweithio trwy ddulliau sy'n sicrhau'r deilliannau mwyaf cynaliadwy i breswylwyr.
- Newid diwylliant sefydliadol y Cyngor i gefnogi "gweithio gyda'n gilydd, gweithio'n wahanol" a sefydlu trawsnewid, arloesi a bod yn sefydliad sy'n dysgu.
- Ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng Cynrychiolwyr Cydraddoldeb a benodir ym mhob gwasanaeth.
- Adolygu dull y Cyngor o gaffael i sicrhau buddion ar gyfer yr economi leol a'r gymuned leol, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.
- Parhau i sefydlu strategaeth "digidol yn gyntaf" fel y gall dinasyddion gyrchu rhagor o wasanaethau a gwybodaeth gan y Cyngor trwy gyfrwng platfformau a chyfryngau digidol er mwyn arbed arian, gwella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth, a chynyddu bodlonrwydd cwsmeriaid.
- Hybu cynhwysiant digidol a galluogi pobl i gyrchu gwasanaethau ar-lein trwy sicrhau bod dinasyddion yn cael cyfleoedd dysgu gydol oes i ddilyn cyrsiau a hyfforddiant cyfrifiadurol yn rhad ac am ddim.
- Ystyried cyfleoedd i gydweithredu ag awdurdodau lleol eraill a phartneriaid a rhannu gwasanaethau, yn cynnwys gwasanaethau swyddfa gefn, i arbed costau a gwella gwasanaethau i ddinasyddion.

- Ymgymryd â gwaith ymgysylltu effeithiol ac wedi'i dargedu i ddatblygu rhagor o gydweithredu a gwaith partneriaeth gyda'r trydydd sector a'r sector preifat er mwyn cyflawni blaenoriaethau a deilliannau a rennir y Cyngor.
- Adolygu gwaith gyda chymunedau, sefydliadau a grwpiau cyfeillion i annog a galluogi mwy o berchnogaeth gan y gymuned o asedau a gwasanaethau ac i sicrhau eu cynaliadwyedd yn y tymor hir.
- Parhau i foderneiddio cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a phenderfyniadau'r Cyngor trwy gynnal cyfarfodydd ar adegau cyfleus, darlledu ar-lein, pleidleisio electronig ac e-ddeisebau.
- Parhau i gryfhau'r gwasanaeth cyfrwng Cymru a gwasanaethau iaith a gynigir yn gyffredinol gan y Cyngor trwy ddarparu hyfforddiant ieithyddol sylfaenol ar gyfer staff rheng flaen.
- Sicrhau bod cyllidebau cymunedol ar gael fel y gall pobl leol benderfynu ar y cyd â'u cynrychiolwyr beth yw eu blaenoriaethau lleol.
- Darparu'r cyfle i ddinasyddion lleol ddylanwadu ar sut caiff polisïau eu hysgrifennu a sut caiff gwasanaethau eu darparu trwy ddatblygu dull cyd-gynhyrchu ac ymrwymiad Abertawe.

## 3. Beth yn union fydd llwyddiant

- Mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaethau sy'n gynaliadwy ac yn addas at y dyfodol. Mae'r Cyngor yn gynaliadwy o safbwynt ariannol ac mae ganddo weithlu sy'n barod i ddarparu gwasanaethau wedi'u trawsnewid, yn cynnwys gwasanaethau yn Gymraeg. Mae pobl yn cyfranogi rhagor ym mhenderfyniadau'r Cyngor ac yn y gwaith o ddewis blaenoriaethau lleol a chyd-gynhyrchu a helpu i redeg gwasanaethau a rheoli asedau.

## 4. Camau i wneud cynnydd i fodloni'r Amcan Lles hwn – beth lwyddodd

Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol

- Mae'r Cyngor wedi parhau i weithredu ei raglen gweddnewid, sef *Abertawe Gynaliadwy - Addas i'r Dyfodol*, yn ystod 2018/19. Ers sefydlu'r Rhaglen bedair blynedd yn ôl, mae oddeutu £70 miliwn wedi cael ei gyflawni trwy gyfrwng Trawsnewid a phrosiectau eraill i leihau costau. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni'r rhaglen. O blith yr 17 adolygiad comisiynu sydd wedi cael eu cynnal, mae 15 wrthi'n cael ei gweithredu, mae 1 adolygiad yn dal i fynd rhagddo, ac mae 1 wedi cael ei addasu yn unol â deddfwriaeth statudol newydd. Mae cyfres o adolygiadau trawsbynciol hefyd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ac mae ail flwyddyn darparu'r adolygiadau hynny bellach wedi cychwyn.

- Mae rhai o ddeilliannau ac effeithiau allweddol y rhaglen wedi cynnwys datblygu modelau newydd a dulliau newydd o weithio, mwy o effeithlonrwydd, llai o ddyblygu a mwy o gydweithredu. Mae'r rhaglen hefyd wedi arwain at ostyngiad mewn swyddogaethau Cymorth Busnes trwy ddileu dyblygu a symleiddio prosesau ar draws bob Cyfarwyddiaeth (amcangyfrifir bod hynny wedi arbed £3.6m i'r Cyngor). Mae'r rhaglen hefyd wedi sbarduno darparu adnoddau digidol newydd a chyflwyno Skype for Business, sydd wedi bod yn sail i'r rhaglen gweithio hyblyg ac wedi galluogi staff a Chynghorwyr i ddefnyddio negeseuon ebrwydd, galwadau llais ar-lein, cyfleusterau fideo-gynadledda a rhith-gyfarfodydd. Mae dull gweithredu 'digidol yn gyntaf' y Cyngor wedi cael ei archwilio yn y gwaith o ddarparu prosiect peilot Fy Nghlydach, ac mae gwersi yn deillio o hynny yn hysbysu'r strategaeth Gwasanaethau yn y Gymuned i ad-drefnu adeiladau cymunedol a gwasanaethau rheng flaen trwy alluogi'r strategaeth ddigidol.

- Mae'r rhaglen hefyd wedi galluogi datblygu cyfleoedd masnachol o fewn adeiladau dinesig ac wedi creu incwm ychwanegol trwy gynyddu ffioedd a thaliadau yn unol â'r hyn a godir gan

Awdurdodau Lleol eraill ac wedi galluogi dulliau newydd o gydweithio â'r sector preifat a phobl yn y gymuned. Er enghraifft, yn ystod 2018-19, cymeradwywyd model newydd o ddarparu Gwasanaethau Hamdden trwy bartneriaeth â Freedom Leisure. Cafodd cynllun peilot yn darparu gwasanaethau glanhau masnachol ar gyfer oedolion bregus yn eu cartrefi eu hunain ei lansio hefyd, gan adeiladu ar waith partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector, megis y Groes Goch ac Age Cymru.

- Mae Bwrdd Ail-lunio wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar i fonitro a herio cynnydd ac i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor. Y pedwar maes blaenoriaethol ar gyfer cam nesaf y rhaglen yw: gweddnewid y Cyngor; galluogi dulliau newydd o weithio trwy gyfrwng technoleg; sicrhau bod y Cyngor a'i weithlu yn barod at y dyfodol; a thyfu Abertawe trwy gyfrwng buddsoddiad cyfalaf.

**Astudiaeth Achos 1: Cyngor yn dechrau ar gontract 20 mlynedd gyda phartner hamdden newydd**

**Penododd y Cyngor Freedom Leisure fel y cynigydd a ffafrir i weithredu ein Canolfannau Hamdden am yr 20 mlynedd nesaf.** Roedd y penderfyniad i greu'r bartneriaeth gyda Freedom Leisure yn benllanw adolygiad comisiynu tair blynedd o gyfleusterau a gwasanaethau hamdden a difyrrwch sy'n eiddo i'r cyngor. Yn ystod yr adolygiad, fe wnaeth y Cyngor ystyried nifer o opsiynau. Yn ystod y broses bu ymgynghori rheolaidd â staff, undebau, cwsmeriaid a sefydliadau â buddiant. Ar yr un pryd, roedd contract y Canolfannau Hamdden yn barod i gael ei adnewyddu. Dewiswyd Freedom Leisure trwy broses dendro gystadleuol drwyadl ac mae wedi cytuno ar bartneriaeth 20 mlynedd gyda'r cyngor ac mae ganddo hanes profedig o weithio i awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Freedom Leisure yn gwmni dielw sydd â statws elusennol, a bydd yn buddsoddi unrhyw enillion yn ôl yn y busnes. Roedd eu 'cynnig' llwyddiannus yn cynnwys buddsoddiad o £5m i uwchraddio cyfleusterau ac offer, ynghyd â mynd i'r afael ag ôl-groniad gwerth £1.5m o waith cynnal a chadw sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei wella'n rheolaidd trwy gydol cyfnod y contract.

Strategaeth Datblygu Sefydliadol

- Mae'r Cyngor wedi cynnal a gwella darpariaeth gwasanaethau Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol strategol o fewn model gweithredu newydd a llai o adnoddau. Mae'r Gwasanaeth wedi arwain y gwaith o recriwtio uwch reolwyr yn llwyddiannus. Mae wrthi'n gweithredu rhaglen i adolygu a darparu polisïau Adnoddau Dynol. Cyflawnwyd dyfarniad cyflog ar gyfer 2019/20 ac mae Rhaglen Buddion i Gyflogeion newydd wedi cael ei datblygu a'i chyflwyno.

- Mae Strategaeth Datblygiad Sefydliadol y Cyngor yn elfen allweddol o raglen *Abertawe Gynaliadwy – yn Addas i'r Dyfodol* i sicrhau bod gan y Cyngor weithlu sydd â'r sgiliau priodol ar gyfer Cyngor y dyfodol. Mae'r strategaeth yn ymgorffori dull gweithredu 'digidol yn gyntaf', sy'n ceisio sicrhau bod gan y gweithlu a phreswylwyr y sgiliau a'r hydel sy'n ofynnol i gyrchu sianelau trwy gyfrwng technoleg newydd (gan sicrhau hefyd bod sianelau traddodiadol yn dal ar gael i'r bobl fwyaf bregus) a sichau bod gan y gweithlu y gwerthoedd a'r ymddygiad priodol sy'n ofynnol ar gyfer y Cyngor yn y dyfodol.

- Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i ddileu'r defnydd o ddetholusrwydd mewn contractau dim oriau yn yr Awdurdod. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gontractau dim oriau yn eu lle yng Nghyngor Abertawe; fodd bynnag, mae rhagor o waith yn digwydd o ran comisiynu gwasanaethau a chontractau ar dendr er mwyn dileu contractau dim oriau yn y gadwyn gyflenwi.

Cynrychiolwyr Cyfartaledd

- Er mwyn sicrhau bod Cyfartaleddau yn cael eu hintegreiddio'n well ym musnes craidd y Cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo, mae adrannau bellach yn cyfrannu llawer iawn rhagor at sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae rhwydwaith o gynrychiolwyr Cydraddoldeb o adrannau o bob rhan o'r Cyngor wedi cael ei sefydlu er mwyn cynorthwyo a meithrin gallu i integreiddio gwaith yn ymwneud â Chyfartaleddau. Diben y grŵp hwn yw gwella ymwybyddiaeth o anghenion a safbwyntiau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn y Cyngor trwy gyfrwng eu meysydd gwasanaeth a'u hadrannau.

- Bydd y grŵp yn gweithredu i nodi unrhyw faterion ynghylch cydraddoldeb a bydd yn cynorthwyo i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae rhai aelodau o'r grŵp wedi cael hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth, hyfforddiant penodol ynghylch ymwybyddiaeth o anableddau, a gwybodaeth am GDPR mewn perthynas â monitro cydraddoldeb. Mae'r grŵp hefyd wedi cael cyfarfod gyda chynrychiolwyr sefydliad sy'n cynorthwyo oedolion sydd ag anableddau dysgu i drafod sut i gynhyrchu dogfennau'r Cyngor ar ffurf sy'n Hawdd ei Ddarllen. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, â chymorth Cyngor Abertawe, wedi caffael hyfforddiant ar gyfer staff a phartneriaid allweddol ynghylch fersiynau Hawdd eu Darllen a Saesneg Clir o ddogfennau ac adroddiadau yn Ionawr 2019.

Caffael cynaliadwy i sicrhau buddion i'r economi leol a'r gymuned leol

- Yn ystod 2018/19, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi tendrau am nifer fawr ac ystod eang o gontractau. Yn ystod 2018-19, mae cymalau budd cymunedol wedi cael eu hymgorffori mewn gwaith sy'n gysylltiedig â Bargen Dinas Bae Abertawe, y Rhaglen Buddsoddiadau Isadeiledd wedi'u Targedu, Gwaith Copr Hafod Morfa, ysgolion yr 21ain ganrif, a llawer o brosiectau cyfalaf eraill. Mae cymalau budd cymunedol hefyd wedi cael eu hymgorffori mewn gwasanaethau a gomisiynir gan y Cyngor, megis Gofal Cymdeithasol a Thai. Ers sefydlu rhaglen allweddol y Cyngor ar gyfer sicrhau buddion cymunedol mewn perthynas â hyfforddiant a chyflogaeth (Y Tu Hwnt i Frics a Mortar) dros 10 mlynedd yn ôl, mae'r Cyngor wedi gosod dros 190 o gontractau â buddion cymunedol ac wedi sicrhau mwy na 150,000 o wythnosau o hyfforddiant.

- Yn ystod 2018-19, fe wnaeth y Cyngor hefyd fabwysiadu menter a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi (gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o Undebau Llafur) i geisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol ym meysydd caffael a chadwyni cyflenwi, e.e. rhoi terfyn ar gaethwasiaeth fodern. Fe wnaeth pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol hefyd archwilio rhwystrau i gyflenwyr lleol sicrhau contractau'r Cyngor a llywio newidiadau dilynol i reolau gweithdrefn contractau'r Cyngor er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau hyn.

Parhau i sefydlu strategaeth "Digidol yn Gyntaf"

- Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflwyno ei ddull gweithredu Digidol yn Gyntaf. Yn ystod 2018/19 datblygodd y Cyngor Strategaeth Cynhwysiant Digidol ac fe'i hachredwyd ag ardystiad Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus a gwobr 'arian' Cyber Essentials Plus. Mae dros 100 o brosiectau TGCh wedi bod yn cael eu datblygu yn ystod 2018/19. Mae canlyniadau ac effaith allweddol wedi cynnwys cyflwyno adnoddau Office 365 yn ddigidol i gefnogi gweithio hyblyg a darparu system Rheoli Perthnasoedd â Chwsmeriaid newydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu gwefan ddiogel ynghylch gofal plant am ddim, ap digidol i gefnogi'r Gwasanaeth Fleetwheel ac ap digidol ynghylch Ailgylchu.

- Mae isadeiledd TGCh craidd y Cyngor wedi cael ei wella ac wedi cynyddu. Mae gweithredu systemau digidol newydd mewn gwasanaethau wedi gwella prosesau ac wedi lleihau costau trwyddedu, e.e. ar gyfer gwirio a dilysu anfonebau cartrefi gofal. Rydym yn gweithio'n rhanbarthol ac ar draws Cymru i weithredu'r Grant Buddsoddi Ysgolion ar gyfer Digidol a system gofal cymdeithasol ac iechyd integredig Cymru gyfan.

- Mae Tîm Gwe'r Cyngor wedi helpu i hyrwyddo ymgyrchoedd cydraddoldeb ar draws y cyngor, gan gynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, y rhaglen Cydlyniant Cymunedau a Gŵyl Ddysgu gyntaf Abertawe. Mae Tîm Gwe'r Cyngor hefyd wedi datblygu tudalennau ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol Abertawe ac wedi parhau i gydweithio â Safonau Cyfathrebu a Masnachu i wella ymwybyddiaeth staff a thrigolion Abertawe am beryglon sgiamiau. Darperir gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd gan y Swyddog Diogelwch Gwybodaeth i staff ynghylch sut i amddiffyn eu data eu hunain a data ein defnyddwyr gwasanaethau ar-lein ac oddi ar-lein.

Hybu cynhwysiant digidol

- Yn ystod 2018/19, mae'r Cyngor wedi hyrwyddo cyrsiau cyfrifiaduron a chyfrifiaduron llechen am ddim i ddechreuwyr yn Abertawe, a chyflwynwyd y cyrsiau gan diwtoriaid Dysgu Gydol Oes. Mae'r cyrsiau wedi darparu cyflwyniad sylfaenol ynghylch defnyddio dyfais a chyrchu'r rhyngrwyd ac maent yn darparu gwybodaeth ynghylch sut i gadw data personol ac ariannol yn ddiogel. Rhan bwysig o'r cwrs yw addysgu mynychwyr sut i gael gafael ar fargeinion arbed arian sydd ar gael ar-lein yn unig; er enghraifft, newid darparwr ynni, sy'n cyfrannu at agenda trechu tlodi'r Cyngor. Yn ystod 2018/19, fe wnaeth 454 o bobl fynychu cyrsiau, sy'n fwy na'r targed o 440. Ar hyn o bryd, ystyrir bod y perygl o allgáu digidol yn isel yn Abertawe.

**Astudiaeth Achos 2: Cyrsiau am ddim yn helpu pobl i wneud y mwyaf o we-ddyfeisiau'r Nadolig**

**Fe wnaeth pobl a gafodd ddyfeisiau megis cyfrifiaduron llechen Android, iPads a chyfrifiaduron fel anrhegion Nadolig yr oedd angen help arnynt wrth ddysgu sut i wneud y mwyaf ohonynt ymuno ag un o'r cyrsiau am ddim a gafodd ei eu rhedeg gan Gyngor Abertawe.** Yn ystod 2018 mae cannoedd o bobl wedi rhoi cynnig ar ddarganfod manteision y we am y tro cyntaf gyda chymorth cyrsiau am ddim Dewch Ar-lein Abertawe. Er bod y we'n rhan bob dydd o fywydau'r mwyafrif o drigolion yn Abertawe, erys miloedd o bobl nad ydynt ar-lein sy'n colli'r cyfle i gael bargeinion rhad o ran gwyliau a chadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu.. Mae pob cwrs yn rhad ac am ddim ac yn para pum sesiwn. Mae adborth o sesiynau hyd yn hyn yn dangos bod dros 90% o gyfranogwyr yn bwriadu defnyddio'r we i gael mynediad at hobïau a diddordebau a'u datblygu, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu a chael mynediad at wasanaethau'r cyngor, gyda llawer rhagor yn awyddus i ddefnyddio'u sgiliau newydd i fanteisio ar gynigion ar-lein. Dywedodd Elaine Connors, a oedd wedi cwblhau cwrs, bod y cwrs wedi bod yn ddefnyddiol iawn, oherwydd pan ddechreuodd hi, nid oedd hi erioed wedi gafael mewn cyfrifiadur llechen, ond roedd hi bellach yn mynd ati'n hyderus i ddod yn gyfarwydd â'i alluoedd. Ychwanegodd Pamela Mackenzie: *"Byddwn i'n argymell y dylai unrhyw un sydd newydd gychwyn defnyddio cyfrifiaduron llechen fynychu un o'r cyrsiau hyn cyn gynted ag y bo modd yn hytrach na straffaglu a methu elwa'n llawn ar yr holl nodweddion sydd ar gael."*

Archwilio cyfleoedd i gydweithredu ag eraill er mwyn arbed costau a gwella gwasanaethau i ddinasyddion.

- Mae'r Cyngor wedi parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ac wedi chwarae rhan weithredol mewn cydweithrediadau rhanbarthol ar gyfer Addysg (ERW), Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Morgannwg) a Datblygu Economaidd (Bargen Dinas Bae Abertawe). Yn ychwanegol, mae'r Cyngor wedi cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol eraill i ddarparu crynodeb o wasanaethau a rennir presennol ledled Cymru a llywio trafodaethau am ddyfodol Diwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn parhau i archwilio opsiynau ar gyfer rhannu gwasanaethau swyddfa gefn, gan gynnwys gwasanaethau cyfreithiol ac ariannol.

Cydweithredu a gwaith partneriaeth â'r trydydd sector a'r sector preifat

- Lansiwyd Compact y Cyngor â'r trydydd sector yn llwyddiannus yn ystod 2018/19. Mae Cronfa Compact Abertawe yn rownd cyllid agored un flwyddyn i alluogi trosglwyddo o Gronfa Newid Abertawe i raglen ariannu wedi'i chomisiynu, â rownd agored fechan ar agor i bob grŵp o'r Trydydd Sector. Nid yw'r cyllid yn gysylltiedig â'r Gronfa Newid flaenorol - er bod rhai o'r ymgeiswyr wedi cael cymorth y gronfa o'r blaen, mae'r holl grwpiau wedi cael gwybod yn ystod y tair blynedd diwethaf y bydd y gronfa Newid yn dod i ben ac wedi cael digon o amser i gynllunio strategaeth ymadael. Mae'r gwaith yn dechrau ar ffurfio Grŵp Cyswllt â'r Trydydd Sector, a fydd yn bwrw ymlaen â thrafodaethau yn ymwneud â phynciau cychwynnol ynghylch ffocws, cyllid a chontractau.

Perchnogaeth gymunedol ar asedau a gwasanaethau i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.

- Ar hyn o bryd, ceir 29 o Grwpiau Cyfeillion gweithredol yn Abertawe. Yn ystod 2018/19, sefydlwyd 11 o grwpiau newydd. Mae'r cyngor wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth i helpu'r grwpiau newydd a datblygwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth i helpu â cheisiadau am gyllid. Yn ychwanegol, ar hyn o bryd, ceir 38 Canolfan Gymunedol â phwyllgorau rheoli gwirfoddol, 19 cae pêl-droed hunanreoledig ac 16 o lawntiau bowlio. Mae gweithgaredd yn y dyfodol yn cynnwys trosglwyddo asedau Parc Coed Gwilyn i fodel partneriaeth Cyngor Cymuned/grŵp Cyfeillion a dau fodel canolfan gymunedol newydd, Parc Y Werin a Chanolfan Ddarganfod a Pharc Brynmill. Er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran cydweithio â chymunedau a galluogi rhagor o berchnogaeth ar asedau a gwasanaethau, mae heriau'n parhau o ran adnoddau staff, cymorth o ansawdd ac arweiniad i'r grwpiau cymunedol sydd newydd eu sefydlu.

**Astudiaeth Achos 3: Gwirfoddolwyr yn sicrhau £100,000 ar gyfer cynlluniau cyffrous mewn Parc yn y Ddinas**

**Mae gwirfoddolwyr ymroddedig lleol sy'n neilltuo eu hamser am ddim i wella parc yn Abertawe wedi sicrhau bron £100,000 er mwyn darparu cyfleusterau newydd ac i wneud gwelliannau.** Mae Cyfeillion Parc Briallu wedi cyflwyno cais llwyddiannus i WREN am gyllid ar gyfer ardal gemau amlddefnydd, gan gynnwys arwyneb chwaraeon pob tywydd, llwybr cerdded a chadw'n heini, llithren sip ddwbl a gwelliannau tirweddol. Bydd y cyfleusterau newydd yn darparu gweithgareddau i bobl o bob oedran o Lansamlet a bydd yn helpu'r Cyfeillion i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r parc. Mae'r grŵp cymunedol, a sefydlwyd gan breswylwyr lleol ddwy flynedd yn ôl, wedi arwain y ffordd i sefydlu partneriaeth â Chyngor Abertawe er lles y parc. Diolch i'r gwirfoddolwr, mae'r parc eisoes yn cynnwys ardal chwarae newydd i blant sy'n addas at y diben ac yn disodli'r hen un a oedd mewn cyflwr truenus, gardd synhwyraidd gwely uchel ac ardal bicnic i deuluoedd yn ogystal ag arddangosfeydd blodau a llwyni newydd lle nad oedd rhai o'r blaen. Mae grwp y Cyfeillion wedi

cynnal arolwg, wedi cael cyfarfod gyda phreswylwyr ac wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus i ganfod beth hoffai pobl ei gael nesaf. Ar ôl cael rhywfaint o arian cyfatebol gan aelodau o Gyngor Abertawe sy'n cynrychioli'r ward leol, fe wnaethant anfon cais at WREN, sy'n gweinyddu Cronfa Gweithredu Cymunedol FCC er budd prosiectau trwy law y Gronfa Cymunedau Tirlenwi.
Dywedodd Adil Pirmohamed o Gyfeillion Parc Briallu: *"Rydym yn falch bod ein cais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus ac rydym yn ddiolchgar iawn i WREN, ein cynghorwyr sy'n cynrychioli'r ward leol sydd wedi bod yn allweddol i'r llwyddiant hwn a Chyngor Abertawe, sydd wedi cefnogi ein cais.*
Talodd y Cynghorydd Mark Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Abertawe dros Wasanaethau'r Amgylchedd, deyrnged i'r gwirfoddolwyr. Ychwanegodd: *"Mae grwpiau ffrindiau'n chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu a gwella cyfleusterau cymunedol ar draws Abertawe ac mae'r rheiny sy'n rhoi o'u hamser ym Mharc Briallu'n ysbrydoliaeth. Hoffwn longyfarch yr aelodau sy'n cynrychioli'r ward hefyd, am gefnogi'r prosiect hwn â'u lwfansau ar gyfer eu ward. Bydd y prosiect hwn yn cael effaith enfawr ar y gymuned leol."*

Cyllidebau cymunedol a blaenoriaethau lleol.

- Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau bod cyllidebau cymunedol ar gael fel y gall pobl leol a'u cynrychiolwyr benderfynu ar flaenoriaethau cymunedol. Yn ddiweddar, adolygwyd y polisi ar gyllidebau cymunedol Cynghorwyr ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi'r mesurau lleol sy'n flaenoriaeth i Gynghorwyr unigol a'u cymuned leol ond nad ydynt yn cael eu hariannu gan gyllidebau eraill y Cyngor. Mae cyllid wedi cael ei ddefnyddio i: gychwyn a chefnogi prosiectau cymunedol i wella iechyd a lles; gwella tir sy'n eiddo i'r Cyngor a/neu hawliau tramwy cyhoeddus; a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a diogelwch cymunedau. Mae rhagor o waith yn digwydd i symleiddio'r broses a gwella cyfathrebu ynghylch y cynllun.

Cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a phenderfyniadau'r Cyngor

- Mae'r Cyngor yn parhau i foderneiddio cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Yn ystod 2018/19, mae bron i hanner yr holl gyfarfodydd craffu wedi cynnwys arsylwyr o blith y cyhoedd ac mae traean o'r cyfarfodydd wedi ennyn sylw yn y cyfryngau. Mae'r arbrawf ynghylch darlledu ar-lein wedi cychwyn ers tro a bydd anawsterau bychan yn cael eu datrys pan fyddant yn dod i'r amlwg. Yn anffodus, mae e-bleidleisio wedi'i ohirio oherwydd anawsterau â Siambr restredig y Cyngor a chyfyngiadau costau. Gellir cyflwyno e-Ddeisebau fel rhan o Fil Democratiaeth sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru ac mae'r Cyngor wedi gofyn i'w ddarparwr meddalwedd fod yn barod am hyn pe bai'n cael ei gyflwyno.

Cryfhau'r Gymraeg a gwasanaethau ieithyddol.

- Mae'r Uned Cyfieithu i'r Gymraeg a Chwynion wedi bod yn ystyried dulliau newydd o weithio a dulliau o gydweithio er mwyn cyflawni cyfanswm heriol o waith. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei drydydd Adroddiad Blynyddol ynghylch y Gymraeg, gan amlinellu'r cynnydd da a wnaed wrth barhau i weithredu safonau'r Gymraeg. Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu hyfforddiant dysgu Cymraeg i'w staff a'u cyfeirio at gyrsiau o'r fath, ac maent yn amrywio o gyrsiau sylfaenol ar-lein i gyrsiau achrededig ar lefel uwch. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor yn parhau i gofnodi sgiliau iaith Cymraeg staff a chynnal cyfeirlyfr o staff ar draws yr holl feysydd gwasanaeth sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng Cymraeg. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith Gymraeg a chefnogi dysgwyr trwy sefydlu rhannau dynodedig o'r Ganolfan Ddinesig a Neuadd y Ddinas i siaradwyr Cymraeg ymarfer eu sgiliau sgwrsio a magu hyder wrth ddefnyddio'r iaith mewn amgylchedd busnes.

Cyd-gynhyrchu.

- Mae datblygiad Fframwaith Strategol Cyd-gynhyrchu Corfforaethol ar y gweill yn dilyn gweithdy gan bwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol y Cyngor. Bydd y Fframwaith Strategol Cyd-gynhyrchu Corfforaethol yn cyd-fynd â Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor, sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Mae Gwasanaethau Oedolion wedi mabwysiadu dull cyd-gynhyrchiol o adolygu a dylunio modelau gwasanaeth newydd gan gynnwys Oedolion ag Anableddau Dysgu a Thaliadau Uniongyrchol.

**5. Sut mae'r Amcan Lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau lles cenedlaethol.**

- *Cymru ffyniannus* – Cynorthwyo a hyfforddi gweithlu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau wedi'u trawsnewid sy'n darparu'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy i breswylwyr.
- *Cymru Wydn* - Parhau â rhaglen moderneiddio *Abertawe Gynaliadwy – yn Addas i'r Dyfodol*, er mwyn gweddnewid gwasanaethau, sicrhau deilliannau gwell i breswylwyr a chyflawni cynaliadwyedd ariannol gan leihau'r ôl troed carbon.
- *Cymru Iachach* – Annog mwy o berchnogaeth gymunedol ar barciau a chydweithio â sefydliadau 'cyfeillion parciau' i sicrhau cynaliadwyedd a rheolaeth hirdymor parciau a lleoedd cyhoeddus.
- *Cymru fwy cyfartal* - Darparu'r cyfle i ddinasyddion lleol ddylanwadu ar sut caiff polisïau eu hysgrifennu a sut caiff gwasanaethau eu darparu trwy ddatblygu dull cyd-gynhyrchu ac ymrwymiad Abertawe.
- *Cymru â Chymunedau Mwy Cydlynol* - Sicrhau bod cyllidebau cymunedol ar gael fel y gall pobl leol benderfynu ar y cyd â'u cynrychiolwyr beth yw eu blaenoriaethau lleol.
- *Cymru â diwylliant bywiog ble mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu* - Parhau i gryfhau'r gwasanaeth cyfrwng Cymru a gwasanaethau iaith a gynigir yn gyffredinol gan y Cyngor trwy ddarparu hyfforddiant ieithyddol sylfaenol ar gyfer staff rheng flaen.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar y lefel fyd-eang* - Parhau i foderneiddio cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a phenderfyniadau'r Cyngor trwy gynnal cyfarfodydd ar amseroedd cyfleus, darlledu ar-lein, pleidleisio electronig ac e-ddeisebau.

**6. Y gwersi a ddysgwyd a meysydd y dylid eu datblygu**

Abertawe Gynaliadwy – Cyngor sy'n Addas i'r Dyfodol

- Gwnaed cynnydd da wrth gyflawni'r rhaglen, â'r Adolygiadau Comisiynu yn benodol yn cyflawni newid sylweddol a dulliau newydd o weithio ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, erys heriau o hyd o ran gweithredu'r newidiadau radical yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni busnes, newid diwylliannol a gwireddu'r holl gynigion ynghylch arbedion yng nghyd-destun Cynllun Ariannol Tymor Canolig ehangach y Cyngor.

Strategaeth Datblygu Sefydliadol

- Lluniwyd Strategaeth Datblygu Sefydliadol y Cyngor i sicrhau bod gan y Cyngor weithlu sy'n addas at y dyfodol. Mae'r strategaeth yn rhan hanfodol o raglen trawsnewid a newid y Cyngor. Mae heriau'n bodoli o ran sicrhau bod digon o adnoddau ar gael a'r gallu i gefnogi hyfforddiant ffurfiol ac e-ddysgu a newid mewn diwylliant i sicrhau bod gan staff a thrigolion y sgiliau a'r gwerthoedd priodol ar gyfer Cyngor y Dyfodol.

Parhau i sefydlu strategaeth “Digidol yn Gyntaf”

- Mae’r Cyngor yn parhau i gyflwyno ei Strategaeth Digidol yn Gyntaf, sydd wedi galluogi dulliau newydd o weithio a modelau newydd o ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae’n rhaid i'r Cyngor barhau i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb a darparu hyfforddiant, cymorth a dulliau amgen o gyrchu gwasanaethau i bobl fregus y mae arnynt angen cymorth ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau a/neu’r sawl sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Archwilio cyfleoedd i gydweithredu ag eraill er mwyn arbed costau a gwella gwasanaethau i ddinasyddion.

- Mae'r Cyngor yn parhau i gydweithio ag eraill i wella effeithlonrwydd, lleihau costau a gwella gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r olion traed daearyddol rhanbarthol gwahanol a'r datblygiadau sy’n digwydd mewn perthynas ag ad-drefnu llywodraeth leol yn dal i fod yn her o ran sicrhau bod datblygiadau'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Perchnogaeth gymunedol ar asedau a gwasanaethau i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.

- Mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cynorthwyo grwpiau cymunedol i redeg rhai asedau a gwasanaethau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn nifer y grwpiau a lefel y cymorth y mae ei angen gan y Cyngor, yn enwedig gyda grwpiau sydd newydd eu ffurfio, yn heriol i'r Cyngor ei gynnal yn y tymor hir.

Cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a phenderfyniadau’r Cyngor

- Mae’r Cyngor wedi arbrofi’n llwyddiannus â darlledu ar-lein ar gyfer rhai o gyfarfodydd y Cyngor. Fodd bynnag, mae rôl ehangach darlledu ar-lein, pleidleisio electronig ac e-ddeisebau yn dibynnu ar ragor o gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru.

Cynnal a gwella **Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth Abertawe**

## 1. Pam mae hwn yn Amcan Lles

- Abertawe yw un o'r siroedd mwyaf cyfoethog ac amrywiol yn ecolegol yn y DU. Mae angen cynnal, gwella a rheoli ei amrywiaeth unigryw o gynefinoedd a rhywogaethau a'i ystod hyfryd o barciau, lleoedd gwyrdd, gwarchodfeydd natur, traethau a thirweddau er budd pawb nawr ac i'r dyfodol.
- Mae ein goroesiad a'n hansawdd bywyd yn y dyfodol yn dibynnu ar amgylchedd naturiol gwydn iach a'r buddion niferus y mae'n eu darparu i gymdeithas.
- Mae ein hamgylchedd naturiol a'n bioamrywiaeth dan fygythiad ac yn dirywio oherwydd gweithgareddau dynol anghynaladwy. Mae cynefinoedd a rhywogaethau yn cael eu colli ar raddfa frawychus ac anghynaladwy.
- Mae angen i ni fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ar frys trwy leihau ein defnydd o garbon a thrwy gynnal a gwella ecosystemau cydnerth a rhwydwaith isadeiledd gwyrdd cryf i'n helpu i liniaru ac addasu yn unol â phwysau'r hinsawdd.
- Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (nod Cymru Wydn) i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth a chynnal ecosystemau cydnerth, a hysbysu Llywodraeth Cymru am ein cynnydd.
- Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i gynnal a gwella bioamrywiaeth ar draws ei holl wasanaethau, lleihau ei ôl troed carbon a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol, a thrwy hynny sicrhau budd i iechyd a lles.
- Dengys tystioaleth bod cyswllt â natur yn cynnig buddion sylweddol o ran iechyd corfforol a meddyliol pobl.
- Mae ein ffyniant a'n lles yn y dyfodol yn dibynnu ar amgylchedd naturiol gwydn ac iach.
- Mae angen i ni gydweithio â natur i wella ansawdd ein haer, ein dŵr a'n priddoedd.
- Rydym ni'n dymuno i bawb ddeall a gwerthfawrogi gwerth a breuder unigryw amgylchedd naturiol rhagorol Abertawe a gwneud eu cyfraniad at ofalu amdano a'i wella.
- Ein huchelgais yw sicrhau bod pawb yn Abertawe yn cael mynediad at amgylchedd naturiol ecolegol amrywiol, deniadol, sydd wedi'i reoli'n dda ac yn wydn, ac elwa ohono.
- Rydym yn dymuno atal a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth fel na chaiff ei chyfraniad at les economaidd a chymdeithasol Abertawe ei golli na'i leihau.
- Ein nod yw creu sir wyrddach, fwy cynaliadwy, amrywiol yn ecolegol a gwydn, y mae ei hamgylchedd naturiol unigryw yn cael ei gydnabod fel un o'i hasedau mwyaf gwerthfawr a mwyaf nodedig.
- Mae gennym ni gyfrifoldeb moesol i ofalu am fioamrywiaeth i gynnal y gwerth cynhenid sydd ganddo.
- Yr heriau tymor hirach y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.
- Atal a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth trwy leihau niwed a defnydd anghynaladwy a symud i sefyllfa lle byddwn yn cydweithio â natur i gynnal ecosystemau gwydn iach a fydd yn parhau i ddarparu buddion ansawdd bywyd tymor hir (neu wasanaethau ecosystem) y mae pawb ohonom ni yn dibynnu arnynt.
- Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, sy'n un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu pawb ohonom ni, ac mae angen i ni weithio gyda natur i leihau ein hôl troed carbon ac i liniaru ac addasu i'r risgiau a'r effeithiau tebygol.
- Creu swyddi gwyrdd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n gyfrifol o safbwynt amgylcheddol ac sy'n gwneud y gorau o'n hadnoddau naturiol unigryw e.e. trwy dwristiaeth amgylcheddol, rheoli tir yn gynaliadwy yng nghefn gwlad a diwydiannau a chrefftau morol.

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd a lles trwy gynnal a gwella amgylchedd naturiol hygyrch o ansawdd uchel ar draws y sir gyfan, ac annog rhagor o ddefnydd o dir mynediad cyhoeddus fel parciau, gwarchodfeydd natur, tiroedd comin a choedwigoedd.

**2. Y camau y dywedom ni y byddem yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r Amcan Lles hwn**

- Datblygu, mabwysiadu a gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol (Adran 6).
- Cydweithio â phartneriaid i ddatblygu a chyflawni Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer Abertawe.
- Datblygu a mabwysiadu polisi coed y Cyngor.
- Cychwyn mapio asedau Isadeiledd Gwyrdd a darpariaeth gwasanaethau ecosystemau sydd eisoes yn bodoli, a nodi meysydd sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i sicrhau gwelliant.
- Cynnal archwiliad bioamrywiaeth rhagarweiniol o dir sy'n eiddo i'r Cyngor a lle bo modd, rheoli ein hasedau corfforaethol er budd bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a gwella cysylltedd ecolegol.
- Gweithio tuag at greu economi carbon isel, sy'n hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac yn cymryd camau i leihau ein hôl troed carbon.
- Parhau i gyfranogi ym Menter Abertawe Carbon Isel a'i chefnogi.
- Cefnogi mentrau a wnaiff gynyddu gorchudd coed trefol Abertawe.
- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol trwy ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a digwyddiadau.
- Darparu cyfleoedd i blant ysgolion gyrchu eu hamgylchedd naturiol a dysgu amdano.
- Gweithio i wella mynediad at ein parciau a'n mannau gwyrdd a chynnal eu hansawdd.
- Parhau i gyflawni rhaglen plannu a rheoli blodau gwyllt.
- Trafod â chymunedau lleol i annog gwirfoddoli a'u cynorthwyo i weithredu er mwyn gwella a chynnal eu lleoedd gwyrdd a'u safleoedd bywyd gwyllt lleol.
- Cymryd camau sy'n helpu i reoli rhywogaethau estron ymledol.
- Ymgymryd â gwelliannau (dethol neu wedi'u targedu) i fannau gwyrdd fel rhan o raglen gwaith amgylcheddol i gyflawni ein hymrwymiad i Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Lleihau ein defnydd o gynhyrchion a deunyddiau na ellir eu hailgylchu, ac ailgylchu rhagor o wastraff.

**3. Beth yn union fydd llwyddiant**

- Cydnabyddir bod asedau naturiol rhagorol Abertawe yn sail i iechyd, lles a llwyddiant ei dinasyddion. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol a sut y gallwn ei gynnal ac ychwanegu ato yn cael eu gwella a'u cynhwyso. Mae hyn yn helpu i ddinasyddion elwa o wasanaethau ecosystem a'r cyfleoedd a gynigir gan economi carbon isel. Gwerthfawrogir a chynorthwyir coed a chynefinoedd eraill. Caiff bioamrywiaeth ei gynnal a'i wella, mae ein hôl troed carbon wedi lleihau, defnyddir llai o adnoddau ac ailgylchir rhagor o wastraff.

**4. Camau i wneud cynnydd i fodloni'r Amcan Lles hwn – beth lwyddodd**

*Fel blaenoriaeth newydd a fabwysiadwyd ganol blwyddyn ym mis Hydref 2018, mesurir llwyddiant nid yn unig trwy allbynnau perfformiad a gyflwynwyd yn 2018/19 ond yn ôl y gwaith a wnaed a'r pellter a deithiwyd i alluogi'r Cyngor i adrodd ar lwyddiant yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn datgan y dylai adroddiadau ffurfiol gychwyn yn 2019/20.*

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol.

- Mae'r gwaith o ddatblygu llywodraethu a fframweithiau i gefnogi paratoi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol tair blynedd i'w fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2019 wedi dechrau. Bydd y cynllun hwn yn ceisio atal colli bioamrywiaeth, hyrwyddo ecosystemau gwydn iach a chryfhau isadeiledd gwyrdd i hwyluso addasu a lliniaru ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd yn sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol ynghyd â'r buddion a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn cael eu gwarchod er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

- Mae Gweithgor Bioamrywiaeth corfforaethol wedi'i sefydlu i gydlynu, gweithredu, monitro ac adolygu'r Cynllun Gweithredu tair blynedd. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith sylweddol a wnaed eisoes ar draws y sefydliad i ofalu am ein hamgylchedd a bydd yn galluogi holl Wasanaethau'r Cyngor i fod yn fwyfwy uchelgeisiol yn y ffordd y maent yn ymgysylltu â'n hadnoddau naturiol yn y dyfodol.

Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd

- Mae isadeiledd gwyrdd yn cynnwys yr holl fannau gwyrdd, y pridd, y llystyfiant a’r dŵr sy’n gwneud ein dinasoedd yn fannau ble mae bywyd yn werth ei fyw. Rydym wedi bod yn datblygu Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer prosiect canol dinas Abertawe a fydd yn creu, yn cysylltu ac yn gwella ardaloedd o fannau gwyrdd gan wneud y ddinas yn fwy bioamrywiol ac yn gallu gwrthsefyll effeithiau’r newid yn yr hinsawdd a gwella natur. Mae gwella aml-swyddogaeth a chysylltedd lleoedd gwyrdd trefol yn helpu i wella iechyd a lles pobl a bywyd gwyllt. Bydd glasu Canol y Ddinas hefyd yn gwella ffyniant trwy annog ymwelwyr i aros yn hirach a mwynhau arlwy canol y ddinas.

- Mae Pecyn Cymorth Ffactor Mannau Gwyrdd yn cael ei ddatblygu a fydd yn helpu datblygwyr i gynyddu ansawdd eu heffaith werdd i'r eithaf; er enghraifft, trwy ddylunio mewn waliau gwyrdd a thoeau gwyrdd. Lluniwyd yr adnodd i fesur athreiddedd felly gellir ei ddefnyddio i helpu cynlluniau i fodloni safonau Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) statudol newydd.

- Mae'r weledigaeth a'r strategaeth yn cael eu llywio gan leisiau preswylwyr a defnyddwyr Canol y Ddinas, gan gynnwys lleisiau'r genhedlaeth nesaf. Mae sawl digwyddiad cynnwys rhanddeiliaid a gweithgareddau ymgynghori â’r cyhoedd wedi cael eu cynnal ar y cyd â’n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Cynhaliwyd dros 600 o sgyrsiau wyneb yn wyneb ag aelodau’r cyhoedd yn Ardal Abertawe Ganolog er mwyn datblygu gweledigaeth y strategaeth.

- Mae gwaith wedi cychwyn ar strategaeth isadeiledd gwyrdd ledled y sir, a fydd yn cael ei pharatoi ochr yn ochr â Chanllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Isadeiledd Gwyrdd i gynnal a chadw a gwella'r Isadeiledd Gwyrdd trwy'r broses gynllunio.

- Mae canlyniadau ymarferol hefyd wedi'u cyflawni ac mae sawl prosiect arddangos isadeiledd gwyrdd wedi'u cynnal. Mae’r rhain yn cynnwys cynlluniau plannu coed trefol a wnaed ar y cyd â Trees for Cities. Mae gwelliannau Isadeiledd Gwyrdd amlswyddogaethol yn cynnwys gwelliannau mynediad, plannu coed ac arddangosfeydd blodau gwyllt a gynhaliwyd ym Mharc Brynmelyn, Pyllau Golchi Mayhill a thir yn Ysgubor Fach a Llangyfelach. Mae prosiect Mannau Gwyrdd Cymunedol Fforwm Amgylcheddol Abertawe wedi parhau i gynorthwyo cymunedau i wella a rheoli mannau gwyrdd lleol

Polisi Coed y Cyngor

- Mae Polisi Coed y Cyngor wrthi'n cael ei ddrafftio, a bydd yn nodi sut y bydd y Cyngor yn rheoli ac yn cynnal ei goed ei hun, coed gwarchodedig a choed sy'n eiddo i berchnogion preifat. Nod y polisi coed hwn yw: cynnal ac ehangu gorchudd coed; codi ymwybyddiaeth o werth coed; sicrhau bod risgiau o goed yn cael eu rheoli'n ddigonol; gwarchod coed o werth a sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau bioamrywiaeth mewn perthynas â choed. Mae gan y Cyngor 900 o goetiroedd a grwpiau coetiroedd sy'n cynnwys cyfanswm amcangyfrifedig o 250,000 o goed a 38,000 o goed unigol wedi'u mapio a'u harolygu mewn Parciau, Ysgolion, Mynwentydd, Tir Tai a Phriffyrdd.

- Yn bwysig, yn ogystal â'r cydymffurfiad a ddisgwylir gan wasanaethau'r Cyngor, mae'r polisi hefyd yn codi ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau'r cyhoedd ac yn annog "perchnogaeth" o blannu a rheoli coed. Mae'r polisi coed yn cyd-fynd â pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol i amddiffyn coed ac annog plannu.   Mae'n cynnwys yn benodol plannu coed i greu cysylltiadau rhwng cynefinoedd presennol ac wrth greu 'Place' yn enwedig ble mae cymdogaethau newydd yn cael eu datblygu.

- Yn ogystal â darparu cofrestr o golledion/enillion coed ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, bydd y gwaith yn y dyfodol yn cynnwys mapio ardaloedd addas ar gyfer plannu coed ar dir y cyngor a gosod targedau ar gyfer plannu.

Mentrau Gorchudd Coed Trefol

- Mae tua 18.8% o'r Sir wedi'i gorchuddio gan ganopi coed o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 16.8%. Mae'r gorchudd canopi coed yn ardaloedd trefol Abertawe yn 19.8% (yn seiliedig ar ffigurau Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae'r Cyngor wedi gweithio i wella gweithdrefnau gorfodi yn erbyn troseddau bywyd gwyllt ac ar gyfer cwympo coed/cwympo coed yn anghyfreithlon os ydynt yn destun Gorchymyn Diogelu Coed. Mae hefyd wedi lobio am gosbau mwy am dorri coed yn anghyfreithlon.

- Mae nifer sylweddol o goed yn debygol o gael eu cwympo dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd clefyd (Chalara) coed ynn - clefyd sy'n dinistrio coed ynn ac nad oes gwellhad iddo. Mae hyn yn golygu bod plannu coed newydd yn fwyfwy pwysig. T Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â phartneriaid megis Glastir a Coeden Fach, meithrinfa leol, nid er elw, lle mae gwirfoddolwyr yn helpu i feithrin coed cynhenid. Mae hefyd wedi cefnogi plannu coed trwy bartneriaethau i gydweithio â Fforymau Coed Abertawe, Coed Cymru, Coed Cadw, Trees for Cities ac eraill.

- Mae rhydweli werdd yn cael ei chreu yng Nghanol y Ddinas â nifer o fannau gwyrdd sy'n cynnwys coed wedi'u hintegreiddio o fewn cynlluniau datblygu ar gyfer y ddinas. Wrth ailddatblygu Ffordd y Brenin, plannwyd y cyntaf o blith 170 o goed newydd. Maent yn cynnwys gwern, bedw, ceirios, leimwydd, masarn, coed gellyg blodeuol, merysbrennau eiraog, katsura a choed haearn Persia.  Fel rhan o raglen Ffordd y Brenin, bydd oddeutu 50 o goed presennol yn cael eu cadw - bydd symud rhywfaint o'r cerrig palmant yn Stryd y Berllan yn cynorthwyo â hynny - a bydd oddeutu 50 yn cael eu torri. Bydd rhywfaint o'r pren o'r coed a gaiff eu torri yn cael ei roi i artistiaid a mentrau cymdeithasol.

- Bydd yr holl waith plannu yng nghanol y ddinas yn cynnwys amddiffyniad gwreiddiau i atal gwreiddiau rhag tarfu ar y llwybrau a'r ffyrdd a allai fel arall arwain at beryglon baglu. Mae coed

wedi'u plannu mewn pyllau coed a luniwyd yn arbennig â systemau cyfyngu gwreiddiau fel eu bod yn aeddfedu heb niweidio isadeiledd tanddaearol na phalmentydd.

- Fel rhan o brosiectau plannu coed blaenorol canol y ddinas, megis y Rhodfa a Ffordd y Gorllewin, mae'r Cyngor wedi cyflwyno mwy o goedydd stryd a gwyrddlesni nag oedd yn bodoli yno'n flaenorol. Mae hyn wedi creu strydwedd deniadol ac mae'n annog mwy o fioamrywiaeth.

**Astudiaeth Achos 1: Prosiect Bioamrywiaeth Cydweithredol**

**Mae Cyngor Abertawe a grŵp amgylcheddol Swansea's Trees yn cydweithio ar gynllun er mwyn hybu bioamrywiaeth y ddinas mewn ymateb i adeiladu arena ddigidol y ddinas.** Bydd y cynllun yn helpu i liniaru gwaith i waredu coed sy'n sefyll ar faes parcio'r LC lle bydd yr arena a'r cyfleusterau cysylltiol, megis parcdir arfordirol, yn cael eu hadeiladu'n fuan. Mae strwythur y rhaglen amgylcheddol gynaliadwy newydd wedi'i chreu gan swyddogion y Cyngor â chyfraniad gan aelodau'r grŵp a Choed Cadw, elusen Brydeinig y mae'r grŵp yn cydweithredu â hi. Bydd partïon eraill â diddordeb hefyd yn cael eu gwahodd i ddylanwadu ar ddatblygiad a chyflwyniad y rhaglen. Yn ddiweddar, fe wnaeth Swansea Trees dderbyn Gwobr Gweithredu dros Goed Stryd 2018 Coed Cadw. Dyfarnwyd y wobr i gydnabod sut roedd y grŵp wedi amddiffyn a dathlu'r coed ar strydoedd eu dinas, addysgu'r cyhoedd am goed a chynyddu eu gwerthfawrogiad, yn ogystal â chynnwys y cyngor er mwyn sefydlu perthynas waith gadarnhaol. Mae prosiect yr Arena yn cynnwys creu parcdir newydd, mannau gwyrdd newydd, plannu cannoedd o goed ychwanegol ac ymdrech enfawr i wyrddlasu canol ein dinas o'r newydd. Fe wnaiff y dull gweithredu hwn gynyddu a gwella lefelau gorchudd coed yn Abertawe. Fe wnaiff hefyd annog rhagor o bobl i gyfrannu at y gwaith o sicrhau mai Abertawe fydd y ddinas wyrddaf yng Nghymru.

Mapio Gwasanaethau Ecosystemau a Chyfleoedd Isadeiledd Gwyrdd

- Mae'r Cyngor wedi cychwyn datblygu prosiect cydweithredol ar y cyd â Chyfoeth Cymru, Cynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i fapio adnoddau isadeiledd gwyrdd presennol a nodi meysydd blaenoriaethol i'w gwella. Ariannwyd y gwaith mapio ecosystemau cychwynnol gan Grant Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi galluogi gwaith i gychwyn ar fap lefel uchel o wasanaethau ecosystemau presennol y Sir a nodi cyfleoedd, diffygion a chyfyngiadau posibl.

- Mae proses o ddatblygu darpariaeth gwasanaethau ecosystem a mapiau bioamrywiaeth ar lefel wardiau i nodi cyfleoedd i wella wedi cychwyn. Bydd rhagor o fapiau 'Wild About Your Ward' yn cael eu cynhyrchu â chyllid o gynllun Grant Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru.

- Mae cyfleoedd i elwa o'r amgylchedd naturiol wedi cynnwys cais ffurfiol i'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) i gynnig y dylai Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr ddod yn 'Gymuned Awyr Dywyll'. Sicrhawyd cyllid grant trwy law Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Gŵyr. Mae'r Cyngor hefyd yn bartner ar brosiect ymchwil ar y cyd â Phrifysgol Abertawe sy'n ymwneud â deall pwysigrwydd mannau gwyrdd o safbwynt iechyd meddwl.

- Mae Cyngor Abertawe wedi bod yn rhan o Weithgor Llywodraeth Cymru a arweiniodd at gyflwyno Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) newydd ym mis Ionawr 2019. Mae cynllunio gwytnwch yn enwedig mewn perthynas â thywydd garw a llifogydd yn bwriadu cefnogi atebion gwyrdd arloesol sy'n gweithio gyda Dŵr Cymru, datblygwyr ac Ecolegydd y Cyngor.

Archwiliad Bioamrywiaeth o'n Hasedau Corfforaethol a'u Rheoli'n Effeithiol

- Mae cynllun gwaith yn cael ei gynllunio i adolygu holl asedau'r Cyngor o safbwynt bioamrywiaeth. Ymhlith y camau gweithredu mae adolygiad o'r holl Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur, arolwg o dir a nodwyd i'w waredu, adolygiad o gynlluniau pori ac archwiliad gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystem o'r holl dir ystadau sy'n eiddo i'r Cyngor.

- Rydym yn parhau i fonitro ac arolygu adnodd bioamrywiaeth y Cyngor i wella ein sylfaen dystiolaeth a'n dealltwriaeth o'r buddion. F Mae cytundebau tenantiaeth ffermydd a busnesau yn cael eu diweddaru i sicrhau bod gwerth bioamrywiaeth tir yn cael ei gydnabod a'i ddiogelu. Mae rhai meysydd gwasanaeth wedi dechrau ystyried cyfleoedd bioamrywiaeth bob blwyddyn fel rhan annatod o gyflawni blaenoriaethau buddsoddiad cyfalaf.

Gwella Bioamrywiaeth a Gwella Cysylltedd Ecolegol.

- Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cael ei adolygu gan y Bartneriaeth Natur Leol a bydd yn dod yn Gynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol. Rydym ni hefyd yn cydweithio â'r Gwasanaeth Addysg i gynorthwyo ysgolion i wella eu tiroedd er lles bioamrywiaeth. Mae gwasanaethau ar draws y Cyngor, fel tai a phriffyrdd, yn dechrau cydweithio i nodi mentrau peilot sy'n cysylltu natur. Rydym yn cynnwys ac yn cynorthwyo'r gymuned leol i gyfranogi yn y gwaith o nodi a chyflawni mentrau sy'n cynnal ac yn gwella'r amgylchedd naturiol. Mae gwydnwch ein hamgylchedd naturiol yn cael ei gynyddu trwy adfer cynefinoedd dirywiedig a thrwy greu a chysylltu cynefinoedd. Rydym yn gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig â phartneriaid, gan gynnwys cynghorwyr a busnesau, i ddatblygu strategaeth i sicrhau cysylltedd ecolegol ac i wella bioamrywiaeth. Mae enghreifftiau ymarferol yn cynnwys creu cynefinoedd ymylon a choridorau bywyd gwyllt trwy leihau ac amseru torri ymylon yn ofalus a thrwy gynyddu ardaloedd heb eu torri yn sylweddol.

**Astudiaeth Achos 2: Hwb Gwrychoedd Gŵyr**

**Mae'r Cyngor wedi derbyn grant gwerth £40,000 oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru a gaiff ei ddefnyddio i ddatblygu 'Hwb Gwrychoedd Gŵyr'.** Bydd yr hwb yn cynnwys y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ynghyd â Chymdeithas Aredig a Phlygu Perthi Gorllewin Gŵyr, perchnogion tir a ffermwyr, a fydd yn ystyried sut i gynnal gwrychoedd a'u cadw'n iach. Mae sefydliadau sy'n cynnwys yr YMCA yn cael eu cynnwys hefyd i helpu i nodi pobl ifanc a allai hyfforddi fel gwirfoddolwyr a dysgu sgiliau hanfodol er mwyn rheoli gwrychoedd. Mae gwrychoedd yn cyflawni nifer o rolau hanfodol mewn ardaloedd gwledig - yn ogystal â darparu ffiniau naturiol rhwng ffermydd a thir arall, maent hefyd yn darparu rhwydwaith naturiol i anifeiliaid a phryfed deithio a bwydo. Mae gwrychoedd yn nodwedd bwysig iawn o benrhyn Gŵyr ac maent yn hanfodol bwysig am eu bod yn cynnal pryfed, adar a bywyd gwyllt arall sy'n defnyddio'r gwrychoedd fel ffordd o fynd o le i le ac i ddod o hyd i fwyd.

Economi Carbon Isel

- Mae buddosddi wedi parhau yn yr economi carbon isel. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd caffael felly rydym wedi gweithio fel aelodau o grŵp caffael WLGA i helpu i adolygu strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer gwariant trydydd parti y sector cyhoeddus. Yn y fforwm hwn, bydd Abertawe yn hyrwyddo datblygu polisi sy'n cefnogi cynhyrchion carbon isel. Dadansoddir yr holl weithgaredd caffael newydd i ganfod yr effaith ar yr amgylchedd, a bellach, ceisir gwelliannau amgylcheddol yn ein manylebau, yn amrywio o ailgylchu deunydd pacio i

sicrhau nad yw safonau amgylcheddol yn cael eu torri. Mae ein pwyslais ar arferion caffael yn lleol hefyd yn cynorthwyo i leihau allyriadau carbon.

- Ym mis Ionawr 2019, daeth Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yn un o'r Cronfeydd Pensiwn cyntaf yn y DU i fabwysiadu polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae hyn yn ymrwymo'r gronfa bensiwn i leihau ei amlygiad sydd eisoes yn isel i fuddsoddiadau tanwydd ffosil sy'n seiliedig ar garbon hyd at 50% dros y 4 blynedd nesaf. Wrth wneud hynny, mae'n derbyn bod buddsoddi mewn ynni gwyrdd newydd, isadeiledd buddsoddiadau sy'n gyfrifol o safbwynt cymdeithasol yn cynnig yr enillion ariannol cynaliadwy gorau ar gyfer aelodau'r gronfa bensiwn yn y tymor hir.

- Ynghyd â'i rhaglen lleihau carbon yn ei phortffolio ecwitïau rhestredig, mae'r gronfa hefyd yn ceisio buddsoddi mewn prosiectau isadeiledd sy'n defnyddio ynni yn effeithlon (ynni adnewyddadwy, ynni'r haul, tanwyddau amgen) a thechnoleg lân mewn rhannau eraill o'i bortffolio, a bydd bob amser yn ceisio sicrhau'r enillion gorau gan effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

- Mae llawer o'r cynnydd a wnaed gan Abertawe yn 2018/19 yn cael ei gydnabod yn y Rhybudd o Gynnig ym Mehefin 2019 yn datgan argyfwng amgylcheddol. Mae hyn yn dathlu llawer o lwyddiannau'r Cyngor eleni. Mae gwaith wedi dechrau i adeiladu tai Cyngor newydd ym Mharc yr Helyg yn unol â "Safon Abertawe" ac sy'n defnyddio ynni yn hynod o effeithlon a fydd yn galluogi i bob cydran gael ei gaffael yn lleol a lleihau allyriadau gan ddefnyddio batris i storio ynni'r haul a phympiau gwres ffynhonnell aer. Arbrofwyd â mesurau ôl-osod yn stoc dai presennol y Cyngor yng Nghraig Cefn Parc. Bydd cannoedd o breswylwyr tai'r Cyngor yn elwa o fesurau i ddefnyddio ynni yn fwy effeithlon a lleihau allyriadau carbon.

- Cafodd y Cyngor 40 o faniau trydan Peugeot ym Mai 2018 ac maent yn cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu darparu yn y ddinas. Mae'r fflyd newydd yn ychwanegol at y deg car trydan a brynodd y Cyngor yn flaenorol ar gyfer ei gronfa ceir. Mae dulliau rheoli Fflyd Werdd yn canolbwyntio ar fanylebau, dewis a defnyddio cerbydau ecogyfeillgar, a dewisiadau tanwydd ecogyfeillgar. Mae 'Polisi Fflyd Werdd' wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor, ac mae hynny'n ffurfioli'r dull hwn ac yn gosod targedau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

- Mae gwaith ymgynghori ac ymchwil wedi digwydd i archwilio datblygiad cwmni ynni dielw yn eiddo i Gyngor Abertawe. Mae hyn wedi'i gysylltu â chefnogaeth bellach i ddatblygiad morlyn llanw gan y sector preifat neu ddewis arall.

- Rydym ni wedi parhau i gyflawni mewn ymateb i'n polisi lleihau carbon, ac rydym ni wedi sicrhau lleihad o 42% mewn allyriadau ers ein blwyddyn man cychwyn. Mae Cynllun Datblygu Lleol Abertawe a fabwysiadwyd ym mis Chwefror 2019 yn cynnwys polisi ynghylch y newid yn yr hinsawdd (ER1) sy'n ceisio sicrhau bod cynigion datblygu yn lliniaru yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys lleihau allyriadau carbon trwy reoli'r galw am ynni sy'n gysylltiedig â datblygu trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni i'r eithaf ac ymgorffori ffynonellau ynni cynaliadwy heb ddibynnu ar danwydd ffosil.

**Astudiaeth Achos 3: Gweledigaeth ynghylch Ynys Ynni i greu morlyn llanw newydd ym Mae Abertawe**

**Mae cynlluniau newydd ar gyfer morlyn llanw fel rhan o ddatblygiad ynni adnewyddadwy mawr ym Mae Abertawe yn ddichonadwy o safbwynt ariannol, yn ôl adroddiad annibynnol.** Byddai'r lagŵn yn rhan o Ynys Ynni'r Ddraig newydd gerllaw arfordir Abertawe a allai greu miloedd o swyddi. Mae'r

cynigion newydd yn cynnwys datblygiad cartrefi modiwlaidd arnofiol, canolfan ddata tanddwr, fferm solar a chynhyrchu hydrogen pur ac ocsigen pur ar y safle i'w storio neu ei werthu. Byddai tyrbinau tanddwr enfawr hefyd yn ymddangos fel rhan o Ynys Ynni arfaethedig y Ddraig, gan helpu i bweru miloedd o gartrefi ledled Abertawe a thu hwnt. Elfen newydd arall yw'r potensial ar gyfer trefniant caffael cyhoeddus a allai olygu bod cynghorau a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn prynu trydan yn uniongyrchol o'r ynys ynni. Ac mae'r adroddiad yn dweud bod potensial i wneud arbedion sylweddol o hyd at 30% ar gostau cyfalaf y prosiect. Comisiynwyd yr adroddiad, a luniwyd gan gwmni cyrchu byd-eang Holistic Capital, gan dasglu Rhanbarth Dinas Bae Abertawe a sefydlwyd i archwilio opsiynau i gyflenwi'r morlyn llanw yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â bwrw ymlaen â chynigion blaenorol ym mis Mehefin 2018.

Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe a chadeirydd tasglu Rhanbarth y Ddinas, fod cefnogaeth enfawr i gyflawni'r prosiect. Dywedodd: *"Er gwaethaf y ffaith na wnaeth Llywodraeth y DU gefnogi'r cynigion blaenorol, ni wnaethom ildio gobaith ar y cyfle i gyflawni prosiect adnewyddadwy mawr ym Mae Abertawe. Mae llawer iawn o waith caled wedi digwydd y tu ôl i'r llenni i ddatblygu cynnig newydd a fydd yn cynhyrchu pŵer glân, gwyrdd am genedlaethau lawer i ddod. Mae'r cynnig newydd yn ddatblygiad ynni adnewyddadwy mwy a mwy uchelgeisiol sy'n elwa o fuddion llanw naturiol Bae Abertawe a thechnoleg gyflenwol i gynhyrchu pŵer heb garbon. Mae'r morlyn llanw yn elfen allweddol o'r cynnig newydd ac mae'n rhoi cyfle inni greu cymuned arnofiol newydd o gartrefi a busnesau o fewn y morglawdd. Mae hyn eisoes wedi bod yn llwyddiannus mewn gwledydd fel yr Iseldiroedd, yr Almaen a Denmarc, gan ddarparu ateb cynaliadwy i faterion gan gynnwys dwysedd poblogaeth a'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y prosiect hwn yn gosod Bae Abertawe ar flaen y gad o ran arloesi ynni morol ledled y byd, yn creu miloedd o swyddi, yn rhoi hwb i fusnesau cadwyn gyflenwi leol, ac yn helpu i ddatblygu diwydiant allforio o bwys byd-eang ym Mae Abertawe. Yn bwysig, mae'r adroddiad annibynnol wedi canfod bod y cynnig newydd hwn yn gredadwy ac yn ddichonol o safbwynt ariannol, a bod ganddo'r potensial i wneud arbedion o hyd at 30 y cant o'i gymharu ag amcangyfrifon blaenorol. Mae cryn ddiddordeb gan gwmnïau mawr mewn troi'r cyfle hwn yn realiti masnachol, felly rydym nawr yn awyddus i symud ymlaen."*

Byddai Ynys Ynni'r Ddraig yn seiliedig ar ôl troed y cynnig blaenorol i ddatblygu'r morlyn a byddai'n cynhyrchu cyfuniad o ynni morol, solar a hydrogen.
Gallai'r camau nesaf gynnwys rhagor o ymchwil ynghylch y prosiect a dadansoddiad ariannol cyn y bydd y chwilio am bartner yn y sector preifat o bosibl yn cychwyn yn ddiweddarach yr haf hwn. Gallai'r gwaith adeiladu gychwyn yn 2021, a gallai Ynys Ynni'r Ddraig fod yn weithredol erbyn diwedd 2026.

Abertawe Carbon Isel

- Rhwydwaith o sefydliadau preifat y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yw Bae Abertawe Carbon Isel sy'n ceisio lleihau ôl troed carbon Abertawe trwy hyrwyddo dull cydgysylltiedig o leihau allyriadau carbon ar draws sectorau yn Abertawe a De-orllewin Cymru. Mae'r Cyngor wedi bod yn gyfranogwr gweithredol yn y fenter yn ystod 2018/19 ac wedi elwa o weithio ar y cyd i gael gafael ar adnoddau a rhannu arfer da. Mae Tasglu Cerbydau Allyriadau Isel Bae Abertawe wedi bod yn ffynhonnell werthfawr o gymorth ac yn ddull i'r Cyngor rannu ei brofiad o reoli fflyd werdd.

Gwybodaeth, Hyfforddiant a Digwyddiadau.

- Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol wedi'u gwella gan weithgareddau a gynhaliwyd trwy gydol y flwyddyn. Cyhoeddir rhaglen digwyddiadau amgylcheddol yn flynyddol, sy'n darparu manylion cannoedd o ddigwyddiadau rhad ac am ddim neu gost isel yn Abertawe. Mae'r digwyddiadau a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf gan y

Cyngor yn cynnwys yr ail Sioe Deithiol Aer Glân flynyddol â chefnogaeth AGB Abertawe a Chalon Fawr Abertawe. Cyfranogodd y Cyngor yn Awr Ddaear WWF a chefnogodd Bythefnos Masnach Deg a Ffair Werdd Abertawe. Mae ymweliadau tywysedig o amgylch ein parciau arbenigol a diwrnodau gwirfoddoli wedi bod yn boblogaidd. Mae nifer o sesiynau hyfforddiant ynghylch bioamrywiaeth wedi cael eu cynnal ar gyfer staff ac aelodau etholedig.

Cyfleoedd ar gyfer Plant Ysgol

- Mae'r prosiect 'Ein Natur, Ein Dyfodol' wedi galluogi plant mewn nifer o ysgolion cynradd i elwa o welliannau tir ac i fynychu sesiynau amgylchedd naturiol. Mae ysgolion wedi elwa o hyfforddiant ar gyfer eu staff addysgu fel y gellir ymgorffori bioamrywiaeth yn y cwricwlwm. Mae'r prosiect hefyd yn ceisio annog ysgolion i wneud mwy o ddefnydd o'u safleoedd bywyd gwyllt lleol ar gyfer astudiaeth amgylcheddol. Mae ymweliadau astudio maes rheolaidd wedi parhau i gael eu cefnogi yng Nghoed yr Esgob. Mae ysgolion wedi croesawu prosiect RSPB 'Rhoi Natur i Gartref' ynghyd â chyfleoedd i ymgysylltu â natur trwy gyfrwng Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghanolfannau Gweithgareddau'r Cyngor ym Mhorth Einon a Rhosili.

- Mae rhaglen ryngwladol Eco-sgolion yn parhau i fod yn boblogaidd, ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn Abertawe yn cyfranogi trwy law eco-gydlynydd. Mae gan lawer o ysgolion Eco-bwyllgor ac mae Eco-sgolion yn darparu cyfleoedd i wella sgiliau disgyblion, gwella eu hymwybyddiaeth o'r amgylchedd a helpu i wella amgylchedd yr ysgol, ymhlith buddion eraill. Rydym ni'n annog ein disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i ddysgu yn yr awyr agored, gan sicrhau parch at natur, bioamrywiaeth ac ecosystemau. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi rhaglen Ysgol Goedwig Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Gwella Mynediad at ein Parciau a'n Mannau Gwyrdd a Gwella eu Hansawdd

- Mae polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol sydd newydd eu mabwysiadu yn ceisio cynyddu darpariaeth mannau agored a mynediad atynt dros y cyfnod hyd at 2025. Mae'r Cyngor yn datblygu prosiect i fapio diffygion mewn mynediad i fannau gwyrdd a nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau. Mae hyn yn atal colli mannau gwyrdd hygyrch a lle chwarae ffurfiol er budd hybu iechyd a lles. Bellach, mae'r rhaid i ddarpariaeth mannau gwyrdd fod yn elfen annatod o gynlluniau newydd, yn enwedig yng Nghanol y Ddinas. Mae'r holl fannau gwyrdd yn y Sir wedi cael eu mapio, yn cynnwys pwyntiau mynediad. Bydd mesurau yn cael eu gweithredu i sicrhau bod o leiaf 75% o'r boblogaeth leol yn byw o fewn 300m (5 munud ar droed) i'w llecyn gwyrdd naturiol agosaf.

- Mae'r rhaglen cynnal a chadw parciau yn cydweithio â grwpiau Cyfeillion Parciau, cynghorwyr a grwpiau cymorth i sicrhau bod 52 parc y Cyngor yn groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Mae gwasanaethau masnachol wedi cydweithio â'r parciau i greu incwm newydd, ac felly, diogelu asedau gwyrdd. Mae cyfleoedd am nawdd cyhoeddus a phreifat wedi cael eu hystyried, er enghraifft, 'mabwysiadu mainc' a chynlluniau cyfrannu coed neu goed coffa.

- Mae'r Cyngor yn rheoli ac yn cynnal a chadw dros 400km o rwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Eleni cwblhawyd uwchraddiad llwybr arfordirol a ariannwyd gan grant Llywodraeth Cymru rhwng Langland a Cas-wellt. Cynhaliwyd y Cynllun 'ParkLives' sy'n cynnig sesiynau gweithgaredd am ddim mewn parciau lleol a mannau agored yn 2018/19.

Plannu a rheoli blodau gwyllt.

- Fe wnaeth y chweched flwyddyn o blannu blodau gwyllt greu arddangosfeydd lliwgar mewn dros 180 o leoliadau. Roedd y lleoliadau a wnaeth elwa o flodau gwyllt yn 2018 yn cynnwys Heol y

Mwmbwls, Ffordd Fabian, Parc Ravenhill, Heol Caerfyrddin, Cyfnewidfa Dyfaty, Parc Brynmill, Parc Llewellyn ac oddi allan i Neuadd y Ddinas. Roedd yn gyfanswm o dros 41,000 metr sgwâr o flodau gwyllt, sy'n cyfateb i tua saith cae pêl-droed. Cafodd hadau eu hau unwaith eto yn 2019. Mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio â Chyfeillion y Gerddi Botaneg, a fydd yn gwerthu'r hadau yn ystod eu digwyddiadau gwerthu planhigion.

Annog a Chynorthwyo Cymunedau Lleol i Weithredu

- Mae cyfleoedd wedi cael eu darparu trwy gydol y flwyddyn i ennill sgiliau a hyder trwy wirfoddoli a hyfforddi tra hefyd yn gwella mannau gwyrdd lleol a safleoedd bywyd gwyllt. Mae'r ymdrechion i gynyddu'r sylfaen o wirfoddolwyr wedi parhau, gan alluogi rhagor o bobl i gyfranogi. Mae swydd cydlynydd gwirfoddol dros dro wedi'i hariannu gan grant wedi'i chreu i helpu i sicrhau bod rhaglenni ar gyfer gwirfoddolwyr gyda phartneriaid yn cael eu huno a bod cronfa ddata gwirfoddolwyr yn cael ei datblygu yn 2019/20. Cafwyd cyllid hefyd i lansio Hwb Gwrychoedd Gŵyr. Mae'r fenter hon yn hyfforddi gwirfoddolwyr i ddatblygu'r sgiliau a wnaiff helpu i gynnal hyfywedd gwrychoedd Gŵyr am flynyddoedd lawer.

- Bydd rhan o'r cyllid a ddyfarnwyd i gefnogi'r prosiect 'Ein Natur, Ein Dyfodol' yn cael ei ddefnyddio i gefnogi grŵp 'Ein Natur - Ein Dyfodol' ar gyfer ysgolion a chymunedau. Bydd hyn yn ceisio cynorthwyo pobl i wneud y gorau o'u mynediad at fywyd gwyllt a'u hamgylchedd lleol. Mae'r prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng Cymdeithas Gŵyr, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CNC a'r Cyngor.

- Ers mis Ebrill 2018 mae 7 grŵp 'Cyfeillion' ychwanegol wedi'u sefydlu ac maent wrthi'n sefydlu trefniadau llywodraethu. Mae 29 o grwpiau Cyfeillion gweithredol yn cael eu cynorthwyo ar hyn o bryd. Mae llawer o'r grwpiau wedi llwyddo wrth ymgeisio am grantiau, ac maent yn gallu am arian sydd ddim ar gael i'r Cyngor. O ganlyniad, mae dros £300,000 o gyllid wedi cael ei sicrhau i gynorthwyo'r parciau/mannau gwyrdd. Cynhyrchwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth mewn partneriaeth â'r grwpiau, a fydd yn cynorthwyo gyda cheisiadau am arian yn y dyfodol. Mae Ymddiriedolaeth Coedwig Dyffryn Penllergare wedi cael cymorth i baratoi Cynllun Rheoli Ecolegol ar gyfer yr Ystâd.

Rheoli Rhywogaethau Estron Ymledol

- Mae'r gweithgarwch wedi cynnwys rheoli clymog, Jac y Neidiwr, pannas gwyllt ac efwr. Mae ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan Rhywogaethau Estron Ymledol ledled y sir yn cael eu mapio ar hyn o bryd. Bydd gwasanaeth y parciau yn cynnig gwasanaeth i drin y rhywogaethau hyn mewn mannau blaenoriaethol yn ystod misoedd yr haf. Mae cydweithredu wedi digwydd gyda'r holl adrannau sy'n rheoli daliadau tir.

- Mae canllawiau wedi cael eu rhoi i'r cyhoedd a rhoddir cyngor i dirfeddianwyr ar sawl ffurf i wella ymwybyddiaeth o'r broblem ac i helpu i reoli ymlediad Rhywogaethau Estron Ymledol. Mae taflen cynghori ynghylch llysiau'r dial wedi cael ei gynhyrchu ac mae tudalennu gwe wedi cael eu sefydlu. Mae Gwasanaethau Masnachol wedi cynorthwyo â'r gwaith o farchnata, hyrwyddo a gwerthu gwasanaeth sy'n mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol, h.y. y gwasanaeth rheoli llysiau'r dial.

Gwelliannau Mannau Gwyrdd Safon Ansawdd Tai Cymru

- Bydd gwelliannau i fannau gwyrdd yn 2018/19 yn helpu'r cyngor i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol wella amgylchedd allanol eu stoc dai i lefel dderbyniol erbyn mis Rhagfyr 2020. Ym Mhenlan, mae 144 o goed lled-aeddfed 10-12 troedfedd o daldra wedi'u plannu ochr yn ochr â strydoedd preswyl.

- Ategwyd y gwaith hwn gan brosiect ar y cyd â Trees for Cities a blannodd dros 4000 o goed (chwipiau) sy'n ffinio â Chaeau Chwarae Mynydd Newydd. Cyflwynir y gwyrddlesni hwn a gwyrddlesni arall fel rhan o gynllun i wella'r amgylchedd preswyl. Yn ychwanegol, mae rhaglen o glirio Rhywogaethau Estron Ymledol yn cael ei chylfwyno i ategu rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru.

Lleihau Gwastraff a Chynyddu Ailgylchu

- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau gwastraff ac ailddefnyddio deunyddiau lle bynnag y bo modd ac mae'n annog preswylwyr i wneud yr un peth. Mae ein gwasanaethau Arlwyo a Glanhau wedi lleihau'r defnydd o gynhyrchion na ellir eu hailgylchu ac mae Addysg yn atal gwaredu hen ddarnau gosod a gosodiadau ysgolion a'u gosod trwy eu galluogi i gael eu hailddefnyddio neu eu hailosod. Hefyd, caiff preswylwyr eu hannog i roi eitemau y gellir eu hailddefnyddio i'n siop ailddefnyddio, Trysorau'r Tip, gan gynhyrchu arian y gellir ei fuddsoddi i hyrwyddo ailgylchu.

- Dechreuodd ymgyrch Nid Fan Hyn yn Chwefror 2019, ac mae'n gwahardd cynnwys eitemau y gellir eu haigylchu mewn biniau sbwriel. Y nod oedd cynyddu'r dewisiadau ailgylchu, ond peidio cynyddu'r uchafswm o 3 bag du, gan arwain at leihad o 12% yng nghyfanswm y tunelli metrig o wastraff preswyl.

- Mae rhagor o gartrefi yn y ddinas bellach wedi cychwyn defnyddio'r gwasanaeth bagiau pinc ailddefnyddiadwy yn lle'r hen fagiau untro. Cafodd y bagiau pinc ailddefnyddiadwy eu cyflwyno er mwyn helpu i wella ansawdd y plastig sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu ac i annog preswylwyr i roi eitemau plastig anhyblyg yn unig yn y bag, e.e. poteli, potiau, tybiau a hambyrddau. Mae aelwydydd yn dechrau deall y neges nad yw deunyddiau plastig simsan, megis haenen lynu a phacedi creision, neu blastig caled, megis teganau a basgedi dillad golch, yn cael eu derbyn gan wasanaeth y Cyngor sy'n casglu deunyddiau plastig i'w hailgylchu. Mae'r gwaith a wnaed i sicrhau bod ansawdd plastig yn gwella hefyd yn golygu bod y Cyngor yn cael incwm gan gwmnïau prosesu deunyddiau ailgylchu am bob tunnell a gesglir, yn hytrach na gorfod talu am ailgylchu'r deunyddiau.

- Cynhaliwyd Ymgyrchoedd Hyrwyddo i sicrhau bod preswylwyr Abertawe yn gwybod am y newidiadau oedd wedi digwydd trwy gyfrwng Facebook, gwefan y Cyngor, datganiadau i'r wasg a thrwy gyfrwng sylw gan orsafoedd radio lleol a chenedlaethol. Mae masgot newydd – Busta, y mwnci o'r gofod – wedi cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â phlant ysgol i'w cynorthwyo i newid ymddygiad yn y cartref a sefydlu arferion ailgylchu a wnaiff bara oes.

**Astudiaeth Achos 4: Ymgyrch Ailgylchu 'Nid Fan Hyn'**

**Lansiodd Cyngor Abertawe ei ymgyrch 'Nid Fan Hyn' ym mis Chwefror gan dargedu aelwydydd sydd naill ai'n ailgylchu ychydig iawn yn unig neu ddim yn ailgylchu o gwbl.** Fel rhan o'r fenter 'Nid Fan Hyn' mae swyddogion gwastraff y cyngor yn gwirio sachau du sy'n cael eu rhoi ar y stryd ar gyfer eu casglu. Os gwelir bod y sachau du hyn yn cynnwys bwyd, poteli, caniau a deunyddiau eraill y gellir eu hailgylchu, bydd yr aelwydydd yn cael cyngor gan Dîm Hyrwyddo Ailgylchu'r cyngor a fydd yn ymweld â'r eiddo. Os bydd sawl ymgais i annog aelwydydd i ailgylchu'n methu, gellir cyflwyno hysbysiadau o

gosb benodol o dan ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r llwyddiant cynnar gydag aelwydydd wedi arwain at 40 tunnell ychwanegol o wastraff y gellir ei ailgylchu'n cael ei gasglu mewn pythefnos o'i gymharu â chasgliadau blaenorol. Yn ystod mis cyntaf y cynllun, cafodd 20,000 o aelwydydd eu monitro a chanfuwyd bod oddeutu 15% ohonynt yn ailgylchu ychydig iawn yn unig neu ddim yn ailgylchu o gwbl. Anfonwyd llythyr cychwynnol at y rheiny nad oeddent yn ailgylchu yn esbonio sut i fynd ati. Mae cannoedd o aelwydydd bellach wedi derbyn diolch swyddogol am gyfranogi wedi i ymweliadau dilynol ganfod bod 7 allan o 10 o'r cartrefi y cynigiwyd cymorth iddynt wedi dechrau ailgylchu neu wella eu hymdrechion.

**5. Sut mae'r Amcan Lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau lles cenedlaethol.**

- *Cymru Ffyniannus* - Mae'r amgylchedd naturiol unigryw yn Abertawe a'i Hardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cefnogi miloedd o swyddi yn y sector twristiaeth sy'n werth £ 417 miliwn y flwyddyn i'r economi leol.
- *Cymru Wydn* - Mae gwydnwch ein hamgylchedd naturiol yn cael ei gynyddu trwy adfer cynefinoedd dirywiedig a thrwy greu a chysylltu cynefinoedd.
- *Cymru Iachach* – Mae coed yn gwneud cyfraniad pwysig mewn perthynas â hidlo gronynnau niweidiol sy'n lleihau cyflyrau anadlol o'r aer, a phrofwyd bod mannau naturiol yn cael dylanwadu'n llesol ar iechyd meddwl.
- *Cymru Fwy Cyfartal* - Mae cymryd rhan mewn hyfforddiant a gwirfoffoli amgylcheddol yn datblygu sgiliau sydd ar gael i bawb.
- *Cymru â Chymunedau Mwy Cydlynol* - Mae'r buddion cymdeithasol sy'n cyd-fynd â gwella canran y gorchudd coed a mannau agored naturiol yn Abertawe yn creu cymunedau croesawgar y mae pobl yn falch o fod yn rhan ohonynt a byddant yn profi ansawdd bywyd gwell yno.
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu* - Mae mannau gwyrdd a thraethau hygyrch sy'n cael eu rheoli yn cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden, ac mae daearyddiaeth ffisegol a lleoliad arforol Abertawe wedi ysbrydoli hunaniaeth ddiwylliannol leol gyfoethog.
- *Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang* – Yn lleihau ein heffaith ar y blaned, gan symud tuag at Gymru 'un blaned' nad yw'n defnyddio mwy na'i chyfran deg o adnoddau.

**6. Y gwersi a ddysgwyd a meysydd y dylid eu datblygu**

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol.

- Cwblhaodd Panel Ymchwiliad Craffu ynghylch yr Amgylchedd Naturiol ymholiad manwl a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 21 Mawrth 2019. Holodd *hyn 'Beth ddylai Cyngor Abertawe ei wneud i gynnal a gwella ei amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth ac wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch gwasanaeth ecosystemau?'* Ei argymhelliad allweddol oedd bod y pwnc hwn yn cael ei fabwysiadu fel blaenoriaeth gorfforaethol gan adeiladu ar Amcan Llesiant Lleol 'Gweithio gyda Natur' y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cafodd yr argymhelliad hwn ei ddewis a'i fabwysiadu ym mis Hydref 2018. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad manwl hwn yn effeithio ar lawer o'r meysydd y mae'r Amcan Lles yn mynd i'r afael â hwy ac yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â ffyrdd o weithredu'r pum ffordd o weithio'n gorfforaethol.

- Mewn perthynas â datblygu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, argymhellodd yr Ymchwiliad y dylai'r Cynllun Llesiant Lleol gysylltu â pholisïau perthnasol ar draws y sefydliad a pholisïau allanol perthnasol eraill. Awgrymodd y dylid sefydlu Gweithgor Bioamrywiaeth i sbarduno, monitro ac adrodd ar weithrediad y Cynllun - mae hyn ar y gweill.

- Cydnabuwyd bod cyni wedi effeithio ar ddarparu gwasanaethau a chyfyngwyd ar weithredu llawer o argymhellion, megis cyflogi swyddog Adran 6 i gefnogi gweithredu, ecolegydd a darparu hyfforddiant gan ddiffyg adnoddau. Mewn ymateb, mae gweithred i 'nodi adnoddau cynllunio / ecoleg / bioamrywiaeth ychwanegol' wedi arwain at ystyriaeth barhaus o ffynonellau cyllid ac adnoddau mewnol ac allanol arloesol.

Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd

- Llwyddodd cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill i baratoi Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd Canol y Ddinas, yr adeiladir arni wrth ddatblygu strategaeth ledled y sir.

Polisi Coed y Cyngor.

- Bu'n rhaid clirio coed Planwydd Llundain a blannwyd yng nghanol y ddinas 30 blynedd yn ôl oherwydd yr effaith ar isadeiledd tanddaearol a phalmentydd oedd yn achos peryglon baglu. Dysgwyd gwersi'r gorffennol ac mae pyllau coed bellach yn cael eu defnyddio i sicrhau, mewn 30 mlynedd arall, bod coed mewn sefyllfa dda i gyrraedd aeddfedrwydd.

Mentrau Gorchudd Coed Trefol

- Roedd rhan o fuddsoddiad Abertawe yng nghanol dinas wyrddach yn golygu bod rhai coed oedd yn ymddangos yn iach wedi'u dewis i'w torri. Cafwyd ymateb negyddol gan y cyhoedd yn syth i'r hyn oedd yn cael ei ystyried (yn gamsyniol) yn enghraifft o dorri coed yn ddiangen. Mae hyn yn dystiolaeth o'r gwerth y mae trigolion Abertawe yn ei roi i goed ac mae'n cadarnhau gwerth polisi'r Cyngor o gynyddu gorchudd coed trefol.

- Mae'r Cyngor bellach yn cydweithio â grwpiau i sicrhau bod y bwriadau a'r rhesymau dros dorri coed yn cael eu deall, gan osgoi camddealltwriaeth a hefyd gwella ymwybyddiaeth o rydweli werdd newydd yng nghanol y ddinas a sicrhau cefnogaeth i hynny. Bydd y wers hon yn ystyriaeth bwysig wrth symud ymlaen gan y bydd effaith clefyd (Chalara) coed ynn yn arwain at dynnu nifer fawr o goed oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch; felly bydd yn hanfodol cyfathrebu â thrigolion y peryglon a'r rhesymau dros dorri coed.

Mapio Gwasanaethau Ecosystemau a Chyfleoedd Isadeiledd Gwyrdd

- Bydd gwell tystiolaeth fonitro a dealltwriaeth gyhoeddus a chorfforaethol ehangach o fuddion darparu gwasanaeth ecosystem yn helpu i wreiddio datblygu cynaliadwy wrth wraidd polisïau'r Cyngor a sicrhau bod amgylchedd naturiol unigryw Abertawe yn cael ei werthfawrogi a'i warchod. Ni wnaiff gwytnwch ecosystemau wella nes bydd ei fuddion yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi'n llawnach ym mhob rhan o'r Cyngor.

Archwiliad Bioamrywiaeth o'n Hasedau Corfforaethol a'u Rheoli'n Effeithiol

- Dim ond trwy ystyried a gwerthfawrogi'n llawn y buddion o ran gwasanaethau ecosystemau y mae'r adnoddau naturiol hyn yn eu darparu am ddim a gwir gost hirdymor eu colled y dylid ymgymryd â gwaredu/colli asedau/adnoddau naturiol, h.y. dylai'r gwerth cyfalaf a geir o waredu asedau bob amser cael ei gydbwyso â'u gwerth amgylcheddol i nodi'r gwerth net neu wirioneddol.

Gwella Bioamrywiaeth a Chysylltedd Ecolegol.

- Mae cynnydd sylweddol wedi digwydd yn nifer y mannau glaswelltog/ymylon sy’n cael eu gadael heb eu torri er mwyn hybu cynefinoedd naturiol a choridorau bywyd gwyllt. Gellid defnyddio cyfathrebu eglurach i fynd i’r afael ag ymateb negyddol posibl gan y cyhoedd ynghylch ymylon a glaswellt yn cael eu gadael heb eu torri.

Economi/Abertawe Carbon Isel

- Mae’r broses o gynhyrchu concrit yn ffynhonnell ddifrifol o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r Cyngor wedi anelu at ailddefnyddio deunyddiau a chefnogi datblygiad yr economi werdd leol trwy archwilio dewisiadau amgen yn lle technegau gwaredu traddodiadol. Mae hen arwynebau concrit Ffordd y Brenin wedi cael eu hailddefnyddio'n lleol ar lwybrau troed cerddwyr gan fusnes arloesol fel craidd caled. Nod hyn oedd cynorthwyo i sicrhau bod y cynllun mor ecogyfeillgar ag y bo modd.

Gwybodaeth, Hyfforddiant a Digwyddiadau.

- Gofynnir i holl gyfranogwyr digwyddiadau a hyfforddiant lenwi ffurflenni bodlonrwydd. Fodd bynnag, mae angen gwerthuso'r adborth hwn yn well er mwyn gwella profiad cyfranogwyr ymhellach, yn enwedig os cychwynnir codi tâl am y digwyddiadau hyn. Mae gan y staff sy’n rhedeg y digwyddiadau/gweithgareddau gontractau treigl dros dro sy’n dibynnu’n llwyr ar gyllid grantiau allanol.

Cyfleoedd ar gyfer Plant Ysgol

- Bydd angen deall gweithgareddau amgylcheddol ysgolion yn well yn y dyfodol er mwyn adrodd yn effeithiol mewn Adroddiadau Adran 6 yn y dyfodol. Mae'r Ymchwiliad Craffu wedi argymell y dylai cyrff llywodraethu ysgolion yn y dyfodol benodi llywodraethwyr cyswllt amgylcheddol (cynghorwyr wardiau yn bennaf) a all ddod yn gyfrwng dwy ffordd o gyfleoedd a gwybodaeth am weithgareddau a bydd angen mynd ar drywydd hyn gyda'r Awdurdod Addysg Lleol.

Gwella Mynediad at ein Parciau a’n Mannau Gwyrdd a Gwella eu Hansawdd

- Mae'r defnydd cadarnhaol a gwerthfawr o fannau awyr agored nid yn unig o fudd i les yr unigolyn, ond hefyd yn amddiffyn yr ardal trwy, er enghraifft, leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae defnyddio mannau agored ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cynnig buddion ychwanegol o safbwynt iechyd meddwl, ac yn aml, mae'n opsiwn cost-effeithiol a hygyrch.

Plannu a rheoli blodau gwyllt.

- Dros y blynyddoedd mae ein Gwasanaeth Parciau a Glanhau wedi nodi'r amgylchiadau, y lleoliadau a'r mathau o flodau gwyllt sydd heb ffynnu. Mae'r profiad hwn a gwell dealltwriaeth o ba flodau gwyllt sy’n llwyddo orau a ble yn cael eu defnyddio i lywio’r gwaith o blannu yn y dyfodol. Caiff safleoedd eu hamrywio i adael i rai mannau gael gorffwys ac i gyfoethogi mannau eraill. Yn ychwanegol, rydym ni’n ystyried cyfleoedd i blannu mwy o flodau gwyllt lluosflwydd a chynhenid er mwyn creu cynefinoedd blodau gwyllt sy’n fwy cynaliadwy.

Annog a Chynorthwyo Cymunedau Lleol i Weithredu

- Sylwyd y bydd grwpiau o wirfoddolwyr yn ffynnu pan fyddant yn rheoli ac yn arwain eu hunain. O ganlyniad, bydd y Fforwm Cyfeillion sy’n dwyn ynghyd amrywiaeth grwpiau Cyfeillion gwahanol fannau yn Abertawe yn cael ei arwain yn y dyfodol gan aelodau o’r grwpiau Cyfeillion yn hytrach na swyddogion.

- Bu dryswch ymhlith grwpiau cymunedol ynghylch gwybodaeth sylfaenol yn ymwneud ag ymarferoldeb casglu sbwriel a thorri gwair mewn mannau cymunedol. Er mwyn lleihau amser staff yn ateb ymholiadau a chymryd agwedd ataliol, lluniwyd canllawiau, a cheir dau fersiwn ategol; un wedi'i anelu at grwpiau cymunedol ac un ar gyfer cynghorwyr wardiau sy'n aml yn gweithredu fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn egluro ystyriaethau ymarferol i sicrhau bod cynghorwyr yn wybodus ond hefyd yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cydgysylltu ac mor ddiogel â phosibl gan osgoi damweiniau posib.

Gwelliannau Mannau Gwyrdd Safon Ansawdd Tai Cymru

- Mae ymarfer mapio wedi'i gynnal i nodi darnau o dir y gwasanaeth tai i'w gwella fel rhan o'r rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru ac mae Tîm Tirwedd y Cyngor yn llunio pob cynllun arfaethedig gan ystyried atebion cynaliadwy tymor hir. Dylai dull cynlluniedig o'r fath i wneud gwelliannau amgylcheddol ehangach atal yr angen am gamau ymatebol dwysach o ran adnoddau, er enghraifft, trwy gynllunio i sicrhau nad oes cyfleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae grŵp Rheoli Ystadau wedi'i sefydlu a bydd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod yr holl faterion amgylcheddol.

Lleihau Gwastraff a Chynyddu Ailgylchu

- Mae risg y gallai newidiadau polisi ynghylch casglu/ailgylchu pren effeithio ar y gyfradd ailgylchu gyffredinol.

## Rhan 2: Sut rydym wedi gweithio wrth gymryd camau i gyflawni ein Hamcanion Lles

- Bydd y rhan hon o'r Adolygiad yn nodi sut mae'r Cyngor wedi gweithio wrth gyflawni'r camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant yn unol â'r egwyddorion cynaliadwyedd (5 ffordd o weithio) a nodir yn y Ddeddf**.**

*Mynd i’r afael â heriau tymor hir*

- *Diogelu Pobl Rhag Niwed* - Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn cynrychioli cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn afiechydon a chyflyrau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, fel dementia. Byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau tymor hir hyn trwy newid ein dulliau o weithio gyda dinasyddion, i symud i ffwrdd o ofal tadol tuag at rannu cyfrifoldeb a chyd-gynhyrchu.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Yn dilyn lansiad Partneriaeth Sgiliau Abertawe yn nhymor yr haf 2018, mae rhaglen Prentisiaethau creadigol ar gyfer marchnata digidol a gwaith technegol wedi'i datblygu ar y cyd â Choleg Gŵyr. Bwriad hyn yw sicrhau y bydd gan bobl ifanc sgiliau a fydd yn addas at y dyfodol a bod plant a phobl ifanc yn datblygu'r sgiliau a'r cymwysterau priodol ar gyfer y tymor hir ac a fydd yn sail i economi newydd y dyfodol a Bargen Dinas Bae Abertawe.

- *Trawsnewid ein Heconomi a’n Hisadeilaedd* – Mae’r Cyngor yn mynd i’r afael â heriau tymor hir wrth ddatblygu Canol y Ddinas, i sicrhau ei fod yn iach, yn wytnach ac yn addas i’r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys: ymgorffori'r gofynion ar gyfer effeithlonrwydd ynni a gwastraff; perfformiad adeiladu clyfar; ynni adnewyddadwy; gwella bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd; a defnyddio deunydd naturiol a/neu wedi'i ailgylchu o ffynonellau cynaliadwy.

- *Trechu Tlodi* – Mae gan Abertawe nifer fawr o bobl sydd heb waith o hyd. Mae effaith niweidiol amddifadedd yn dechrau yn ifanc iawn ac yn cronni trwy oes unigolyn. Mae'r Cyngor yn helpu i dorri'r cylch hwn, goresgyn rhwystrau i gyflogaeth a chael pobl i weithio trwy gynlluniau cyflogaeth cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, megis Gweithio Abertawe.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* - Mae'r galw a'r disgwyliadau ar wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu ond â llai o arian i'w darparu. Un o nodau ein rhaglen drawsnewid - *Abertawe Gynaliadwy yn Addas i’r Dyfodol* - yw sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn gynaliadwy yn y dyfodol ac yn y tymor hir. Nod y rhaglen yw sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy yn y dyfodol trwy foderneiddio gwasanaethau, gwneud y defnydd gorau o dechnolegau digidol, masnacheiddio a chynhyrchu incwm a llunio Cyngor yn y dyfodol sy'n annog gweithredu cymunedol a chyfranogiad gweithredol wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.

- *Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth* – Mae ein hymwybyddiaeth o dueddiadau amgylcheddol tymor hir yn dylanwadu ar sut i wneud penderfyniadau ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymgorffori ein hymateb i fygythiadau difrifol megis y newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth yn dirywio, ansawdd aer gwael a llygredd yn y camau a gymerir gan wasanaethau. Mae Isadeiledd Gwyrdd yn cael ei ystyried yn gatalydd ar gyfer gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac mae’n cynnig buddion ecolegol sylweddol, gan gynnwys ar gyfer cysylltedd bywyd gwyllt, atal colli cynefinoedd, megis dalfeydd carbon, sydd oll yn cyfrannu at gynaliadwyedd yr economi ehangach yn ogystal â gwella lles.

*Atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu*

- *Diogelu Pobl rhag Niwed* - Bydd datblygu gwasanaethau ataliol yn helpu i osgoi'r angen i bobl gael mynediad at wasanaethau statudol a bydd yn helpu i leihau'r galw. Bydd datblygu a gweithredu Strategaeth Atal a gwasanaethau ataliol cysylltiedig, megis cydgysylltu ardaloedd lleol, yn hybu annibyniaeth pobl ac yn gwella eu lles. Bydd gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiogelu a chael trefniadau diogelu effeithiol ar waith yn atal pobl rhag bod yn agored i niwed a chamfanteisio sylweddol.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Cynllunir gwaith i wella perfformiad yn y cyfnod sylfaen trwy: gynorthwyo athrawon sydd newydd gymhwyso; cynorthwyo ysgolion i asesu; sicrhau bod cyswllt rheolaidd yn digwydd rhwng cydlynwyr y Cyfnod Sylfaen; gwella parodrwydd ar gyfer ysgolion, a thrwy nodi a rhannu arferion gorau rhwng ysgolion. Yn ychwanegol, rhagwelir y bydd Perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei wella hefyd trwy gysylltu hynny'n agos â'n strategaeth ynghylch Tlodi, sy'n ceisio gwella deilliannau i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar.

- *Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* - Bydd gwaith y Cyngor i ddarparu cludiant cynaliadwy a charbon isel, megis cerbydau trydan, ac ymdrechion i fuddsoddi yn yr Economi Werdd, megis cynlluniau effeithlonrwydd ynni gan gynnwys mewn tai, yn cyfrannu at atal newid yn yr hinsawdd wrth helpu i adeiladu'r economi leol. Yn Ionawr 2019, fe wnaeth Cyngor Abertawe fabwysiadu polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sy'n ymrwymo i sicrhau lleihad o 50% yn amlygiad y gronfa pensiwn i fuddsoddiadau ym maes tanwyddau ffosil (sydd eisoes yn isel) dros y 4 blynedd nesaf.

- *Trechu Tlodi* - Mae adeiladu cartrefi Cyngor ynni effeithlon yn unol â safon Passivhaus, mesurau effeithlonrwydd ynni yn nhai'r Cyngor ac archwilio creu menter ynni sy'n eiddo i'r Cyngor yn enghreifftiau o ffyrdd o weithio a fydd yn helpu i leihau costau tanwydd ac atal tlodi tanwydd.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfyodol* - Mae *Abertawe Gynaliadwy – yn Addas i'r Dyfodol* annog yr holl staff a rhanddeiliaid i adolygu gwasanaethau trwy 'lens' atal er mwyn helpu i atal pobl sydd angen troi at wasanaethau statudol. Trwy fabwysiadu dull y Cyngor cyfan o reoli'r galw am wasanaethau, ein nod yw dyfnhau ein dealltwriaeth o gyswllt cwsmeriaid a sut y gellir ailgynllunio gwasanaethau i ddileu, lleihau neu ddargyfeirio'r galw.

- *Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth* – Mae'r amcan llesiant hwn yn helpu pobl i ddeall achosion problemau amgylcheddol a sut y gallwn, trwy gydweithio â natur, atal problemau rhag digwydd. Mae newid ymddygiad yn allweddol er mwyn atal materion amgylcheddol rhag gwaethygu. Mae hyn yn amrywio o unigolion yn dewis defnyddio llai ac ailgylchu mwy, i'n busnesau yn cyfranogi yn yr economi gylchol a gweithwyr y Cyngor yn newid ein ffordd o weithio. Wrth wneud cynlluniau, rydym nawr yn rhagweld ac yn ystyried costau cynnal a chadw yn y dyfodol yn ogystal â chost gyfalaf prosiectau yn ein cynlluniau a'n cyllidebau. Gall gwneud gwell defnydd o isadeiledd gwyrdd arwain at gostau sylweddol is i'r Cyngor wrth hyrwyddo iechyd a lles preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr. Bydd buddsoddi mewn technolegau newydd yn hollbwysig er mwyn sicrhau dyfodol disglair.

*Gweithio mewn partneriaeth ag eraill*

- *Diogelu Pobl rhag Niwed* - Mae cam-drin domestig yn aml yn drosedd gudd nad yw'n cael ei riportio i'r heddlu, nac unrhyw asiantaeth arall, a dyna pam mae'r amcangyfrif o nifer y dioddefwyr yn llawer uwch na nifer y digwyddiadau a'r troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu, ac asiantaethau eraill. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau, darparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Mae ERW yn bartneriaeth o 6 awdurdod lleol gan gynnwys Cynghorau Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Bydd swyddogion yn Abertawe yn cydweithio'n briodol â swyddogion rhanbarthiol i ddarparu cymorth rhagorol ynghylch mathemateg/rhifedd a Saesneg ar y lefel uwchradd. Er enghraifft, caiff addysgu a dysgu ei gefnogi yn effeithlon trwy ymgysylltu â phartneriaid darparu allweddol a gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i wella profiadau dysgu.

- *Gweddnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* - Mewn partneriaeth â Freedom Leisure, bydd y Cyngor yn rhoi dyfodol disglair i chwe chanolfan hamdden gymunedol a'r LC2 ac yn cynorthwyo pobl Abertawe i fod yn egnïol ac yn iach. Mae partneriaeth newydd ar lefel uchel yn helpu i adfywio Abertawe; y bartneriaeth hon yw olynydd Partneriaeth Adfywio Economi Abertawe. Mae'r aelodau yn cynnwys Prifysgol Abertawe, Coastal Housing, Pobl, Tai Teulu, AGB Abertawe, Coleg Gŵyr Abertawe, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, Urban Foundry, Indycube, sefydliadau busnes lleol a Busnes Cymru.

- *Trechu Tlodi* - Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i helpu i drechu tlodi, er enghraifft, trwy Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe. Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos ag eraill mewn nifer o raglenni cyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n dod o dan ymbarél Gweithio Abertawe, i helpu pobl i hyfforddi a gweithio.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* - Mae 'Gwasanaethau yn y Gymuned' yn brosiect pwysig o fewn rhaglen drawsnewid trawsbynciol y Cyngor. *conflicts* Mae'n ceisio sefydlu ffyrdd newydd o weithio mewn cymunedau ledled y ddinas trwy archwilio sut y gellir cydleoli gwasanaethau a'u hintegreiddio mewn math o "hwb cymunedol. Mae'r prosiectau hyn yn ffordd sydd wedi'i hen sefydlu o ddarparu gwasanaethau yn wahanol ac yn arloesol, trwy leoli sefydliadau partner ochr yn ochr â gwasanaethau'r cyngor er budd pobl leol.

- *Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth* - Mae gan Abertawe hanes rhagorol o gydweithio â phartneriaid allanol yn enwedig trwy waith a ariennir gan grantiau a chyflawni prosiectau gyda gwirfoddolwyr i gyflawni amcanion cyffredin i wella ein hamgylchedd. Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe a Fforwm Amgylcheddol Abertawe, sy'n cyflwyno ystod eang o fentrau amgylcheddol strategol a gweithredol trwy gydweithrediad ag asiantaethau eraill. Rydym yn gweithio ar y cyd â'n partner Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu strategaeth sy'n galluogi cydgyfrannu gwybodaeth a sgiliau gan y ddau sefydliad. Mae adrannau ar draws y Cyngor yn cynorthwyo ei gilydd i gydlynu'r gwaith o gyflwyno camau gweithredu i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

*Integreiddio – Cydgysylltu pethau ac osgoi dyblygu*

- *Diogelu Pobl rhag niwed* - Mae'r Cyngor wedi gweithio i sicrhau mai diogelu yw 'gyfrifoldeb i bawb' ac nid cyfrifoldeb gofal cymdeithasol yn unig. Rydym yn gweithio tuag at ganlyniadau cyffredin trwy gyfrwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, trwy weithio ar y cyd a chyfuno adnoddau lle bynnag y gallwn.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Mae Partneriaeth Sgiliau Abertawe yn fforwm anhepgor sy'n rhoi cyfle i bartïon â buddiant ddatblygu dull cyd-gynhyrchiol wrth ddarparu cynlluniau arloesol a fydd yn cael eu cyflawni i osgoi gwrthdaro a pheidio â rhwystro'r canlyniadau cadarnhaol y bydd dysgwyr yn eu cyflawni. Mae'r Adran Addysg yn cydweithio â sawl partner cyflawni allweddol ac yn cydnabod na all gyflawni cynnydd ar ei phen ei hun. Trwy grwpiau ymgynghori allweddol gan gynnwys y Bartneriaeth Gwella Ysgolion, y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc, PACA, ERW, Coleg Gŵyr

Abertawe, Prifysgolion, Iechyd ac arweinwyr ysgolion, y nod yw sicrhau cynllunio a chyflawni cydgysylltiedig neu nodau a rennir.

- *Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* - Bydd y CDLl yn galluogi cyflwyno datblygu cynaliadwy, ac yn sicrhau bod nodau lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol oll yn gytbwys yn y broses benderfynu fel bod y datblygiad priodol yn digwydd yn y lle priodol. Bydd hyn yn cynorthwyo i ragweld darpariaeth gwasanaeth briodol wrth ddarparu lleoedd ysgol, nifer y cartrefi sydd eu hangen i gefnogi cyflwyno swyddi newydd a grëwyd ac yn cynorthwyo i ddatblygu strategaethau a fydd yn ategu agendâu lles a bioamrywiaeth.

- *Trechu Tlodi* - Gall gwaith ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn helpu i gynorthwyo teuluoedd a lliniaru effeithiau amddifadedd ar gyfleoedd a rhagolygon bywyd yn y dyfodol. Gall darpariaeth Blynyddoedd Cynnar cyn gynted â phosibl ym mywyd plentyn helpu i atal angen rhag datblygu yn wasanaethau statudol mwy costus, cefnogi plant i gyflawni yn yr ysgol a thorri cylch canlyniadau gwael yn y dyfodol; yn enwedig y rhai a achosir gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Ar yr un pryd, gellir hyrwyddo a chyfleu negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol gan helpu i wella iechyd a lles cyffredinol.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* – Rydym ni'n parhau i gynnal Adolygiadau Comisiynu a'u gweithredu. Mae arfarniadau opsiynau (cynnyrch Adolygiadau Comisiynu) wedi'u cynllunio i ailfodelu gwasanaethau er mwyn lleihau dyblygu a sicrhau bod gwasanaethau yn gydgysylltiedig. Mae'r prosiect peilot Gwasanaethau yn y Gymuned wedi nodi bylchau a dyblygu gwasanaethau ac wedi darparu canolbwynt i bobl leol a darparwyr gwasanaethau gael gafael ar ragor o wybodaeth a chymorth mewn perthynas â chyflogaeth, addysg, hyfforddiant, iechyd a lles.

- *Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth* - Trwy wella ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a sicrhau ei bod yn cael ei hystyried yng nghamau gwneud penderfyniadau/dylunio cynnar cynlluniau a phrosiectau, bydd y potensial am wrthdaro yn cael ei leihau. Mae'n gydnabyddiaeth o lwyddiant ein bod wedi cael gwahoddiad i gynrychioli awdurdodau lleol mewn ystod o grwpiau cenedlaethol Fforwm Isadeiledd Gwyrdd Cymru i rannu gwersi a ddysgwyd ledled Cymru. Mae Grŵp Gweithio Gyda Natur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ffordd bwysig o ddatblygu prosiectau gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ehangach.

*Cynnwys pobl*

- *Diogelu Pobl rhag Niwed* - Mae Cyngor Abertawe yn datblygu dull cyd-gynhyrchiol o fewn gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi gweld newid yn y modd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn ymgysylltu â'r Cyngor; er enghraifft, trwy Strategaeth Cyfranogi a Chyd-gynhyrchu newydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Bregus.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Rydym ni'n cynnwys pobl yn Abertawe oherwydd trwy ystod o fforymau, digwyddiadau a phrosiectau ledled Abertawe, gan gynnwys y Sgwrs Fawr, Fforwm Llais Disgyblion, ymgynghoriad ar wasanaethau i blant nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, fforymau i Blant sydd wedi profi gofal a'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad penodol ynghylch sawl man chwarae newydd ac uwchraddedig, yn ogystal â dyluniad Llwybr Dilly ac "Olion Traed Dilly", sy'n rhan o ddatblygiad newydd Ffordd y Brenin. Fe wnaethom ni ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Plant yn Abertawe trwy gyflwyno ein gwaith i dros 100 o westeion o bob cwr o Gymru.

- *Gweddnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* - Mae cynnwys pobl yn cael ei gyfleu gan y nifer o bartneriaethau a fforymau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn ein dull o weithio. Mae adfywio a

gwelliannau yn cael eu hystyried yn ôl anghenion a chyfranogiad y grwpiau hynny y bydd y newidiadau yn mynd i effeithio arnynt. Cynnal sioeau teithiol o ddigwyddiadau amrywiol i arddangos ac i gael adborth ar brosiectau allweddol fel Skyline, amddiffyn defnyddwyr a digwyddiadau sy'n cefnogi economi leol Abertawe.

- *Trechu Tlodi* - Nod Gweithio Abertawe yw mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch economaidd a darparu cymorth â chyflogaeth trwy fentora dwys un ac un. Mae pobl unigol yn cyfranogi ac yn cael cymorth yn ystod eu taith eu hunain at gyflogaeth a thu hwnt pan fyddant yn cychwyn gweithio. Yn ogystal â chynnwys cleientiaid, mae'r prosiectau'n cynnwys cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn uniongyrchol i weld a oes unrhyw fylchau sgiliau y mae angen eu llenwi fel bod cleientiaid yn cael eu cynorthwyo trwy'r llwybr hwnnw. Nid yw cefnogaeth yn 'un maint i bawb', ond yn hytrach, mae'n bwrpasol ac yn cael ei deilwra yn unol ag anghenion yr unigolyn a'r cyflogwyr.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* - Mae strategaeth cyd-gynhyrchu yn cael ei datblygu i gynnwys dinasyddion yn fwy yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu newydd Abertawe i ddeall arfer gorau yn well a sicrhau hynny o ran cyd-gynhyrchu i gomisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i oedolion. Bydd Gwasanaethau Oedolion bellach yn cael eu comisiynu'n gyd-gynhyrchiol os gellir gwneud hynny.

- *Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth* -Mae pobl Abertawe wedi bod yn rhannu eu safbwyntiau ynghylch sut gall natur wella canol eu dinas. Cynhaliwyd dros 600 o sgyrsiau wyneb yn wyneb ag aelodau'r cyhoedd. Fe wnaeth yr ymarfer ymgysylltu hwn hysbysu datblygiad strategaeth a chreu lle gwerthfawr i swyddogion a dinasyddion drafod a chael sgyrsiau manylach a all newid agweddau'r naill a'r llall. Mae meithrin gallu gwirfoddolwyr yn weithgaredd allweddol, bydd gwasanaethau'r Cyngor yn cynnwys ac yn cynorthwyo'r gymuned leol i gyfranogi yn y gwaith o nodi a chyflawni mentrau sy'n cynnal ac yn gwella'r amgylchedd naturiol. Mae hyn yn golygu bod rhagor o bobl yn cael eu galluogi i gyrchu a mwynhau eu hamgylchedd naturiol.

## Rhan 3 – Sut mae'r Cyngor yn newid ein dull o weithio: Ble mae angen i'r newid ddigwydd

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid i ni weithio'n wahanol os ydym am gwrdd â heriau yn y dyfodol. I sicrhau y gwnaiff y newid hwn ddigwydd, yn y lle cyntaf, mae'n rhaid i ni newid y systemau ar lefel y Cyngor cyfan sy'n cynorthwyo i gyflawni gwasanaethau penodol. Credwn y bydd canolbwyntio ar 'saith maes ar gyfer newid' o fewn ein sefydliad yn cynnig y dull gorau o'n helpu i newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau y tu allan i'r sefydliad. Mae'r 'meysydd newid' allweddol hyn eisoes wedi cychwyn addasu eu dulliau o weithio:

### Cynllunio Corfforaethol

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn disgrifio'r camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Lles a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol sy'n cael eu hamlinellu yn y Ddeddf.

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol ym mis Mai 2017, mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i adnewyddu ar gyfer 2018/22. Mae hyn yn dilyn cynhyrchu Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, adolygiad o gynnydd ac asesiad o'r dystiolaeth, ystyried sut gallwn ni gau unrhyw fylchau, a mwyhau ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol ymhellach.

Y prif newid yn dilyn yr adolygiad yw ychwanegu chweched amcan lles at Gynllun Corfforaethol 2018/22 – *'Cynnal a gwella Cyfoeth Naturiol a Bioamrywiaeth Abertawe'*.

**Cynllunio Ariannol**

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn dyrannu adnoddau ariannol i sicrhau ein bod yn gallu cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni ein Hamcanion Lles. Mae'r gyllideb flynyddol wedi'i gosod yng nghyd-destun y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae'n gysylltiedig â'r broses cynllunio corfforaethol. Mae'r strategaeth gyffredinol hon yn ddogfen fywyd, a chaiff ei diweddaru pan fydd wybodaeth ar gael a phan gaiff risg ei ddeall.

Mae ein rhaglen drawsnewid *Abertawe Gynaliadwy - yn Addas i'r Dyfodol* yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau gydag egwyddorion cyllidebau clir gan gynnwys canlyniadau cynaliadwy, atal, ymgysylltu a modelau cyflawni newydd (yn aml yn gweithio gan gydweithio â phartneriaid). Cynhaliwyd Adolygiad Blynyddol yn ystod 2018/19 a diwygiwyd y rhaglen a'r llywodraethu wedi hynny. Defnyddiwyd Fframweithiau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i lywio gweithrediad rhaglenni.

Yn y broses o bennu cyllideb ar gyfer 2018/19, cyflwynwyd y pum ffordd o weithio trwy gyfres o gwestiynau a ddyluniwyd i herio meddylfryd. Mae ymgynghori ar y gyllideb yn cynnwys preswylwyr, grwpiau cymunedol, partneriaid, gweithwyr, y Fforwm Cyllideb Ysgolion, Penaethiaid Cyfnodau ar y Cyd, Undebau Llafur ac eraill.

Yn Ionawr 2019, daeth Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yn un o'r cronfeydd pensiwn cyntaf yn y DU i fabwysiadu polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sy'n ymrwymo i sicrhau lleihad o 50% dros y 4 blynedd nesaf yn amlygiadau buddsoddiadau'r gronfa bensiwn (oedd eisoes yn isel) i danwyddau ffosil.

Ynghyd â'i rhaglen lleihau carbon yn ei phortffolio ecwitïau rhestredig, mae'r gronfa hefyd yn ceisio buddsoddi mewn prosiectau isadeiledd sy'n defnyddio ynni yn effeithlon (ynni adnewyddadwy, ynni'r haul, tanwyddau amgen) a thechnoleg lân mewn rhannau eraill o'i bortffolio, a bydd bob amser yn ceisio sicrhau'r enillion gorau gan effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

Mae'r asedau pensiwn bellach yn werth dros £2 biliwn. Yn y dyfodol, bydd cydgyfrannu yn parhau ar y cyd â Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Byddwn yn ymateb i alwadau cynyddol i weithredu mewn ymateb i argyfwng yr hinsawdd wrth warchod ein dyletswydd graidd i sicrhau enillion ac amddiffyn asedau cronfa bensiwn yr aelodau. Mae'r polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn cydnabod yn benodol y ddyletswydd ar amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol o amgylch dod i gysylltiad â charbon, argyfwng y newid yn yr hinsawdd, a nod y llywodraeth o sero carbon net erbyn 2050.

**Cynllunio'r gweithlu (pobl)**

Mae newid diwylliannol yn hanfodol er mwyn cyflawni heriau'r dyfodol. Er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau priodol a chefnogi Datblygu Sefydliadol, mae dyheadau strategol wedi'u nodi ar gyfer 2018-22 sy'n mynd i'r afael ag arweinyddiaeth a datblygu staff fel bod y gweithlu'n addas ar gyfer 'Cyngor y dyfodol'.

Mae cyflwyno gweithio hyblyg a symudol wedi bod yn ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r newid i alluogi staff i weithio'n fwy hyblyg yn mynd rhagddo ac mae'n cael ei gyflwyno yn Neuadd y Ddinas. Mae'r rhaglen wedi helpu i ryddhau lle sylweddol sydd wedi hwyluso gweithio mewn partneriaeth a chynhyrchu incwm. Yn ychwanegol, gall staff weithio'n fwy effeithiol gan leihau'r angen am deithio busnes i gyfarfodydd a lleihau cymudo i'r gwaith. Mae'r tueddiadau hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar allyriadau carbon, cydbwysedd bywyd a gwaith a chyllid. Cam rhesymegol nesaf y rhaglen gweithio hyblyg yw symud tuag at weithio ar sail canlyniadau yn hytrach na system sy'n seiliedig ar amser; mae tri thîm ar hyn o bryd yn arbrofi â'r ffordd newydd hon o weithio.

Mae staff yn parhau i gyfrannu at weithgarwch gwella corfforaethol trwy'r Gymuned Arloesi. Yn ogystal, mae Hwb Awgrymiadau Staff ar-lein newydd a Hwb Arweinyddiaeth newydd wedi'u sefydlu ynghyd â Rhaglen Fentora; dechreuwyd ar y gwaith o sefydlu Cynllun Buddion Gweithwyr. Mae rhaglen wedi cychwyn canolbwyntio ar adolygu a darparu polisïau adnoddau dynol.

**Caffael**

Mae egwyddorion caffael cynaliadwy fel y'u nodir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru yn sail i arfer caffael y Cyngor. Mae swyddogion caffael yn gweithio'n anffurfiol gyda gwasanaethau ar gamau cynharaf y broses gaffael fel y gall rheolwyr ddatblygu manylebau sy'n ystyried gwerth am arian ar sail oes gyfan (mae costau sy'n ymwneud â chynnal a chadw, gwaredu a nwyddau traul yn cael eu hystyried). Mae hyn yn cynnwys gwaith a wnaed i ddatblygu dogfen Canllawiau Caffael ynghylch deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a Chaffael, sy'n darparu cyngor ymarferol i staff i sicrhau eu bod yn ystyried yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar y cyfle cyntaf.

Mae Holiaduron Addasrwydd Cyflenwyr hefyd yn cynnwys adran ar gynaliadwyedd sy'n canolbwyntio ar faterion amgylcheddol, ond hefyd yn mynd i'r afael â chydraddoldebau a diogelu yn ogystal â meini prawf technegol ac economaidd mwy traddodiadol.

Mae Tu Hwnt i Frics a Mortar yn fenter arobryn, sy'n sicrhau buddion cymdeithasol o weithgarwch adeiladu ac adfywio ar draws sectorau yn Ninas a Sir Abertawe er budd parhaol y gymuned. Mae ein Polisi Budd Cymunedol wedi ehangu'r dull gweithredu hwn i gwmpasu holl brosiectau caffael y Cyngor. Mae hyn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau gwerth ychwanegol ac i wneud y mwyaf o gyfraniad at y Nodau Lles o ganlyniad i wariant y sector cyhoeddus yn Abertawe.

Cymerwyd camau hefyd tuag at hyrwyddo dull gweithredu economi gylchol wrth adnewyddu amgylchedd gweithio hyblyg newydd. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy ail-bwrpasu ac ailddefnyddio offer, yn hytrach na phrynu offer newydd o gatalogau. Galluogwyd y dull hwn, a ddatblygodd ffyrdd newydd o weithio gyda menter gymdeithasol, trwy adeiladu ar brofiad cyrff cyhoeddus eraill yn enwedig Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Rheoli Risg**

Adolygwyd dull y Cyngor o ddiffinio a rheoli risg yn 2017 yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r gwaith wedi parhau yn ystod 2018/19 i wella cydymffurfiad â'r Polisi, sydd wedi cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio. T Mae hyn yn cynnwys sefydlu grŵp llywio mewnol i helpu i reoli'r risgiau i'r Cyngor sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit).

Mae gallu'r Cyngor i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit, fel yn achos cyrff cyhoeddus eraill, wedi'i gyfyngu gan yr ansicrwydd ynghylch canlyniad tebygol trafodaethau'r DU â'r UE. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ceisio paratoi cyn belled ag y bo modd ac wedi dilyn arweiniad Llywodraethau WLGA a Chymru / DU ac wedi cysylltu ag eraill er mwyn gwneud hyn mor gynhwysfawr â phosibl.

Ystyriodd y Cyngor yn benodol y risgiau a'r tueddiadau strategol tymor hwy, yn unol â'r Polisi a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth gynnal yr adolygiad blynyddol o Risgiau Corfforaethol yn barod at 2019/20.

**Rheoli Perfformiad**

Rydym wedi parhau i adrodd ar berfformiad bob chwarter gan fodloni ein hamcanion Lles, sy'n cynnwys trosolwg ansoddol i roi'r data yn ei gyd-destun priodol. Yn ystod 2018/19, ers mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol ar ei newydd wedd, rydym wedi gweithio i nodi dangosyddion perfformiad

priodol a digon cadarn i fesur cyfraniad y Cyngor yn llawn ac yn feintiol at wella lles amgylcheddol trwy'r Amcan Lles Corfforaethol newydd ynghylch Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth. Mae’r gwaith hwn wedi bod yn heriol, ond byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu data yn ystod 2019/20.

**Asedau**

Mae'r Cyngor bob amser yn ystyried dulliau newydd o wella'r ein dull oeoli ein hadeiladau, ein tir a’n hamwynderau yn fwy effeithiol. Mae gweithio cydweithredol yn nodwedd gynyddol o’n dull o reoli ein hystâd. Mae'r Bwrdd Eiddo Lleol yn galluogi cyrff cyhoeddus i gydweithio i ganfod atebion sy'n diogelu asedau er budd ein cymunedau yn y tymor hir.  Yn ogystal â chydweithio â phartneriaid, rydym wedi parhau i gynnwys dinasyddion trwy eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb am asedau dros y tymor hir â mesurau diogelwch ar waith ar gyfer eu cadw ar lefel gymunedol.

Mae'r Bwrdd Buddsoddi mewn Eiddo a grëwyd yn ddiweddar, gan fabwysiadu meddylfyrd masnachol, wedi arwain at lwyddiannau mawr o ran caffaeliadau buddsoddi sy'n cynhyrchu dros £600,000 y flwyddyn. Mae gweithgarwch yn dal i fynd rhagddo ynghylch warediadau ochr yn ochr ag ymchwilio i ymarferoldeb dull rhagweithiol o ddatblygu.

Mae cyd-gynhyrchu yn ganolog i ddatblygiad ‘Gwasanaethau yn y Gymuned’, cyfres o brosiectau peilot sydd â’r nod o adleoli sefydliadau partner ochr yn ochr â gwasanaethau’r Cyngor o fewn cymunedau. Mae dinasyddion yn ymwneud â phob agwedd ar ddylunio a datblygu'r hybiau cymunedol newydd i sicrhau bod gwasanaethau cydgysylltiedig gwell yn cynorthwyo preswylwyr â’r hyn sy'n bwysig iddynt. Yn 2018, lansiwyd Fy Nghlydach - hwb aml-asiantaeth lle gall dinasyddion gael mynediad at ystod o wasanaethau a oedd ar gael wyneb yn wyneb yn unig yn flaenorol yn y Ganolfan Gyswllt cwsmeriaid ganolog; gan gynnwys defnyddio technoleg i gael mynediad at y gwasanaethau ar sail un ac un gan ddefnyddio Skype.

Mae newid ein dull o weithio yn helpu’r Cyngor i gael gwell gwerth o’n hasedau. Mae gweithio hyblyg, lle mae staff yn mabwysiadu technoleg sy'n eu galluogi i weithio yn unrhyw le, yn lleihau gofod swyddfa nas defnyddir yn ddigonol oherwydd mae staff yn gallu rhannu desgiau, mae’n hyrwyddo cydweithredu a thrawsnewid sut rydym yn ystyried offer a dodrefn 'gwastraff' trwy ystyried sut y gallwn ailddefnyddio, ailbwrpasu neu ailwampio eitemau yr ydym eisoes yn berchen arnynt yn hytrach na phrynu rhai newydd.

## Rhan 4 – Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn dal i fod ar ddechrau'r daith i gynnwys y Ddeddf yn ei threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd ond mae wedi dechrau gwneud cynnydd da. Mae llywodraethu datblygu cynaliadwy wedi bod yn egwyddor drefniadol allweddol i Gyngor Abertawe ers 2012, wedi'i ymgorffori yn llywodraethiant Abertawe trwy Bolisi Datblygu Cynaliadwy, a fydd yn cael ei adolygu yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod 2019/20.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn cael ei ymgorffori’n gynyddol ym mhob agwedd o lywodraethu. Integreiddiwyd Datganiad Llesiant cyntaf y Cyngor o fewn Cynllun Corfforaethol 2017/22 a chafodd ei fabwysiadu yn 2018. Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth wraidd rhaglen drawsnewid y Cyngor, sef *Abertawe Gynaliadwy – yn Addas i’r Dyfodol.* Mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio dull seiliedig ar gwestiynau i gynnwys y pum ffordd o weithio yn y broses gosod cyllideb sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Cynllun Corfforaethol. Addaswyd Cynlluniau Gwasanaethau i ymgorffori'r Ddeddf trwy alluogi gwasanaethau i ddangos yn well eu cyfraniad at Amcanion Llesi y Cyngor a sut y gallant wneud y mwyaf o'r cyfraniad hwnnw trwy'r pum ffordd o weithio.

Mae gwaith ar y gweill i gynnwys dinasyddion yn fwy mewn democratiaeth leol a phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor ac mae strategaeth cydgynhyrchu yn cael ei datblygu i gynnwys dinasyddion yn fwy wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos â Rhwydwaith Cydgynhyrchu newydd Abertawe i ddeall arfer gorau yn well a sicrhau hynny o ran cydgynhyrchu i gomisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol i oedolion. Bydd Gwasanaethau Oedolion bellach yn cael eu comisiynu'n gydgynhyrchiol os gellir gwneud hynny.

Mae Dinas a Sir Abertawe wedi cymeradwyo a mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith newydd CIPFA / SOLACE, 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016'. Adolygodd y Cyngor ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n dangos sut mae'r Cyngor yn llywodraethu ac yn gwneud penderfyniadau yn unol â'r Cod ac egwyddorion llywodraethu da. Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn darparu sicrwydd ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethu yn y Cyngor.

Mae'r Polisi a'r Fframwaith Rheoli Risg corfforaethol diwygiedig yn ceisio ymgorffori'r pum ffordd o weithio i nodi, asesu, ymateb a rheoli risg. Risgiau Corfforaethol y Cyngor a restrir isod, sy'n cyd-fynd â'n Amcanion Llesiant, yw'r risgiau hynny (pe baent yn cael eu gwireddu) a fyddai'n cael effaith ar y Cyngor cyfan ac a fyddai'n cael effaith niweidiol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion:

- Rheolaeth Ariannol – agweddau Cynllun Ariannol Tymor Canol Abertawe Gynaliadwy
- Cyflawni rhaglen trawsnewid Abertawe Gynaliadwy
- Ailddatblygu Canol y Ddinas
- Diogelu
- Cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion
- Trechu Tlodi
- Strategaeth y Gweithlu
- Diogelwch digidol, diogelwch data a seibrddiogelwch
- Cynlluniau argyfyngau, gwytnwch a pharhad busnes.
- Iechyd a Diogelwch
- Gofynion deddfwriaethol a statudol newydd
- Y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd (BREXIT)
- Efadu Trethi
- Gweithio'n rhanbarthol

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiad bob chwarter ynghylch statws cyffredinol risg yn y Cyngor. Mae gan y Pwyllgor Archwilio fynediad at y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol a chynhwysir copi ym mhecyn adroddiadau cyhoeddus y Pwyllgor Archwilio.

**Atebolrwydd**

Bydd y Cyngor yn adrodd ar berfformiad gan ddefnyddio dangosyddion lleol a chenedlaethol i helpu i fesur cynnydd gan gyflawni ei Amcanion Lles. Cyflwynir adroddiad monitro perfformiad i'r Cabinet bob chwarter ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Caiff yr adroddiadau hyn eu hadolygu gan banel craffu'r Cyngor yn chwarterol ac yn flynyddol.

Bydd cyrff arolygu ac archwilio, megis Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru, yn profi perfformiad gwasanaethau penodol ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyfrannu at y nodau cenedlaethol ac yn cynyddu ei gyfraniad i'r eithaf trwy'r pum ffordd o weithio. Bydd y cyrff rheoleiddio hyn yn cyhoeddi eu canfyddiadau; yn eu Hadroddiad Gwelliant Blynyddol ynghylch

Cyngor Abertawe ar gyfer 2018/19, canfu Swyddfa Archwilio Cymru fod y Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â phobl Abertawe ac eraill ac yn eu holi ynghylch eu barn am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir i wella gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn ceisio harneisio potensial offer digidol sy'n cael eu pweru gan ddefnyddwyr i olrhain canlyniadau. Un enghraifft arloesol yw datblygiad cynnar adnodd lles ar-lein ar gyfer plant ysgol – Fy Selfie. Mae hyn wedi cael ei ddatblygu a'i brofi ar y cyd â sawl ysgol ac mae'n cyfleu barn plentyn ynghylch ei les.

Mae llawer o gyfarfodydd Pwyllgorau yn agored i'r cyhoedd a chroesawir cwestiynau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd y Cyngor, Craffu, y Pwyllgor Archwilio a Phartneriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. Trefnwyd sawl sesiwn hyfforddi a fynychwyd yn dda ar gyfer cynghorwyr cymunedau a thref iyn 2018/19 ac mae'r rhain wedi helpu i sicrhau fod gan gynghorwyr ddealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy y gallant ei ddefnyddio i herio cynllunio a darparu gwasanaethau.

Bydd aelodau'r panel craffu yn benodol yn defnyddio'r pum dull o weithio i sicrhau bod Aelodau'r Cabinet a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn atebol. Caiff cwestiynau eu cyfleu yn gynyddol mewn perthynas â'r pum dull o weithio. Mae'n ofynnol yn systematig i Aelodau'r Cabinet adrodd ar effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar eu portffolio a'u dull o weithio a gwneud penderfyniadau. Gofynnir iddynt egluro'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'u gwaith a sut mae hyn yn gwneud gwahaniaeth.

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cael sylw rheolaidd gan y panel craffu ynghylch sut mae'n gwneud gwahaniaeth. Gwahoddir aelodau statudol i gynnig tystiolaeth ynghylch y blaenoriaethau y maent yn arwain gwaith yn eu cylch. Mae gwaith craffu yn cynnwys Aelodau etholedig a chynrychiolwyr sefydliadau partner BGC Abertawe hefyd. Mae'r panel yn cynnwys Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu eraill sy'n sicrhau dull integredig a chadarn o ymchwilio. Mae craffu wedi cyfrannu at lwyddiant y Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol trwy gyfrwng sawl dull, sy'n cael eu disgrifio yn yr Adroddiad Craffu Blynyddol:

**Gweithio'n rhanbarthol**

Mae'r Cyngor yn cyfranogi mewn tair partneriaeth ranbarthol allweddol: Bargen Dinas Bae Abertawe, Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg a Gwasanaeth Gwella Ysgolion ERW. Fe wnaeth Adolygiad Blynyddol o Weitio Rhanbarthol roi adroddiad ynghylch cynnydd i'r Cyngor yn ystod 2018/19.

Er y gwnaed cynnydd da yn 2018/19 (ond ar gyfraddau gwahanol), nodwyd nifer o heriau ar gyfer pob un o'r cydweithrediadau rhanbarthol. Mae rhai o'r heriau yn sylweddol ac maent y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor; serch hynny, mae gweithio rhanbarthol yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn addas at y diben, yn gynaliadwy ac yn sicrhau canlyniadau da i ddinasyddion.


**Crynodeb o'n perfformiad yn erbyn Dangosyddion Cenedlaethol 2018/19**

Bob blwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru a Data Cymru (yr Uned Data Llywodraeth Leol gynt) yn cyhoeddi adnoddau ar wybodaeth am berfformiad awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu y gellir cymharu perfformiad 22 awdurdod lleol Cymru ar draws y gwasanaethau hyn. Mae'r adran hon yn crynhoi sut gwnaethom ni berfformio yn 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Perfformiad Cenedlaethol o'i Gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol**


In 2018/19, casglwyd 31 o ddangosyddion perfformiad a chynigiwyd eu cyhoeddi yn genedlaethol. Oherwydd newidiadau yn nyddiadau cyhoeddi setiau data, ar yr adeg hon, o'r 31 dangosydd, mae gan 14 ddata y gellir eu cymharu â pherfformiad 2017/18, ac o blith y data hynny:

- Roedd 7 wedi gwella, neu wedi cyflawni 100% unwaith eto;
- Fe wnaeth 2 aros yn ddigyfnewid; ac
- Gwelwyd gostyngiad yn achos 5 ohonynt.




Mae'r tabl isod yn cynrychioli cymhariaeth dros y 7 mlynedd diwethaf o sut rydym wedi perfformio yn erbyn cynghorau eraill yng Nghymru ar sail y dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd ar gyfer pob blwyddyn.

Wrth gymharu setiau data rhwng gwahanol flynyddoedd, mae'n rhaid cofio bod nifer wahanol o ddangosyddion statudol wedi'u dadansoddi bob blwyddyn.




| | Gwelliant | Dirywio | Sefydlog |
|---|---|---|---|
| 18/19 | 50.00% | 35.71% | 14.29% |
| 17/18 | 46.15% | 38.46% | 15.38% |
| 16/17 | 39.13% | 47.83% | 13.04% |
| 15/16 | 39.47% | 52.63% | 7.89% |
| 14/15 | 51.22% | 31.71% | 17.07% |
| 13/14 | 68.20% | 31.80% | 0.00% |
| 12/13 | 74.40% | 23.10% | 2.60% |

Yn ystod blynyddoedd blaenorol, rydym wedi dadansoddi lle mae dangosyddion yn cael eu gosod mewn chwarteli o'u cymharu â'u Dangosyddion Perfformiad perthynol ar gyfer pob adran o'r Cyngor. Caiff niferoedd bychan eu cymharu eleni, felly nid yw'n gynrychiadol dangos y chwarteli priodol o ran dadansoddiad o adrannau. Bydd setiau data sydd ar goll ar gyfer Gwasanaethau Gwastraff a Gwasanaethau Cymdethol ar gael i'r cyhoedd trwy law Data Cymru ar yr adeg berthnasol.

Fodd bynnag, mae'r rhestr o Fesurau Cenedlaethol Cymaradwy sydd ar gael ar hyn o bryd i'w gweld trwy droi at http://www.mylocalcouncil.info/, sy'n cynnwys gwybodaeth hanesyddol am berfformiad cenedlaethol.

**Ble gellir canfod gwybodaeth ychwanegol**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu sylwadau am gynnwys y cynllun hwn, gallwch chi gysylltu trwy: E-bostio improvement@swansea.gov.uk neu ffonio 01792 637570.

Cynllun Corfforaethol 2018/22, Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy:
http://www.swansea.gov.uk/corporateimprovementplan

*Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*
https://www.swansea.gov.uk/localwellbeingplan. Mae rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gael yma: http://www.swansea.gov.uk/psb

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*
https://www.swansea.gov.uk/wellbeingfuturegenerations

*Adroddiadau'r Bwrdd Craffu*
https://www.swansea.gov.uk/scrutiny

*Pwyllgor Archwilio*
*https://democracy.swansea.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=123&Year=0&LLL=0*

*Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*
http://www.swansea.gov.uk/sep

*Adroddiadau Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru*
*http://www.audit.wales/publications?combine=&field_topics_tid_i18n=All&field_sectors_tid_i18n=55&created_1=All&field_area_tid_i18n_1=All&field_reports_tid_i18n=All&=Update+Results*

*Adroddiadau Arolygon Estyn*
http://www.estyn.gov.uk/english/inspection/inspection-reports/?searchTitle=&searchType=All&localAuthority=51&searchPostcode=&searchDistance=10&submitted=1

*Adroddiadau Arolygaeth Gofal Cymru*
*http://cssiw.org.uk/our-reports/?lang=en*

*My Local Council*
*http://www.mylocalcouncil.info/*